WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

15 Tachwedd 2007
www.wao.gov.uk

Tir Gofal

Tir Gofal

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Roedd tîm Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Paul Dimblebee, Emma Giles, Bethan Jones, Ben Robertson a Manel Tippett.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd
CF10 3PA

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae'n archwilio ac yn gwirio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan, neu sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Hefyd, mae ganddo'r hawl statudol i wneud adroddiad ar gynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cyrff hynny ac i wella'u defnydd o adnoddau wrth gyflawni'u dyletswyddau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal a hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn archwilio cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau dan Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Fodd bynnag, er mwyn diogelu safle cyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'r adrodd yn ôl yn benodol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y gwaith llywodraeth leol hwn, ar wahan i phan y mae'n ofynnol i wneud hynny gan ddeddf.

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, byddwch cystal ag ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 029 2026 0260, e-bost: wales@wao.gov.uk, neu gwelwch ein gwefan http://www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2007

Gellir ail-ddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (gan eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat. Mae'n rhaid ei ail-ddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a dylid nodi teitl y cyhoeddiad hwn.

Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, mae'n rhaid sicrhau caniatâd y rheini sydd a'r hawlfraint cyn ei ail-ddefnyddio.

Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 15 Tachwedd 2007

Cynnwys

	Crynodeb	5
	Argymhellion	12
1	Mae arwyddion addawol bod Tir Gofal yn gwella'r amgylchedd gwledig a bod iddo fanteision ehangach, ond heb ymrwymiad ariannol hirdymor efallai na ellir cynnal y manteision a gafwyd	16
	Tir Gofal yw'r prif gynllun amaeth-amgylcheddol yng Nghymru	16
	Mae dangosyddion yn awgrymu bod Tir Gofal yn cyflawni ei amcanion craidd	16
	Mae'r cynllun yn darparu manteision economaidd-gymdeithasol a diwylliannol ehangach	34
	Gall y manteision a gafwyd gan y cynllun fod mewn perygl heb ymrwymiad ariannol hirdymor	35
2	Mae'r cynllun wedi'i lunio'n dda ac fe'i rheolir yn dda, ond mae'n costio mwy i'w redeg nag y disgwyliwyd yn wreiddiol	37
	Mae'r cynllun yn cyd-fynd yn dda â strategaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer yr amgylchedd a ffermio	37
	Mae'r cynllun wedi'i lunio'n dda ar y cyfan, ond mae angen gwneud rhai mân newidiadau i sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben	39
	Mae gan swyddogion a rhanddeiliaid Tir Gofal rai amheuon ynghylch hyblygrwydd y cynllun a'r modd y'i targedir	49
	Mae'r cynllun yn rhedeg yn ddiddrafferth, ond mae'n costio mwy i'w redeg nag y disgwyliwyd yn wreiddiol	53
	Gellid cael manteision wrth drosglwyddo cyfrifoldeb dros gyflwyno'r cynllun i Lywodraeth y Cynulliad, ond mae risgiau hefyd y mae angen eu rheoli	61
	Atodiadau	64
	Atodiad 1 - Methodoleg	64
	Atodiad 2 - Canfyddiadau allweddol o Arolwg Cefn Gwlad y Deyrnas Unedig 2000	66
	Atodiad 3 - Opsiynau cynefinoedd a ariannwyd gan Tir Gofal	68
	Atodiad 4 - Grwpiau ffocws o ddeiliaid cytundeb ac ymgeiswyr	69

Crynodeb

1 Tir Gofal yw'r prif gynllun amaeth-amgylcheddol yng Nghymru. Mae'n talu rheolwyr tir – ffermwyr fel arfer – i reoli tir amaethyddol mewn ffordd sy'n fanteisiol i'r amgylchedd, ac mae'n agored i unrhyw ddaliad tir yng Nghymru y bernir bod ganddo ddigon o werth amgylcheddol gwirioneddol neu bosibl. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhannol ariannu cost y taliadau i ddeiliaid tir, sef £19 miliwn yn 2006/2007 ac ar 31 Awst 2007 cyfanswm cost y taliadau hyn oedd £100.3 miliwn ers dechrau'r cynllun ym 1999.

2 Ar ddiwedd Awst 2007 cwmpasai Tir Gofal 2,958 o ffermydd[1] a 333,000 o hectarau o dir. Amcanion craidd y cynllun yw:

- **a** diogelu a gwella cynefinoedd sydd o bwys i fywyd gwyllt;
- **b** diogelu'r amgylchedd hanesyddol;
- **c** diogelu ac adfer tirweddau gwledig;
- **ch** hyrwyddo mynediad cyhoeddus i gefn gwlad.

3 Cyn ffenestr geisiadau 2006, roedd y cynllun wedi bod ar gau i ymgeiswyr newydd ers i'r ffenestr geisiadau flaenorol yng ngwanwyn 20 03 esgor ar 1,910 o geisiadau cymwys. Arweiniodd y nifer fawr hon, ynghyd â chyfyngiadau cyllideb, at restr aros hir a bu'n rhaid i rai ymgeiswyr aros hyd at dair blynedd am ymweliad cychwynnol.

4 Dim ond data cyfyngedig sydd ar gael am effaith y cynllun, a defnyddiwyd data allbwn fel dangosydd dirprwyol o lwyddiant y cynllun. Mae angen i'r cynllun allu addasu i newidiadau mewn polisi amgylcheddol ac amaethyddol ar lefel genedlaethol, Ewropeaidd a byd-eang, a bwriedir cynnal adolygiad polisi mawr yn 2007/2008 yng ngoleuni newidiadau pellach i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP). Ym mis Hydref 2006, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros weinyddu'r cynllun o Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), a oedd wedi rhedeg y cynllun ers iddo ddechrau, i Lywodraeth y Cynulliad.

5 Yng ngoleuni'r materion hyn, mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r cwestiwn a yw Tir Gofal mewn sefyllfa dda i gyflawni ei amcanion, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'n canolbwyntio ar berfformiad Tir Gofal o ran cyflawni ei amcanion canlyniad, ac a yw'r cynllun yn ceisio cynyddu hyd yr eithaf ar fanteision posibl ac a yw'n gallu gwrthsefyll risgiau yn y dyfodol.

6 Yn gyffredinol, daethpwyd i'r casgliad bod Tir Gofal yn debygol o fod o fudd i'r amgylchedd gwledig ac mae tystiolaeth ei fod yn sicrhau manteision diwylliannol ac economaidd-gymdeithasol ehangach hefyd. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o effaith y cynllun ar yr amgylchedd mewn perthynas â ffactorau eraill yn amhendant. Ac, er bod y cynllun wedi'i lunio'n dda ac yn cael ei reoli'n dda ar y cyfan, mae'n costio mwy i'w redeg nag y rhagwelwyd yn wreiddiol. Ar ben hynny

1 Roedd tua 3,100 o gytundebau wedi'u llofnodi ond nid yw rhai o'r rhain yn y cynllun mwyach.

mae angen iddo addasu i fod yn fwy ymatebol i anghenion a blaenoriaethau lleol, ac adlewyrchu amcanion polisi ehangach.

Mae arwyddion addawol bod Tir Gofal yn gwella'r amgylchedd gwledig a bod iddo fanteision ehangach, ond heb ymrwymiad ariannol hirdymor efallai na ellir cynnal y manteision a gafwyd

7 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cadw data cynhwysfawr am y gweithgareddau a ariennir gan Tir Gofal, ond mae llawer llai o wybodaeth ar gael am ei ganlyniadau, o ran y gwelliannau amgylcheddol a'r gwelliannau eraill a wnaed. Mae sawl rheswm dros hyn: mae'n anodd casglu gwybodaeth ddibynadwy am rai canlyniadau a'r graddau y mae Tir Gofal wedi cyfrannu atynt; mae'n rhy gynnar i asesu effaith lawn y cynllun am y gall newid amgylcheddol gymryd amser hir iawn; ac mae bylchau sylweddol yng nghwmpas gwaith ymchwil a gwerthuso Llywodraeth y Cynulliad.

Mae dangosyddion yn awgrymu bod Tir Gofal yn cyflawni ei amcanion craidd

Er ei bod yn anodd asesu effaith lawn y cynllun, mae tystiolaeth i awgrymu bod Tir Gofal yn helpu i ddiogelu a gwella cynefinoedd

8 Erbyn hyn mae'r cynllun yn cwmpasu 20 y cant o'r tir amaethyddol yng Nghymru, cyfradd fanteisio sy'n cymharu'n dda â chynlluniau tebyg yn Lloegr a'r Alban, a chwmpesir mwy o dir amaethyddol yn yr ardaloedd hynny sydd â gwerth amgylcheddol penodol: Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu y dylai'r gweithgareddau a ariennir gan y cynllun fod yn fanteisiol i gynefinoedd. Fodd bynnag, dim ond tystiolaeth gyfyngedig sydd o'r graddau y gellir priodoli newidiadau buddiol i gynefinoedd i Tir Gofal yn hytrach na ffactorau eraill. Hefyd, nid oes data cynhwysfawr am gynefinoedd yng Nghymru a sut y maent yn newid dros amser. Oherwydd hynny mae'n anodd rhoi'r hyn a gyflawnwyd gan Tir Gofal mewn cyd-destun.

9 Comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad astudiaeth 12 mlynedd fanwl i olrhain effaith y cynllun ar gynefinoedd pwysig. Er bod y canlyniadau cychwynnol yn galonogol, mae'n rhy gynnar i ddod i gasgliadau pendant o'r astudiaeth. Hefyd, nid ystyriwyd effaith newidiadau mewn arferion rheoli ffermydd ar y safleoedd a arolygwyd. Dengys rhai astudiaethau ymchwil unigol fod Tir Gofal yn debyg o gael effaith fuddiol ar ystlumod a rhai rhywogaethau o adar, ond nid aseswyd yr effaith gyffredinol ar anifeiliaid.

10 Mae dyletswydd ar berchenogion tir i ddilyn rhai arferion rheoli yr ystyrir bod iddynt werth amgylcheddol penodol, a chânt adfer neu greu cynefinoedd newydd, ond nid aseswyd effaith 17 o opsiynau cynefinoedd, megis troi tir pori yn dir âr a chreu coridorau glannau nentydd. Er nad oes ond angen i ffermwyr barhau ag arferion rheoli sy'n bodoli eisoes, mewn llawer o achosion, i gwrdd â gofynion y cynllun nid yw'n glir i ba raddau y gallai arferion rheoli fod wedi newid er anfantais i gynefinoedd sy'n bodoli eisoes heb y cynllun. Felly, mae angen casglu gwybodaeth fwy cynhwysfawr am effaith y cynllun ar arferion ffermio.

Er na wnaed fawr ddim gwaith monitro a gwerthuso, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod Tir Gofal yn diogelu'r amgylchedd hanesyddol

11 Mae dyletswydd ar ddeiliaid cytundebau i ddiogelu nodweddion hanesyddol, megis hen ysguboriau, corlannau a pharcdiroedd hanesyddol, a chânt y dewis o'u hadfer. Ar 31 Gorffennaf 2006, roedd Tir Gofal yn diogelu 16,382 o nodweddion hanesyddol a 3,449 o hectarau o barciau a gerddi hanesyddol, ac ar 31 Mawrth 2007 roedd wedi ariannu gwaith adfer ar 487 o ffermydd. Mae ymweliadau cydymffurfiaeth arferol yn awgrymu na fu unrhyw ddirywiad amlwg yng nghyflwr y cyfryw nodweddion, ond ni chaiff eu cyflwr ei fonitro yn ffurfiol. Mae Cadw yn monitro cyflwr llawer o nodweddion hanesyddol ond nid yw'n cyflwyno adroddiadau ar wahân ar y rhai sydd ar dir Tir Gofal. Canfu gwerthusiad o'r cynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (AAS) yng Nghymru, oedd â chyfarwyddiadau tebyg i Tir Gofal, ar y cyfan, ei fod yn gwella cyflwr nodweddion hanesyddol.

Mae data allbwn yn awgrymu bod Tir Gofal yn helpu i ddiogelu a gwella harddwch y dirwedd

12 Mae harddwch y dirwedd yn farn oddrychol, ond mae Tir Gofal yn cyfrannu cryn dipyn tuag at nodweddion y derbynnir yn gyffredinol eu bod yn gwella apêl weledol y dirwedd. Dan y cynllun gwariwyd £7.5 miliwn ar adfer ffiniau traddodiadol (gwrychoedd, waliau cerrig a chloddiau), ac mae creu coetir a thir âr newydd yn helpu i greu tirwedd fwy amrywiol. Mae cytundebau yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr gadw ffiniau caeau sy'n bodoli eisoes. Dengys tystiolaeth arolygon fod y mwyafrif o ddeiliaid cytundebau yn debygol o fuddsoddi mewn ffiniau p'un a oeddynt yng nghynllun Tir Gofal ai peidio, ond helpodd y cynllun hwy i gynyddu'r gwaith yr oeddynt yn gallu ei ariannu a'u galluogi i wneud y gwaith hwnnw yn gyflymach.

Mae Tir Gofal cynyddu cyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad i gefn gwlad ond erys problemau yn gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth, mynediad caniataol ac ymweliadau mynediad addysgol

13 Mae'n ofynnol i ddeiliaid cytundebau gadw hawliau tramwy presennol yn ddirwystr ar eu tir, a gallant ddewis creu mynediad caniataol newydd (llwybrau a mannau agored) tra bydd eu cytundeb mewn grym. Mae'r cynllun yn cwmpasu 12 y cant o'r rhwydwaith hawliau tramwy yng Nghymru ac mae wedi creu mynediad caniataol newydd i 405 o gilometrau o lwybrau troed a 1,804 o hectarau o ardaloedd mynediad agored. Dangosodd arolwg Cymru gyfan o hawliau tramwy yn 2002 nad oedd y cynllun wedi gwella cyflwr llwybrau cyhoeddus ar dir Tir Gofal ryw lawer. Yn dilyn yr arolwg, atgyfnerthodd swyddogion eu gweithdrefnau, er enghraifft, trwy atal taliadau i ddeiliaid cytundebau nad oeddynt yn cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol a gwella cysylltiadau ag awdurdodau lleol a Chymdeithas y Cerddwyr. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn monitro'r defnydd y mae'r cyhoedd yn ei wneud o ardaloedd a llwybrau mynediad caniataol a ariennir gan Tir Gofal, na chanfyddiad cerddwyr o werth y mynediad ychwanegol neu well hwn. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu na hysbysebir mynediad caniataol yn eang ac nad yw wedi'i nodi'n glir ag arwyddbyst.

14 Gall deiliaid cytundebau hefyd drefnu ymweliadau addysgol â'u ffermydd, yn bennaf o ysgolion lleol. Cafwyd tua 4,200 o ymweliadau ers i'r cynllun ddechrau, sydd wedi ymestyn mynediad addysgol i gefn gwlad gryn dipyn. Fodd bynnag, ni allai rhai ffermwyr hawlio'r taliad blynyddol llawn o £500 am iddynt fethu â threfnu'r chwe ymweliad angenrheidiol y flwyddyn. Y rhesymau a roddwyd dros hyn oedd y baich gwaith sylweddol a oedd yn gysylltiedig â'r cyfryw ymweliadau a'r cymorth cyfyngedig a oedd ar gael iddynt; mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal prosiect i'w gwneud yn haws i ffermwyr drefnu'r ymweliadau.

Mae manteision economaidd-gymdeithasol a diwylliannol ehangach i'w gweld yn sgîl y cynllun

15 Amcangyfrifodd adolygiad annibynnol yn 2005 fod y £11.2 miliwn a dalwyd i ddeiliaid cytundebau Tir Gofal yn 2003 wedi creu gwariant ychwanegol yn yr economi o £4.2 miliwn a 112 o swyddi. Roedd y rhan fwyaf o'r fantais ariannol wedi'i chadw gan ffermwyr, er bod manteision sylweddol i gontractwyr lleol hefyd. Rhoddodd cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws werth ar y manteision economaidd lleol a sicrhawyd gan Tir Gofal, yn arbennig ar gyfer swyddi traddodiadol megis plannu a phlygu gwrychoedd a chodi waliau, ac yng Ngogledd Cymru credent fod hyn yn bwysig i gynnal cymunedau Cymraeg bach.

Gall y manteision a gafwyd gan y cynllun fod mewn perygl heb ymrwymiad ariannol hirdymor

16 Bydd llawer o'r canlyniadau a ddymunir gan gynllun Tir Gofal yn cymryd amser hir i'w cyflawni, yn arbennig os ydynt yn cynnwys adfer neu greu cynefinoedd sensitif megis gweirgloddiau neu goetiroedd collddail. Ac mewn llawer o achosion nid oes fawr ddim cymhelliant economaidd i dirfeddiannwr barhau ag arferion buddiol heb gael ei dalu. Er bod rheoliadau amgylcheddol newydd yn darparu rhywfaint o ddiogelwch ar gyfer rhai cynefinoedd, maent yn annhebygol o'u hatal rhag graddol ddirywio am nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i weithredu'r math o arferion rheoli rhagweithiol a ragnodir gan Tir Gofal.

17 Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi casglu unrhyw wybodaeth am a yw cyfranogwyr mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol, megis cynlluniau Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif a chynllun Tir Cymen, wedi parhau ag arferion buddiol ar ôl i'w cytundebau ddod i ben, neu faint o gyfranogwyr a ymunodd â chynllun olynol megis Tir Gofal. Mae unrhyw oedi o ran cyfnewid un cynllun am un arall yn cynyddu'r risg y collir manteision sy'n dod i'r amlwg. Oherwydd y nifer fawr o geisiadau a oedd yn aros i'w prosesu o ffenestr geisiadau 2003 bu'n rhaid i rai ffermwyr a oedd wedi cymryd rhan yng nghynllun Tir Cymen neu'r cynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif cyn hynny aros cryn amser heb gael eu talu cyn ymuno â chynllun Tir Gofal, ac oherwydd hynny roedd risg y byddent yn penderfynu rhoi'r gorau i fod yn aelodau o gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn gyfan gwbl.

Mae'r cynllun wedi'i lunio'n dda ac fe'i rheolir yn dda, ond mae'n costio mwy i'w redeg nag y disgwyliwyd yn wreiddiol

Mae'r cynllun yn cyd-fynd yn dda â strategaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer yr amgylchedd a ffermio

18 Mae Tir Gofal yn rhan o byramid cydlynol o gynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n darparu lefelau cynyddol o ddiogelwch amgylcheddol. Mae dyluniad y cynllun yn seiliedig ar brofiad â chynlluniau blaenorol, yn arbennig Tir Cymen, ac ar gyngor arbenigol ar effeithiolrwydd cyfarwyddiadau. Ymgynghorodd gwneuthurwyr polisi yn eang ynghylch dyluniad y cynllun, sy'n cyd-fynd yn dda â strategaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer yr amgylchedd, ffermio a datblygu cynaliadwy. Datblygwyd llawer o'r strategaethau hyn ar ôl Tir Gofal, ond mae'r cynllun yn dal i fod yn dra pherthnasol i'r heriau amgylcheddol yng Nghymru a chynlluniau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer mynd i'r afael â hwy. Ailgyfeiriodd adolygiad o Tir Gofal yn 2001 (yr adolygiad Cloriannu) y cynllun tuag at ffermydd cymysg, ffermydd teulu o faint canolig a ffermwyr iau. Diwygiodd yr adolygiad Cloriannu weithdrefnau gweinyddol hefyd i symleiddio'r cynllun a gwella effeithlonrwydd.

Mae'r cynllun wedi'i lunio'n dda ar y cyfan, ond mae angen gwneud rhai mân newidiadau i sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben

19 Mae gan lawer o randdeiliaid ac academyddion barch mawr tuag at gynllun Tir Gofal, ac maent yn credu bod ymagwedd integredig y cynllun sy'n cwmpasu'r fferm gyfan yn nodwedd arbennig o werthfawr. Mae'r cyfarwyddiadau yn mynd i'r afael â'r risgiau i gefn gwlad Cymru a nodwyd adeg llunio'r cynllun, a ail-gadarnhawyd yn 2003 gan y gwerthusiad canol tymor o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru. Mae'r risgiau hyn yn cynnwys: maint cynyddol ffermydd; lleihad yn y sectorau gwartheg, grawnfwyd a gwreiddgnydio; defnydd helaethach o silwair yn hytrach na gwair; dirywiad mewn ffiniau caeau traddodiadol; a cholli gweundir a rhostir grug. Mae'r tueddiadau hyn yn tueddu i leihau bioamrywiaeth a niweidio cynefinoedd ar gyfer adar a mamaliaid tir ffermio.

20 Mae system sgorio ar gyfer asesu ceisiadau yn sicrhau mai dim ond ffermydd sydd â gwerth amgylcheddol uchel gwirioneddol neu bosibl a all ymuno â'r cynllun; dyfernir pwyntiau am bresenoldeb cynefinoedd neu nodweddion gwerthfawr a'r parodrwydd i adfer neu greu rhai eraill. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn coladu gwybodaeth am sgorau. Oherwydd hynny mae'n anodd nodi pwysigrwydd cymharol y gwahanol feini prawf wrth bennu sgorau a'r graddau y mae Tir Gofal yn talu am ddiogelu tir o werth uchel sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chreu cynefinoedd a nodweddion newydd. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod graddau'r tir heb ei wella neu dir wedi'i rannol wella wedi bod yn bwysig o ran penderfynu pwy sy'n cael ymuno â'r cynllun, a bod yn rhaid i ffermydd llai o faint, mwy dwys ar dir isel wneud mwy i gael ymuno â'r cynllun.

21 Mae'r diwygiadau diweddar i'r CAP yn golygu na fydd ffermwyr yn derbyn cymorthdaliadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â faint y maent yn ei gynhyrchu mwyach. Daeth astudiaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i'r casgliad y byddai effaith y polisi diwygiedig yn amrywio yn ôl sector ffermio a

rhanbarth, ond bod parhau i golli gwartheg, gadael tir i fynd yn segur a datblygu ffermydd mawr yn cadw defaid yn unig yn debygol o fod yn risgiau sylweddol. Mae Tir Gofal mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r risgiau hyn ac mae wedi cyflwyno isafswm cyfradd stocio, yn ogystal ag uchafswm, i osgoi'r risg y gadewir i dir fynd yn segur.

22 Fodd bynnag, mae staff Tir Gofal o'r farn nad yw'r cynllun yn cynnig digon o gymhellion i ddarbwyllo ffermwyr i ddechrau pori gwartheg lle y byddent yn ychwanegu'r gwerth mwyaf – ar ffriddoedd sy'n cael eu pori gan ddefaid yn unig. Hefyd, roedd rhai o reolwyr Tir Gofal o'r farn bod ffermydd defaid mawr ar dir uchel yn derbyn cyfran anghymesur o'r arian sydd ar gael yn gyfnewid am werth ychwanegol cyfyngedig. Heb wybodaeth fanwl am sgorau'r ceisiadau, taliadau a wnaed a'r effeithiau amgylcheddol o ran y cyfryw ffermydd, nid oes modd asesu faint o wirionedd sydd yn yr honiadau hyn.

23 Fel sy'n ofynnol o dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd, mae cyfraddau taliadau ar y cyfan yn seiliedig ar gost amcangyfrifedig llafur, deunyddiau a / neu incwm a gollwyd (incwm a ildiwyd) ar gyfer pob gweithgaredd. Fel arfer nid yw taliadau yn cwrdd â'r gost gyfan, yn arbennig ar gyfer gwaith cyfalaf a fydd yn cynyddu gwerth fferm.

24 Yn gyffredinol, mae'r nifer fawr o geisiadau ar gyfer cynllun Tir Gofal yn awgrymu bod cyfraddau taliadau yn ddigonol i ddod â ffermwyr i mewn i'r cynllun. Mae tystiolaeth arolygon yn awgrymu nad yw Tir Gofal wedi arwain at gynnydd mewn incwm ar gyfer y mwyafrif o ddeiliaid cytundebau ond ei fod yn eu helpu trwy gyfrannu at gost asedau fferm (yn arbennig gwaith ffiniau) a thrwy ddarparu refeniw pan fydd ffermwyr yn defnyddio eu llafur eu hunain i fodloni telerau eu cytundebau. Dywedodd y ffermwyr a fu'n bresennol yn ein grwpiau ffocws wrthym mai'r manteision ariannol oedd y prif reswm (ond nid yr unig un) dros ymuno â'r cynllun, er bod y manteision wedi'u graddol erydu gan gostau cynyddol ar gyfer gweithgareddau fel codi ffensys a phlannu gwrychoedd, tra na fu unrhyw newid mewn cyfraddau taliadau rhwng 1999 a 2006. Disgwylir i gyfraddau taliadau diwygiedig ddod i rym yn 2007. Er y bydd codiadau sylweddol ar gyfer rhai gweithgareddau lle y mae costau wedi codi, gwrthbwysir y rhain gan ostyngiadau ar gyfer incwm a ildiwyd, sydd wedi gostwng wrth i gymorthdaliadau yn ymwneud â chynhyrchiant ddod i ben.

Mae gan swyddogion a rhanddeiliaid Tir Gofal rai amheuon ynghylch hyblygrwydd y cynllun a'r modd y'i targedir

25 Mae cynllun Tir Gofal yn seiliedig ar gyfres o gyfarwyddiadau sy'n cyflwyno cytundebau safonedig i raddau helaeth. Roedd gan ein grwpiau ffocws o ffermwyr farn gadarnhaol am y cynllun, ond roeddent am weld mwy o hyblygrwydd mewn rhai meysydd. Cynhwysai'r rhain gyfraddau stocio, yr ystyrient eu bod yn rhy isel i reoli ymlediad *glaswellt y bwla*, (rhywogaeth ymledol ar ffriddoedd), a'r opsiwn i blannu tir âr yn rhychau yn hytrach na'i aredig. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn bod *glaswellt y bwla* yn broblem, ond ystyrient fod manteision pwysig i aredig tir âr nad oes i blannu yn rhychau.

26 Mae nifer o opsiynau ar gyfer targedu'r cynllun i'w wneud yn fwy effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

a Newid y system sgorio i adlewyrchu amodau a blaenoriaethau ardaloedd lleol yn well, fel y gwnaed yn Lloegr gyda'r Cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol newydd.

b Cyflwyno 'pecynnau rhywogaethau' neu gyfuniadau o gyfarwyddiadau a fyddai'n creu cynefinoedd buddiol ar gyfer rhai rhywogaethau. Er enghraifft, byddai cyfuno tyfu grawnfwydydd gwanwyn nas chwistrellwyd â sofl gaeaf yn helpu cornicyllod llawer mwy na'r naill gyfarwyddyd na'r llall ar ei ben ei hun. Cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad amrywiaeth o becynnau rhywogaethau dewisol o 2006.

c Ffafrio ffermydd a leolir ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu y mae ganddynt Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SODdGAau) dros ffermydd eraill. Mae SODdGAau eisoes yn elwa o ddiogelwch statudol ychwanegol a chyngor rheoli ac arian gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, nad ydynt ar gael i dir amaethyddol arall. Fodd bynnag, dengys arolygon fod SODdGAau yng Nghymru mewn cyflwr gwaeth na'r rhai a leolir mewn mannau eraill yn y DU, ac mae Tir Gofal yn aml mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael ag achosion y cyflwr gwael hwn. Yn 2006, diwygiodd Llywodraeth y Cynulliad y meini prawf ar gyfer ymuno â chynllun Tir Gofal i roi mynediad ffafriol i ymgeiswyr y mae ganddynt SODdGA ar eu tir.

Mae'r cynllun yn rhedeg yn ddidrafferth, ond mae'n costio mwy i'w redeg nag y disgwyliwd yn wreiddiol

27 Bu perfformiad Tir Gofal yn erbyn ei brif dargedau (sef nifer y cytundebau a lofnodir a'r arwynebedd tir a gwmpesir gan y cynllun) yn amrywiol. Yn gyffredinol, bu perfformiad Tir Gofal yn llawer gwell na'r disgwyl yn wreiddiol o ran y tir a gwmpesir gan y cynllun (332,578 o hectarau o gymharu â 210,000 o hectarau) ond methodd â chyrraedd ei darged o ran nifer y ffermydd (2,958 yn hytrach na 4,200). Mae ceisiadau yn amrywio'n fawr o ran cymhlethdod, cywirdeb mapio a ffactorau eraill sy'n effeithio ar hyd y broses sy'n arwain at gytundeb, ac mae hyn yn cael effaith ar dargedau a gyflawnir mewn unrhyw flwyddyn benodol.

28 Mae'r broses weinyddol yn rhedeg yn ddidrafferth, ond mae rhai heriau penodol:

a Camddosberthir rhai cynefinoedd gan swyddogion prosiectau, yn seiliedig ar farn a ffurfiwyd wrth wneud gwaith monitro ecolegol ar y cynllun. Fodd bynnag, mae hyn yn aml i'w briodoli i wahaniaethau barn yn hytrach na chamgymeriadau, neu i swyddogion Tir Gofal yn dewis y categori o gynefin sy'n mynnu'r gyfundrefn reoli fwy ymestynnol o dan reolau'r cynllun, gan gynyddu hyd yr eithaf ar y manteision amgylcheddol. Gellid lleihau'r arfer hwn trwy gyflwyno mwy o gategorïau i ddarparu ar gyfer dychwelyd cynefinoedd diraddedig i'w cyflwr gwreiddiol.

b Mae mapio yn broses gymhleth a hir, sydd yn aml yn cynnwys cyfnewid mapiau drafft rhwng swyddogion prosiect ac Uned Gartograffig Llywodraeth y Cynulliad, sy'n cadw'r fersiynau swyddogol, sawl gwaith. Hoffai swyddogion allu diwygio mapiau eu hunain, a daeth adolygiad o'r cynllun yn 2001 i'r casgliad mai'r gwelliant mwyaf i effeithlonrwydd fyddai darparu gliniaduron a meddalwedd mapio digidol i swyddogion fel y gellir gwneud llawer o'r gwaith hwn yn y maes. Fodd bynnag, mae anawsterau technegol ac ymarferol yn gysylltiedig â gweithredu'r cynnig hwn ac ni wnaed fawr ddim cynnydd.

c Mae cyfundrefnau monitro a chydymffurfio yn effeithiol, ond ni allant ganfod pob achos posibl o dor-cytundeb. Mae atal taliadau i ddeiliaid cytundebau cyfeiliornus yn effeithiol wrth sicrhau y cydymffurfir â'r

cyfarwyddiadau sy'n hawdd eu gwirio, megis clirio sgrap o'r fferm neu gadw hawliau tramwy ar agor. Fodd bynnag, mae'n anodd i swyddogion gadarnhau cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau sy'n rheoleiddio dyddiadau lladd gwair, cyfraddau stocio, a'r defnydd a wneir o wrteithiau a phlaladdwyr. Byddai tystiolaeth ffotograffig o gyflwr gwreiddiol cynefinoedd o gymorth, fel y gallai swyddogion ymchwilio ymhellach pe na bai newidiadau disgwyliedig yn digwydd.

29 Dangosodd ymarfer yn 2006 iddi gostio £4.3 miliwn i redeg cynllun Tir Gofal yn 2005/2006, tua 16 y cant o gyfanswm cost y cynllun. Tan hynny, roedd y costau rhedeg llawn yn anhysbys am nad oedd gorbenion ac amser staff wedi cael eu rhannu rhwng rhaglenni. Mae'r amcangyfrif o gostau yn seiliedig ar rai rhagdybiaethau cyffredinol ynghylch faint o amser a gymer i gwblhau agweddau penodol ar y broses weinyddol (er enghraifft, wyth niwrnod i lunio cytundeb ar gyfer fferm 100 hectar, a phum niwrnod i'w ail-negodi) ond ni chymharwyd y rhain â'r amser a dreulir mewn gwirionedd ar y tasgau hyn. Felly mae'n anodd asesu perfformiad gweinyddol y cynllun am nad yw targedau a chyllidebau gweinyddol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

Mae gan drosglwyddo cyfrifoldeb o ran y modd y cyflwynir y cynllun i Lywodraeth y Cynulliad fanteision posibl, ond mae risgiau hefyd y mae angen eu rheoli

30 Ar 16 Hydref 2006 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros weinyddu Tir Gofal o Gyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth y Cynulliad. Gwnaed hynny yn brydlon ac o fewn y gyllideb, er gwaethaf rhai problemau a gododd cyn y trosglwyddiad. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y bydd y trosglwyddiad yn sicrhau mwy o atebolrwydd, yn gwella cydlyniad trwy ddod â phob cynllun amaeth-amgylcheddol o dan un sefydliad, yn symleiddio gweithdrefnau, yn darparu mwy o gyfleoedd gyrfa i staff Tir Gofal, ac yn cydymffurfio â chyfarwyddeb yr UE sy'n mynnu bod un asiantaeth yn gwneud pob taliad amaethyddol. Er bod gan rai deiliaid cytundebau a swyddogion prosiect amheuon ynghylch y trosglwyddiad, mae nifer o'r pryderon a leisiwyd wedi cael sylw ac mae'r cynllun wedi parhau i redeg yn ddidrafferth ers y trosglwyddiad. Mae'r oedi a gafwyd wrth brosesu ceisiadau a dderbyniwyd yn 2006 i'w briodoli i ansicrwydd ynghylch yr arian a oedd ar gael ar gyfer ceisiadau newydd, nas datryswyd tan fis Gorffennaf 2007.

Argymhellion

Deall effaith Tir Gofal

1 Mae tystiolaeth i awgrymu y dylai cyfarwyddiadau Tir Gofal helpu i gyflawni amcanion y cynllun, ond prin yw'r dystiolaeth o'r canlyniadau a sicrhawyd mewn gwirionedd. Am fod effaith Tir Gofal yn debygol o fod yn un hirdymor sydd, yn ei hanfod, yn anodd ei mesur, mae'n bwysig sefydlu systemau dibynadwy i fesur newid yn ogystal â rheoli dylanwadau allanol. Mae gweithgarwch monitro a gwerthuso cyfredol yn gymharol rad ond mae hefyd yn gyfyngedig o ran ei gwmpas, a gellid ei gydgysylltu'n well ag ymchwil i dueddiadau ehangach yng nghefn gwlad Cymru neu â gwaith ymchwil a gwerthuso mewn mannau eraill yn y DU. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad gynlluniau eisoes i ddatblygu ei rhaglen fonitro yng ngoleuni rheoliadau datblygu gwledig newydd y Comisiwn Ewropeaidd. **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu strategaeth monitro a gwerthuso ar gyfer pob un o'i chynlluniau amaeth-**

amgylcheddol cyfredol, yn cynnwys yr ystod lawn o gyfarwyddiadau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau cymaint â phosibl. Fel rhan o'r gwaith hwn, dylai swyddogion:

- **a Mabwysiadu technegau a dosbarthiadau cyffredin, hyd y gellir, i alluogi cymariaethau dibynadwy ag Arolwg Cefn Gwlad a chynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill yn y Deyrnas Unedig.**
- **b Sicrhau bod ffermydd yng nghynllun Tir Gofal yn adnabyddadwy o fewn arolygon eraill, er enghraifft ar gyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, cynefinoedd Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth, a chyflwr Henebion Cofrestredig a nodweddion hanesyddol eraill.**
- **c Cysylltu â thirddeiliaid i asesu natur a graddau newidiadau mewn arferion rheoli, a bodlonrwydd tirddeiliaid ar y modd y gweinyddir y cynllun. Os yn bosibl, dylid gwneud hyn yn gyson ledled Cymru, fel y gellir gwneud cymariaethau rhwng cynlluniau amaeth-amgylcheddol a derbynwyr y Taliad Fferm Sengl.**
- **ch Dadansoddi'r data o weithgarwch monitro, gan gysylltu'r canlyniadau â newidiadau mewn arferion rheoli pan fyddai hynny'n debygol o effeithio ar y canlyniadau.**
- **d Cysylltu â rheolwyr cynlluniau amaeth-amgylcheddol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, i nodi arfer da a'r potensial i gydgysylltu gweithgarwch monitro a gwerthuso, gwella ansawdd a dibynadwyedd data, a lleihau costau trwy gydweithio.**

Gwerth ychwanegol

2 Mae Tir Gofal yn talu ffermwyr i ddilyn arferion rheoli penodol a gwneud gwaith cyfalaf. Prin yw'r dystiolaeth ynghylch i ba raddau y byddai hyn wedi digwydd heb y cynllun, ac felly faint o werth ychwanegol y mae'r cynllun yn ei ddarparu. Mae bob amser yn anodd asesu gwerth ychwanegol, ond gallai Llywodraeth y Cynulliad wneud mwy i ddefnyddio data a gesglir eisoes ac ehangu'r sylfaen tystiolaeth. **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad fesur y gwerth a ychwanegir gan wahanol agweddau ar y cynllun, a defnyddio'r canlyniadau i lywio newidiadau mewn cyfraddau taliadau, cyfarwyddiadau ac agweddau eraill ar ddyluniad y cynllun. Yn arbennig, rydym yn argymell y dylai rheolwyr cynlluniau:**

- **a Coladu gwybodaeth am sgorau ceisiadau a gedwir ar hyn o bryd ar ffeiliau papur yn unig, a'i dadansoddi i asesu pa gyfran o sgorau ceisiadau y rhoddir cyfrif amdanynt gan waith dewisol yn hytrach na chyfarwyddiadau gorfodol.**
- **b Coladu gwybodaeth am newidiadau sydd eu hangen mewn cyfraddau stocio, a gyfrifir gan swyddogion Tir Gofal eisoes fel rhan o drafodaethau arfarnu gydag ymgeiswyr. Bydd hyn yn helpu i asesu maint y newid a ddarperir gan yr amodau hyn.**
- **c Cynnal arolygon achlysurol o ddeiliaid cytundeb ynghylch effaith Tir Gofal ar eu hincwm.**
- **ch Defnyddio canlyniadau'r asesiadau gwerth ychwanegol i benderfynu a oes angen cymhellion pellach, a ellid lleihau cyfraddau ar gyfer rhai cyfarwyddiadau**

neu ddarnau o dir, neu a oes angen gwneud rhywfaint o waith targedu i gyflawni amcanion penodol.

Dyluniad y cynllun

3 Mae cynllun Tir Gofal wedi'i lunio'n dda ar y cyfan, ond mae lle i'w wneud yn fwy ymatebol i anghenion lleol. **Rydym yn argymell, fel rhan o'r adolygiad ehangach o gynlluniau rheoli tir yn 2007/2008, y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried teilwra'r system sgorio i adlewyrchu amodau a blaenoriaethau polisi lleol yn well.**

Gweinyddu

4 Mae'r cynllun yn rhedeg yn ddidrafferth, ond mae problemau yn gysylltiedig â dosbarthu cynefinoedd a mapio ffermydd, ac mae'n anodd cadarnhau cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau nad ydynt yn esgor ar ganlyniadau amlwg. **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad:**

a **cyflwyno rhagor o gategorïau dychwelyd i gwmpasu'r prif fathau o gynefinoedd diraddedig, gan leihau'r risg y bydd swyddogion Tir Gofal yn dosbarthu'r cyfryw dir fel y cynefin gwreiddiol i nodi cyfundrefn reoli ffafriol;**

b **adolygu costau gwirioneddol nodweddiadol cyflwyno gwartheg yn yr ardaloedd lle y mae Tir Gofal am hyrwyddo pori gwartheg, a sicrhau bod cyfraddau taliadau yn cael eu pennu fel cyfran o'r holl gostau perthnasol;**

c **ymchwilio i ffyrdd ymarferol o symleiddio'r broses fapio, megis galluogi swyddogion i ddiwygio mapiau eu hunain yn hytrach na mynnu bod yr Uned Gartograffig yn anfon ac yn diwygio drafftiau papur;**

ch **tynnu lluniau o gyflwr cychwynnol cynefinoedd allweddol ar bob fferm, fel bod swyddogion cydymffurfio mewn gwell sefyllfa i asesu a yw deiliaid cytundebau wedi cydymffurfio â'u rhwymedigaethau, a darparu llinell sylfaen fwy cadarn ar gyfer asesu effaith y cynllun a'i gyfarwyddiadau.**

Rheoli perfformiad

5 Ymdriniodd adolygiad Cloriannu 2001 â phob agwedd ar weinyddu cynlluniau a nododd enillion effeithlonrwydd posibl. Fodd bynnag, ni chesglir ac nid adroddir gwybodaeth am dargedau a pherfformiad yn gyson bob amser, ac nid yw'n cwmpasu pob agwedd berthnasol ar y gwaith o weinyddu'r cynllun. Heb y cyfryw wybodaeth, nid oes modd pennu cyllidebau, asesu perfformiad a mesur enillion effeithlonrwydd. **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad atgyfnerthu'r system rheoli perfformiad ar gyfer Tir Gofal, i gynnwys:**

a **casglu gwybodaeth am yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer camau allweddol yn y broses weinyddol;**

b **defnyddio'r cyfryw wybodaeth i bennu cyllidebau a thargedau a nodi enillion effeithlonrwydd posibl;**

c **pennu nifer fach o dargedau yn cwmpasu pob un o'r prif agweddau ar weithgarwch y cynllun, a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn rheolaidd ar lefel uwch.**

Dyfodol y cynllun

6 Mae'r amgylchedd lle y mae Tir Gofal yn gweithredu yn newid wrth i'r gyfundrefn cymorthdaliadau ffermio ddatblygu a chynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill gael eu sefydlu. Yn achos llawer o gyfarwyddiadau, mae'n debyg y bydd angen parhau i ddarparu rhywfaint o gymorth ariannol i ddiogelu'r manteision a gafwyd hyd yma, yn arbennig pan fydd yn cymryd amser hir i'r fantais lawn ddod i'r amlwg. Ar ben hynny mae angen rhywfaint o ymrwymiad hirdymor ac eglurder ar ffermwyr er mwyn i'r cynllun barhau'n ddeniadol, a gall unrhyw ansicrwydd neu oedi ar ddiwedd eu cytundebau annog rhai ohonynt i adael cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn gyfan gwbl. Ar yr un pryd, ni fyddai adnewyddu cytundebau sy'n bodoli eisoes yn eu ffurf gyfredol yn werth da am arian pe gellid sicrhau gwell manteision trwy ddod â ffermydd newydd i'r mewn i'r cynllun. **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu strategaeth ymadael ar gyfer deiliaid cytundebau Tir Gofal, sy'n adlewyrchu'r ffactorau uchod, mewn da bryd cyn i'r cytundebau cyntaf ddod i ben yn 2009/2010.**

Rhan 1 - Mae arwyddion addawol bod Tir Gofal yn gwella'r amgylchedd gwledig a bod iddo fanteision ehangach, ond heb ymrwymiad ariannol hirdymor efallai na ellir cynnal y manteision a gafwyd

Tir Gofal yw'r prif gynllun amaeth-amgylcheddol yng Nghymru

1.1 Mae Tir Gofal yn gynllun amaeth-amgylcheddol cymhleth sy'n talu rheolwyr tir – ffermwyr fel arfer – i reoli tir amaethyddol mewn ffordd sy'n fanteisiol i'r amgylchedd. Mae'r cynllun yn agored i unrhyw ddaliad tir yng Nghymru y bernir bod ganddo ddigon o werth amgylcheddol gwirioneddol neu bosibl. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhannol ariannu cost y taliadau i ddeiliaid tir; mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd yn rhan-ariannu'r cynllun. Cyfanswm y taliadau oedd £19 miliwn yn 2006/2007, a thua £100.3 miliwn ers lansio'r cynllun ym 1999. Ym mis Hydref 2006 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros weinyddu Tir Gofal o Gyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth y Cynulliad.

1.2 Ar 31 Awst 2007 cwmpasai'r cynllun 2,958 o ffermydd a 332,595 o hectarau o dir. Amcanion craidd y cynllun yw:

- **a** diogelu a gwella cynefinoedd sydd o bwys i fywyd gwyllt;
- **b** diogelu'r amgylchedd hanesyddol;
- **c** diogelu ac adfer tirweddau gwledig;
- **ch** hyrwyddo mynediad cyhoeddus i gefn gwlad.

1.3 Cyflawnir Tir Gofal trwy gyfres o gyfarwyddiadau. Mae'r rhain yn nodi arferion rheoli neu waith cyfalaf y bwriedir iddynt ddiogelu neu wella cynefinoedd, yr amgylchedd hanesyddol, y dirwedd, neu fynediad cyhoeddus i gefn gwlad (Ffigur 1). Mae pob cytundeb yn cynnwys detholiad o gyfarwyddiadau, a gofnodir yn ganolog wedyn ar gronfa ddata. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad dîm cydymffurfio sy'n gwirio'n rheolaidd bod perchenogion tir yn cyflawni eu rhwymedigaethau i gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau.

Mae dangosyddion yn awgrymu bod Tir Gofal yn cyflawni ei amcanion craidd

1.4 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn casglu llawer o ddata am allbynnau, megis yr arwynebedd tir a gwmpesir gan y cynllun, nifer y cytundebau, yr arwynebedd tir sydd o dan reolaeth gadarnhaol a hyd y llwybrau troed newydd a ddarparwyd. Fodd bynnag, mae data am lawer o allbynnau – megis newidiadau mewn llystyfiant a phoblogaethau adar, cyflwr llwybrau troed neu nifer y bobl sy'n defnyddio llwybrau troed newydd – yn fwy cyfyngedig ac yn llai dibynadwy. Felly, defnyddir data am allbynnau a barn arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn bennaf i asesu effeithiolrwydd Tir Gofal.

Ffigur 1: Sut mae Tir Gofal yn gweithio

Mae Tir Gofal yn cynnwys ystod eang o gyfarwyddiadau, y mae llawer ohonynt yn orfodol, y mae swyddogion prosiect a pherchenogion tir yn nodi'r rhai mwyaf priodol o'u plith ar gyfer safle penodol. Bwriedir i bob cyfarwyddyd gyflawni un neu ragor o amcanion craidd Tir Gofal, er y bwriedir i'r mwyafrif ohonynt ddiogelu neu wella cynefinoedd.

Bydd swyddog prosiect yn ymweld â phob fferm sydd wedi gwneud cais i ymuno â chynllun Tir Gofal i asesu ei gwerth amgylcheddol cynhenid a pharodrwydd y tirddeiliad i greu manteision amgylcheddol newydd (yn hytrach na diogelu nodweddion sy'n bodoli eisoes yn unig). Asesir ffermydd gan ddefnyddio system sgorio, a dim ond y ffermydd hynny sy'n sgorio 100 pwynt neu fwy a dderbynnir i'r cynllun. Wedyn mae swyddogion prosiect yn negodi cytundeb 10 mlynedd gyda'r ffermwr, sy'n nodi cyfarwyddiadau, amserlenni a chyfraddau taliadau.

Mae'r cynllun yn cynnwys tair elfen graidd, yr ariennir pob un ohonynt yn benodol:

Yr Adran Fferm Gyfan orfodol

Mae'r elfen hon yn nodi safonau sylfaenol ar gyfer pob fferm sy'n cymryd rhain yn y cynllun, waeth pa fath o fferm ydyw na pha mor fawr ydyw:

- cadw ffiniau caeau traddodiadol sy'n bodoli eisoes a chynnal a chadw ffiniau caeau cadw stoc;
- cadw coed unigol a grwpiau bach o goed, a gadael coed marw oni bai eu bod yn achosi perygl neu rwystr;
- cadw llain glustogi un metr o led ar hyd pob ffin cae, heb ddefnyddio unrhyw ddulliau amaethu, gwrteithiau, calch, chwynladdwyr neu blaladdwyr eraill;
- cadw a diogelu unrhyw nodweddion archeolegol neu hanesyddol, a chadw unrhyw adeiladau traddodiadol diddos mewn cyflwr da;
- cadw'r fferm yn glir o sbwriel a sgrap;
- cytuno ar gyfradd stocio i'r fferm gyfan sy'n osgoi unrhyw orbori neu danbori;
- cwblhau cynllun rheoli adnoddau fferm, ac os oes angen cynllun rheoli tail a chynllun rheoli pridd;
- cydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cyfreithiol yn ymwneud â hawliau tramwy a thir mynediad a nodwyd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000;
- ymgynghori â'r swyddog prosiect cyn gwneud mathau penodol o waith neu newid defnydd tir;
- cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoliadau trawsgydymffurfio (y rhai a bennwyd gan yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer derbynwyr taliadau cymorth fferm).

Cyfarwyddiadau cynefinoedd gorfodol

Mae'r rhain yn tueddu i fod yn arferion rheoli tir yr ystyrir eu bod yn hanfodol bwysig lle y ceir cynefin penodol neu nodwedd hanesyddol benodol. Fel arfer bwriedir iddynt ddiogelu neu wella cynefinoedd sy'n bodoli eisoes megis coetir, rhostir, glaswelltir a gwlyptir cyfoethog eu rhywogaethau. Mae gofynion nodweddiadol yn cynnwys:

- uchafswm cyfradd stocio (unedau o dda byw fesul darn o dir) sy'n addas i'r cynefin;
- gwaharddiad ar aredig, ail-hadu neu weithrediadau amaethyddol tebyg;
- cyfyngiadau ar losgi, torri glaswellt, gwrteithio a glanhau draeniau.

Cyfarwyddiadau dewisol

Arferion rheoli neu waith cyfalaf yw'r rhain sy'n cyflawni amcanion y cynllun, ond nad ystyrir eu bod yn hanfodol bwysig ar bob fferm berthnasol. Fe'u dewisir gan y ffermwr gyda chymeradwyaeth y swyddog prosiect, ac yn aml maent yn cynnwys amodau sy'n adfer neu'n creu cynefinoedd nas ceir ar y fferm. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- creu coridorau glannau nentydd – tir ar bob ochr i nentydd sydd wedi'i ffensio lle na all da byw bori ac y caniateir i lystyfiant naturiol ddychwelyd;
- adfer gweirgloddiau traddodiadol a chynefinoedd eraill;
- defnyddio glaswelltir at ddibenion tyfu cnydau âr, yn arbennig grawnfwydydd a heuir yn y gwanwyn;
- adfer neu greu ffiniau caeau traddodiadol megis gwrychoedd, waliau cerrig a chloddiau;
- mynediad caniataol: creu llwybrau troed newydd neu ardaloedd y mae gan y cyhoedd fynediad agored iddynt.

Ar ôl llofnodi cytundeb

Mae swyddogion prosiect ar gael i ffermwyr i ymdrin â'u hymholiadau a'u ceisiadau i amrywio cytundebau. Mae swyddogion monitro yn ymweld â ffermydd i sicrhau bod deiliaid cytundebau yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau, a gellir cosbi'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio â hwy. Gwneir taliadau wrth dderbyn hawliadau. Adolygir cytundebau ar ôl pum mlynedd, pan y gall y naill barti neu'r llall ddiwygio neu derfynu'r cytundeb.

Er ei bod yn anodd asesu effaith lawn y cynllun, mae tystiolaeth i awgrymu bod Tir Gofal yn helpu i ddiogelu a gwella cynefinoedd

Mae'n anodd nodi faint o gynefinoedd allweddol a gwmpesir gan Tir Gofal a'i effaith arnynt

1.5 Bydd effaith Tir Gofal yn dibynnu i raddau helaeth ar y cynefinoedd allweddol a gwmpesir ganddo – y rhai mwyaf gwerthfawr a'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o gael eu niweidio gan arferion ffermio modern a newidiadau amgylcheddol. Er bod Arolwg Cynefinoedd Cymru, a gynhaliwyd rhwng 1979 a 1997, yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am leoliad gwahanol gategorïau o gynefinoedd, nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn gwybod yn union faint o bob prif fath o gynefin a gwmpesir gan gynllun Tir Gofal. Mae'r cynllun yn defnyddio system dosbarthu cynefinoedd a symleiddiwyd na ellir ei chymharu'n uniongyrchol bob amser â'r wybodaeth sydd ar gael am ba mor helaeth yw gwahanol gynefinoedd yng Nghymru.

1.6 Mae pob fferm yng nghynllun Tir Gofal yn cael ei mapio'n ddigidol, a byddai modd cymharu'r data mapio hwn â'r data o'r Arolwg Cynefinoedd, i fesur faint o'r prif fathau o gynefin fel y'u mapiwyd gan yr Arolwg Cynefinoedd a gwmpesir gan gynllun Tir Gofal. Fodd bynnag, byddai hon yn dasg enfawr, a byddai rhywfaint o'r data a gasglwyd gan yr Arolwg Cynefinoedd wedi dyddio erbyn hyn. Yn y dyfodol, efallai y bydd datblygiadau mewn technoleg synhwyro o bell yn galluogi dadansoddi'r data cynhwysfawr am ddefnydd tir a gasglwyd ar gyfer y Cynllun Taliad Sengl yn ôl categori o gynefin. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, ni ellir defnyddio technoleg synhwyro o bell i wahaniaethu yn ddigon manwl gywir rhwng cynefinoedd pwysig megis glaswelltir wedi'i led-wella a glaswelltir heb ei wella'n amaethyddol.

1.7 Nid oes unrhyw dargedau o ran faint o gynefinoedd a gwmpesir. Mae swyddogion yn credu y byddai targedau yn eu cyfyngu wrth ddewis y cyfarwyddiadau gorau posibl ar gyfer pob safle. Hefyd, mae swyddogion yn ymdrin ag ymgeiswyr ar sail 'y cyntaf i'r felin', ac felly ni allent ddewis ffermydd ar sail eu gallu i gyrraedd targedau y penderfynwyd arnynt ymlaen llaw.

Mae cyfarwyddiadau Tir Gofal yn seiliedig ar dystiolaeth a phrofiad o gynlluniau blaenorol

1.8 Cymeradwyodd y gwerthusiad canol tymor o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru yn 2003[2] gyfarwyddiadau Tir Gofal, a dadleuodd fod pwysau'r dystiolaeth o'u plaid yn dileu'r angen i fonitro cynlluniau'n fanwl (Ffigur 2). Ar ben hynny, dangosodd Arolwg Cefn Gwlad y DU 2000 fod cyfarwyddiadau Tir Gofal mewn sefyllfa dda i wrthsefyll y tueddiadau andwyol yn yr amgylchedd gwledig a welwyd trwy gydol yr 1980au a'r 1990au (Atodiad 2). Nododd yr Arolwg fod cyflwr glaswelltiroedd heb eu gwella'n amaethyddol a oedd yn dirywio yn destun pryder penodol. Mae cyfarwyddiadau sy'n cyfyngu ar ddefnyddio plaladdwyr, gwrteithiau cemegol a thail buarth fferm yn helpu i fynd i'r afael â phroblem gorfaethu, a nodwyd gan yr Arolwg fel un o brif achosion y broblem hon yn ôl pob tebyg.

Mae'r cynllun yn cwmpasu cryn dipyn o dir amaethyddol, ac mae'n cwmpasu mwy o dir amaethyddol mewn ardaloedd o werth amgylcheddol uchel o gymharu ag ardaloedd eraill

1.9 Os yw'r cyfarwyddiadau yn debygol o sicrhau manteision amgylcheddol, mae'r tir a gwmpesir gan gynllun Tir Gofal yn un dangosydd o botensial y cynllun i ddiogelu a gwella cynefinoedd. Ym mis Awst 2007, cwmpasai Tir Gofal 19.8 y cant o'r tir amaethyddol yng Nghymru o dan 2,958 o

2 Agra CEAS Consulting, *Mid-term Evaluation of the Rural Development Plan for Wales 2000/2006*, 2003

Ffigur 2: Prif fathau o gyfarwyddiadau a'u manteision bwriadedig

Cyfarwyddyd	Mantais ddisgwyliedig
Rheolaethau ar gyfraddau stocio	Lleihau erydiad pridd (yn gysylltiedig â gwell tirwedd, bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr)
Atal bwydo atodol	Gwella ansawdd dŵr
Defnydd llai dwys o laswelltir (troi glaswelltir wedi'i wella yn laswelltir wedi'i led-wella, glaswelltir wedi'i led-wella yn laswelltir heb ei wella a throi tir âr yn laswelltir wedi'i led-wella â rheolaethau cysylltiedig ar gyfraddau stocio)	Lleihau erydiad pridd, o ganlyniad i orchudd llystyfiant helaethach Lleihau halogi priddoedd gan gemegau, o ganlyniad i ddefnyddio llai o wrteithiau a phlaladdwyr a llai o elifion ffo Gwella ansawdd dŵr Cynyddu bioamrywiaeth planhigion ac anifeiliaid
Ffermio âr llai dwys (er engraifft cynhyrchu grawnfwydydd heb gemegau)	Lleihau erydiad pridd. Lleihau halogi priddoedd gan gemegau. Gwella ansawdd dŵr. Mwy o adnoddau bwyd ar adegau hollbwysig ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau adar prin sydd mewn perygl megis y betrisen lwyd, melyn yr eithin, y llinos, golfan y coed a'r ehedydd
Clustogfeydd o amgylch cyrsiau dŵr a choridorau glannau nentydd	Lleihau erydiad pridd Gwella ansawdd dŵr Cynyddu bioamrywiaeth planhigion ac anifeiliaid Gwelliannau mewn cynefinoedd gwlyptirol a dyfrol megis corstir a chorsydd
Rheolaethau ar ddefnyddio sylweddau diogelu planhigion, tail buarth fferm a gwrteithiau cemegol	Lleihau halogi priddoedd gan gemegau Gwella ansawdd dŵr Cynyddu bioamrywiaeth planhigion ac anifeiliaid
Gadael sofl neu gnydau gwreiddlysiau dros y gaeaf	Mwy o adnoddau bwyd ar adegau hollbwysig ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau adar prin sydd mewn perygl
Dyddiadau torri glaswellt penodol	Mwy o adnoddau bwyd ar adegau hollbwysig ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau adar prin sydd mewn perygl

Ffynhonnell: Gwerthusiad canol tymor o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru (2003)

gytundebau ar wahân. Mae'n ehangach ei gwmpas na'i ragflaenwyr (Tir Cymen a chynllun ESA), a oedd wedi'u cyfyngu i rai rhannau o Gymru. Mae hyn hefyd yn cymharu â'r ffigurau manteisio yn cwmpasu 6.4 y cant o dir ffermio ar gyfer cynlluniau tebyg yn Lloegr[3] a 6.2 y cant ar gyfer y Cynllun Stiwardiaeth Wledig yn yr Alban. Mae'r cynllun hefyd wedi rhagori ar amcangyfrifon cychwynnol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer yr arwynebedd tir a gwmpesir (332,595, yn hytrach na 210,000, o hectarau), ond mae llai o ffermydd yn cyfranogi ynddo nag y rhagwelwyd (2,958, yn hytrach na 4,200).

3 Tir a gofrestrwyd gyda'r cynllun Stiwardiaeth Cefn Gwlad a chynllun ESA haen uwch rhwng 2000 a 2005, pan y'u caewyd i geisiadau newydd, a'r Cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol lefel uwch o 2005. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae'r cynlluniau hyn ond yn cwmpasu'r darnau o dir â'r gwerth amgylcheddol mwyaf o fewn fferm ac nid y fferm gyfan, yn wahanol i gynllun Tir Gofal a'r Cynllun Stiwardiaeth Gwledig yn yr Alban. Mae cynefinoedd blaenoriaeth ac opsiynau rheoli o dan gynllun Tir Gofal yn rhoi cyfrif am 12.9 y cant o dir ffermio Cymru; mae'r ardaloedd hyn yn darparu gwell sail ar gyfer cymharu.

Ffigur 3: Cynefinoedd allweddol a gwmpesir gan Tir Gofal ar 31 Mawrth 2007

Cynefin gorfodol	Arwynebedd (ha)
Glaswelltir heb ei wella	43,309
Gwaun uchel	35,056
Glaswelltir wedi'i led-wella	30,012
Glaswelltir corslyd	18,231
Cors	17,713
Coetir llydanddail	17,514
Gwelyau cyrs, corsydd a ffeniau	7,128
Parcdir	3,547
Corsydd pori arfordirol a glaswelltir gorlifdir yr arfordir	3,508
Rhos iseldir a rhos arfordirol	2,513
Prysgwydd	1,937
Morfa heli	546
Llethr clogwyn arfordirol	518
Twyni tywod	342
Rhos mynydd uchel	305
Perllannau	138
Cyfanswm	**182,317**

Ffynhonnell: Cronfa ddata Tir Gofal (Llywodraeth y Cynulliad). Mae'r wybodaeth yn ymwneud â'r arwynebedd tir yr oedd taliadau wedi'u gwneud ar ei gyfer ar 31 Mawrth 2007

1.10 Mae hanner y tir a gwmpesir gan y cynllun yn dir cynefin amgylcheddol werthfawr sy'n cynnwys sawl categori o 'gynefinoedd gorfodol' (Ffigur 3). Mae'r rhain yn ddarostyngedig i gyfarwyddiadau gorfodol y bwriedir iddynt ddiogelu neu wella bywyd gwyllt. Mae'r cynllun hefyd wedi llwyddo i gwmpasu cryn dipyn o dir yr ystyrir ei fod o werth amgylcheddol penodol, gan gynnwys:

a 24 y cant o'r tir mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, sy'n ardaloedd a ddynodwyd fel rhai arbennig oherwydd eu hanifeiliaid, eu planhigion, neu eu nodweddion daearyddol neu ffisiograffig;

b 41 y cant o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, sy'n ardaloedd y nodwyd eu bod yn diogelu rhywogaethau a/neu gynefinoedd a restrir o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd y Comisiwn Ewropeaidd;

c 19 y cant o dir amaethyddol sydd wedi'i ddosbarthu o dan gynllun European Natura 2000 ar gyfer diogelu safleoedd sy'n cynrychioli'r ardaloedd uchaf eu gwerth ar gyfer cynefinoedd naturiol ac anifeiliaid[4].

Mae Tir Gofal wedi achosi i'r mwyafrif o ffermwyr newid eu harferion rheoli tir, ond mewn llawer o achosion nid yw'r newid yn sylweddol

1.11 Mae'r mwyafrif o daliadau Tir Gofal ar gyfer cyfarwyddiadau i ddiogelu a gwella cynefinoedd, er na ellir mesur yr union swm am fod y taliadau yn cwmpasu pob un o bedwar amcan y cynllun. Felly mae'r gwerth am arian a gynigir gan y cynllun yn dibynnu i raddau helaeth ar y fantais amgylcheddol ychwanegol a geir o'r taliadau hyn. Yn y mwyafrif o achosion, bydd hyn yn golygu rhai newidiadau yn y modd y mae ffermwyr yn rheoli eu tir. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth ynghylch i ba raddau y mae deiliaid cytundebau wedi newid eu harferion rheoli, neu wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â newidiadau a fyddai wedi amharu ar yr amgylchedd, oherwydd y cynllun.

1.12 Mae risg hefyd nad yw taliadau yn cael fawr ddim effaith fuddiol ar gynefinoedd, am fod ymgeiswyr yn aml yn cael eu talu am barhau ag arferion sydd eisoes yn bodoli yn ogystal ag adfer neu greu cynefinoedd. Mewn rhai achosion, gall deiliaid cytundebau fod yn gymwys i dderbyn taliadau o dan gynllun Tir Gofal heb wneud unrhyw beth yn wahanol, er y byddai swyddogion prosiect fel arfer yn trafod y posibilrwydd o gynnwys rhai opsiynau gyda ffermwyr er mwyn sicrhau rhywfaint o werth ychwanegol.

1.13 Gall sicrhau y parheir ag arferion sy'n bodoli eisoes ychwanegu gwerth o ran diogelu cynefinoedd sy'n bodoli eisoes os yw'r cynllun yn atal perchenogion tir rhag gwneud newidiadau a fyddai'n amharu ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, nis oes unrhyw dystiolaeth ar gael ynghylch i ba raddau y mae hyn wedi digwydd.

1.14 Ceir tri chategori cyffredinol o dir cynefin a gwmpesir gan gynllun Tir Gofal, y gallai pob un ohonynt elwa o'r cynllun mewn ffordd wahanol:

a Mae'n rhaid diogelu **cynefinoedd gorfodol** os ydynt i'w cael ar fferm deiliad cytundeb. Mae'r rhain yn cynnwys cynefinoedd gwerthfawr megis tir pori garw, coetir llydanddail, glaswelltir corslyd a gweirgloddiau cyfoethog eu rhywogaethau. Mae'r manteision a allai ddeillio o arian Tir Gofal yn amrywio'n fawr. Mae llawer o ffermydd, yn arbennig mewn ardaloedd ucheldirol, wedi pori tir pori garw yn ysgafn neu gynnal cynefinoedd ffafriol eraill erioed. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ffermydd eraill leihau dwysedd y stoc gryn dipyn neu leihau'r defnydd a wnânt o wrteithiau a chwynladdwyr, er mwyn bodloni gofynion Tir Gofal, sy'n fwy tebygol o arwain at welliannau tymor hwy yn yr amgylchedd lleol. Mae swyddogion prosiect Tir Gofal yn amcangyfrif y newid yn nwysedd y stoc fydd ei angen ar gyfer cytundeb fel rhan o'r ymweliad cychwynnol, i hysbysu'r ymgeisydd o'r effaith debygol ar eu harferion rheoli presennol ac incwm y fferm. Fodd bynnag, ni choledir y data hwn yn systematig. Yn gyffredinol, mae 84 y cant o dir cynefin a 72 y cant o daliadau yn ymwneud â chynefinoedd penodol yn ymwneud â chynefinoedd gorfodol.

4 Ar 31 Awst 2006 am SODdGA a 31 Mawrth 2006 am safleoedd Special Areas of Conservation and Natura 2000.

Ffigur 4: Newidiadau mewn arferion rheoli ffermwyr o ganlyniad i gynllun Tir Gofal

Maint y newidiadau rheoli	Nifer	Cyfran o'r cyfanswm
Bu'n rhaid gwneud llawer o newidiadau	4	4%
Bu'n rhaid gwneud rhai newidiadau	43	42%
Ni wnaed fawr ddim newidiadau	47	45%
Ni wnaed unrhyw newidiadau	9	9%
Cyfanswm	103	100%

Ffynhonnell: Gwerthusiad canol tymor o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000/2006 (2003)

b **Mae opsiynau ar gyfer rheoli tir amgylcheddol** yn ymwneud yn bennaf â thir y newidiwyd y defnydd a wneir ohono, neu newidiadau mewn arfer ffermio, yn ôl dewis y tirddeiliad, yn gyfnewid am daliadau ychwanegol, i greu cynefinoedd newydd neu well amgylchiadau ar gyfer bywyd gwyllt. Gallai'r opsiynau hyn gynnwys ffermio âr cymysg, amaethu llai dwys, creu coridorau glannau nentydd a throi glaswelltir wedi'i wella yn laswelltir wedi'i led-wella (Atodiad 3). Mae'n debyg y sicrheir manteision amgylcheddol pwysig yn y mwyafrif o achosion, am fod y cynefinoedd newydd fel arfer yn cynnwys gwaith neu gost ychwanegol i'r ffermwr heb elw ariannol cymesur ac, felly, mae'n annhebyg y byddant wedi'u creu heb gymorth o gynllun Tir Gofal. Yn gyffredinol, mae 16 y cant o dir cynefin ac 28 y cant o daliadau yn ymwneud â chynefinoedd penodol yn ymwneud ag opsiynau ar gyfer creu cynefinoedd.

c **Tir arall** megis glaswelltir wedi'i wella'n amaethyddol. Mae Tir Gofal yn ceisio osgoi unrhyw ddirywiad yn yr amgylchedd yn deillio o arferion rheoli ar y math hwn o dir, ond fel arfer nis cwmpesir gan gyfarwyddiadau a thaliadau penodol ac eithrio o dan y Cynllun Fferm Gyfan. Mewn rhai achosion, gall deiliaid cytundebau gynyddu cynhyrchiant ar y math hwn o dir tra'n ei leihau ar dir cynefin, gan leihau hyd yr eithaf ar unrhyw golledion ariannol yn deillio o'r cytundeb.

1.15 Ni chaiff newidiadau mewn arferion ffermio eu monitro fel rhan o'r drefn. Fodd bynnag, mae dau arolwg, a gynhaliwyd fel rhan o werthusiadau rheolaidd, wedi ceisio nodi i ba raddau y mae arferion ffermio wedi newid o ganlyniad i gynllun Tir Gofal. Fel rhan o'r gwerthusiad canol tymor o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru a gyhoeddwyd yn 2003, comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad arolwg o 103 o ddeiliaid cytundeb i nodi i ba raddau y mae arfer ffermio wedi newid o ran eu hopsiynau rheoli. Dangosodd y canlyniadau fod 91 y cant o ddeiliaid cytundebau wedi gwneud o leiaf un newid ers ymuno â chynllun Tir Gofal, ond nid oedd 55 y cant o'r ymatebwyr wedi gwneud fawr ddim newidiadau os o gwbl (Ffigur 4). O'r rhai a oedd wedi gwneud newidiadau, nododd 76 y cant na fyddent wedi gwneud hynny heb gynllun Tir Gofal. Dangosodd arolwg diweddarach o 223 o gyfranogwyr, a

gynhaliwyd yn 2004 fel rhan o adolygiad o effaith economaidd-gymdeithasol Tir Gofal, na fyddai 72 y cant wedi gwneud unrhyw un o'r newidiadau heb gynllun Tir Gofal, a byddai 13 y cant arall wedi gwneud llai na hanner y newidiadau neu byddent wedi gwneud newidiadau cwbl wahanol[5]. Dangosodd yr arolwg diweddarach hefyd na fyddai'r mwyafrif o'r ffermwyr wedi ymgymryd â gwaith cyfalaf heb y cynllun, neu y byddent wedi ymgymryd ag ef yn llai cyflym neu ar raddfa lai. Yn gyffredinol, mae'r arolygon yn awgrymu bod y mwyafrif o'r cyfranogwyr wedi gwneud rhai newidiadau yn eu harferion ffermio ers ymuno â chynllun Tir Gofal, na fyddai'r mwyafrif ohonynt wedi digwydd heb y cynllun. Gellid priodoli gwaith cyfalaf a greodd neu a wellodd gynefinoedd yn haws i'r cynllun. Fodd bynnag, ni ellir dod i gasgliad o'r arolygon ynghylch pa mor bwysig oedd y newidiadau yn amgylcheddol, ac felly faint o werth ychwanegol a ddarparwyd gan y cynllun. Ni fwriadwyd i'r arolygon ddarparu'r wybodaeth fanwl am y math o newidiadau mewn arferion ffermio a'u maint, y byddai ei hangen i ddod i'r cyfryw gasgliad.

1.16 Cynhaliwyd tri grŵp ffocws gyda deiliaid cytundebau. Nododd y mwyafrif o'r cyfranogwyr eu bod wedi newid y ffordd yr oeddynt yn ffermio ers ymuno â'r cynllun, er bod rhai o'r farn bod y newidiadau yn ymylol am na fu'n rhaid iddynt newid arferion ar eu tir mwyaf cynhyrchiol.

1.17 Un o nodau atodol cynlluniau amaeth-amgylcheddol yw lleihau'r defnydd a wneir o wrteithiau artiffisial a phlaladdwyr, am fod hyn yn lleihau'r niwed posibl ac yn cynyddu bioamrywiaeth. Dangosodd y gwerthusiad canol tymor o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru fod Tir Gofal wedi cael rhywfaint o lwyddiant yn hyn o beth:

- **a** nododd 50 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn defnyddio llai o nitrogen anorganig o ganlyniad i ymuno â'r cynllun, dywedodd 31 y cant eu bod yn defnyddio llai o ffosffad a dywedodd 29 y cant eu bod yn defnyddio llai o botasiwm;
- **b** nododd ychydig dros draean (21 y cant mewn ardaloedd ffermio ucheldirol) eu bod yn defnyddio llai o gemegau diogelu cnydau.

1.18 Daeth y gwerthusiad canol tymor i'r casgliad na ellid rhagdybio bod angen i ffermwyr leihau'r defnydd a wnânt o wrteithiau anorganig neu gemegau diogelu cnydau i gydymffurfio â thelerau eu cytundebau, a bod angen ymchwilio ymhellach i'r mater. Fodd bynnag, hyd yma, ni wnaed unrhyw waith pellach.

Bu'r gwaith a wnaed i fonitro a gwerthuso effaith y cynllun ar gynefinoedd yn gyfyngedig ei gwmpas, ond dengys fod rhai manteision wedi'u sicrhau

1.19 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn monitro cydymffurfiaeth ag amodau ar lefel cytundebau Tir Gofal unigol, ond nid yw'n monitro i'r un graddau effaith ar gynefinoedd o ran canlyniadau. Mae'n anodd monitro canlyniadau am fod y newidiadau yn aml yn gymhleth, am ei bod yn anodd eu priodoli i unrhyw ymyriad unigol, ac am y bydd yn cymryd amser hir iddynt fwydo drwodd i welliannau mewn bioamrywiaeth a bywyd gwyllt. Mae dwy brif ffynhonnell o dystiolaeth ar gael ar gyfer ystyried effaith tymor hwy y cynllun ar gynefinoedd:

- **a** astudiaeth fonitro ecolegol o gynefinoedd allweddol dros amser;
- **b** astudiaethau ymchwil neu werthuso ad hoc a gomisiynwyd i ystyried materion penodol.

5 Comisiynodd CCGC AGRA CEAS Consulting i adolygu effaith economaidd-gymdeithasol Tir Gofal ar ffermwyr a chymunedau gwledig. Arolygodd y cwmni 250 o ddeiliaid cytundebau yn 2004 i asesu effaith y cynllun ar faich gwaith, incwm a gwariant ffermwyr. Cyhoeddwyd yr adroddiad, *Socio-economic Evaluation of Tir Gofal*, yn 2005

Yr astudiaeth fonitro ecolegol

1.20 Astudiaeth fonitro ecolegol, a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ac sy'n cael ei chynnal gan yr ymgynghorwyr amgylcheddol ADAS, yw'r prif ddull a ddefnyddir gan Lywodraeth y Cynulliad i fonitro effeithiolrwydd Tir Gofal. Astudiaeth hydredol ydyw sy'n cwmpasu cyfnod o 12 mlynedd, lle y caiff pob safle ei arolygu yn y flwyddyn y mae'r cytundeb yn dechrau a dwywaith eto bob pedair blynedd. Dewiswyd sampl gynrychioliadol o safleoedd i sicrhau y cwmpesir digon o'r cynefinoedd hynny sydd o fewn cwmpas yr arolwg. Ar bob safle, mae ecolegwyr hyfforddedig yn mesur y newid yn y llystyfiant yn seiliedig ar feini prawf y penderfynwyd arnynt o flaen llaw. Dechreuodd yr astudiaeth yn 2001 a chynhaliwyd yr ailarolwg cyntaf, o dri math o gynefin, rhwng mis Hydref 2005 a mis Mawrth 2006. Ymdriniodd yr ail ailarolwg yn 2006/2007 â 10 math o gynefin.

1.21 Mae'r contract, a gostiodd £510,000 ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2007, yn cynnwys gofyniad i adrodd ar ganlyniadau a darparu deunydd cymharol syml ond i beidio â gwneud unrhyw waith dadansoddi ystadegol manwl. Felly comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad ddadansoddiad ar wahân ar ddiwedd 2006, ond nid yw'r canlyniadau ar gael eto oherwydd problemau yn gysylltiedig â'r modd y mae data monitro wedi'i strwythuro. Fodd bynnag, gwnaed dadansoddiad rhagarweiniol o'r ailarolwg cyntaf gan un o swyddogion Llywodraeth y Cynullliad yn 2006. Edrychodd ar effaith y cynllun ar 170 o gaeau yn cynnwys tri chynefin glaswelltir gorfodol; sef glaswelltir wedi'i led-wella, corslyd ac asid. Roedd data sylfaenol o'r safleoedd hyn wedi'u casglu rhwng mis Hydref 2001 a mis Mawrth 2002.

1.22 Dangosodd y dadansoddiad rhagarweiniol fod adeiledd pob cynefin wedi gwella gryn dipyn, yn arbennig o ran symud tuag at uchder glaswellt mwy dymunol. Roedd gan safleoedd o laswelltir wedi'i led-wella lai o ddarnau o dir moel hefyd, tra nodwyd gostyngiad buddiol mewn lefelau o sbwriel dail ar safleoedd o laswelltir corslyd, er nad oedd y gostyngiad yn ystadegol bwysig. Daeth y dadansoddiad i'r casgliad fod y cynllun yn hyrwyddo'r amgylchiadau sydd eu hangen i gynnal a gwella amrywiaeth fotanegol ym mhob un o'r tri chategori o gynefin a astudiwyd.

1.23 Fodd bynnag, dangosodd y dadansoddiad hefyd fod llai o rywogaethau dymunol i'w cael ym mhob cynefin. Priodolodd hyn i ffactorau tymhorol: roedd y cyfnod rhwng canol mis Rhagfyr 2001 a mis Mawrth 2002 wedi bod yn anarferol o fwyn, a gwellodd hyn y sefyllfa waelodlin y câi newid ar ôl hynny ei fesur ohoni. Roedd mwy o rywogaethau dymunol wedi'u cofnodi ar y safleoedd a arolygwyd cyn canol mis Rhagfyr 2001. Felly mae'r canlyniadau yn amhendant. Byddai grŵp safonol o safleoedd y tu allan i gynllun Tir Gofal wedi galluogi'r dadansoddiad i ddod i gasgliadau mwy cadarn.

1.24 Roedd canlyniadau'r ail ailarolwg hefyd yn amhendant, a chafwyd nifer o ganlyniadau anghyson, megis cynnydd mewn rhywogaethau dymunol ac annymunol. Roedd ADAS o'r farn bod rhywfaint o dystiolaeth bod cynefinoedd wrthi'n newid o ganlyniad i lai o bori, a bod llai o dir moel a mwy o laswelltau bras (glaswelltau bras a thoreithiog sy'n ffynnu o dan bwysau pori isel). Roedd unrhyw gasgliadau yn rhai petrus am fod y cyfryw newid yn cymryd amser hir ac yn mynd trwy gyfnodau, sy'n cymhlethu'r gwaith o ddadansoddi'r data, yn arbennig yn gynnar yn y broses newid.

Ffigur 5: Ymchwil i effaith rhai o gyfarwyddiadau Tir Gofal ar fywyd gwyllt

1. Cynhaliodd Williams (2003) astudiaeth faes a fesurodd boblogaethau rhai rhywogaethau adar ar gaeau Tir Gofal. Cafwyd niferoedd mwy ar gaeau Tir Gofal mewn perthynas â lefelau poblogaeth cyfartalog yng Nghymru, ond ni chasglwyd unrhyw ddata sylfaenol yn nodi poblogaethau dechreuol adar ar gaeau cyn y cynllun.

2. Cynhaliodd Lamacraft, Thorpe a Scott (2004) astudiaeth ddesg o effeithiau posibl cyfarwyddiadau Tir Gofal ar adar tir ffermio. Er ei bod yn derbyn gwerth posibl yr amodau perthnasol, galwodd yr astudiaeth am 'becynnau o amodau' wedi'u hanelu at 'feysydd allweddol' i sicrhau bod y cynllun yn darparu adnoddau yn y mannau cywir, ar y lefelau cywir ac ar yr adegau cywir yn ystod y flwyddyn. Cefnogwyd yr argymhelliad hwn gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) hefyd ac, yn ddiweddarach, mewn papur gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a nododd newidiadau posibl yn nyluniad y cynllun o dan y Cynllun Datblygu Gwledig newydd (2007/2013).

3. Cynhaliodd Cartmel (2006) arolwg maes cryno o boblogaethau adar ac ystlumod mewn adeiladau a oedd wedi'u clustnodi ar gyfer arian gwaith cyfalaf, ac ystyriodd effaith bosibl y gwaith hwn ar y poblogaethau a oedd yn byw ynddynt eisoes. Cafwyd bod yr adeiladau clustnodedig yn gartref i amrywiaeth o rywogaethau pwysig ac ystyrid bod y cynllun yn debygol o gynyddu niferoedd a rhywogaethau'r bywyd gwyllt a oedd yn byw ynddynt. Fodd bynnag, ni ddychwelodd yr astudiaeth i'r adeiladau ar ôl cwblhau'r gwaith i nodi'r effeithiau ar y poblogaethau sefydlog.

1.25 Er na ddadansoddwyd y data yn systematig eto, mae gwerth yr astudiaeth fonitro ecolegol wedi'i leihau rywfaint am nad yw'n casglu gwybodaeth am yr arferion rheoli ym mhob safle cyn ac ar ôl iddo ymuno â chynllun Tir Gofal. Er ei bod yn debyg y bydd yr arferion ym mhob safle yn debyg ar ôl ymuno â'r cynllun, am fod pob safle yn ddarostyngedig i gyfarwyddiadau tebyg, gall fod gwahaniaethau o hyd mewn cyfraddau stocio a'r defnydd a wneir o wrteithiau, a gall y newid o arferion rheoli blaenorol fod yn un sylweddol. Awgrymodd y *Review and Recommendations of methodologies to be used for Botanical Monitoring of agri-environment schemes in England* (DEFRA, 2002) y dylid casglu data i asesu'r ffactorau sy'n sbarduno newid, gan gynnwys data am y math o newidiadau sy'n creu newidiadau buddiol i gynefinoedd a'u maint.

1.26 Hyd yma, mae'r dadansoddiad o'r data o'r astudiaeth fonitro ecolegol ond wedi ymdrin â thri o'r 20 opsiwn ar gyfer cynefinoedd (sef glaswelltir asid i rostir; glaswelltir wedi'i wella i laswelltir wedi'i led-wella, a glaswelltir wedi'i led-wella i laswelltir heb ei wella). Mae'r opsiynau hyn ond yn cwmpasu pump y cant o'r tir o fewn y cynllun, ac ni chwmpesir llawer o gyfarwyddiadau pwysig, megis troi glaswelltir yn dir ar gyfer tyfu cnydau âr neu'n goetir. Hefyd, bwriedir i rai cyfarwyddiadau gynorthwyo rhai rhywogaethau adar yn bennaf, ond dim ond data am newidiadau mewn llystyfiant a gesglir gan yr astudiaeth fonitro ecolegol. Er ei bod yn anos mesur newidiadau mewn bywyd gwyllt, mae'r ffaith nad yw'r cyfryw ddata i'w gael yn golygu bod y darlun o ganlyniadau amgylcheddol y cynllun yn anghyflawn.

Ymchwil i effaith Tir Gofal ar fywyd gwyllt

1.27 Comisiynodd CCGC ymchwil i asesu effaith Tir Gofal ar rai rhywogaethau bywyd gwyllt (Ffigur 5). Fodd bynnag, mae'r gallu i ddod i gasgliadau dilys o'r astudiaethau hyn wedi'i gyfyngu gan y ffaith nad oes unrhyw ddata dibynadwy am boblogaethau rhywogaethau perthnasol mewn caeau cyn ac ar ôl i fferm ymuno â'r cynllun. Serch hynny, mae'r asesiadau hyn yn rhoi rhyw syniad o fanteision tebygol cyfarwyddiadau'r cynllun, ac yn awgrymu bod angen gwneud rhai mân

newidiadau i'r cynllun i sicrhau bod y cyfarwyddiadau hynny y bwriedir iddynt gynorthwyo adar tir ffermio wedi'u targedu at yr ardaloedd daearyddol cywir a'u bod yn gallu darparu digon o fwyd a chysgod ar gyfer yr adar trwy gydol y flwyddyn.

Cyfyngiadau o ran y gwerthusiadau o effeithiau Tir Gofal ar gynefinoedd

1.28 Nid archwiliodd y gwerthusiad canol tymor o'r Cynllun Datblygu Gwledig yn 2003 ganlyniadau'r cynllun o ran cynefinoedd a bywyd gwyllt, yn rhannol oherwydd y cyfnod byr a oedd wedi mynd heibio ers i'r cynllun ddechrau. Mae'r broses newid cynefin yn aml yn cymryd amser hir, yn arbennig pan grëir cynefinoedd newydd. Er enghraifft, gall gymryd hyd at 60 mlynedd i greu gweirglodd. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i werthuso effaith cynlluniau dros gyfnod estynedig, yn aml am gyfnod hwy na hyd arferol cynllun amaeth-amgylcheddol. Rhoddwyd y gorau i fonitro'r canlyniadau ar gyfer cynlluniau Tir Cymen ac ESA pan ddisodlwyd y cynlluniau, ac oherwydd hynny collwyd gwybodaeth am eu heffaith tymor hwy a allai fod yn werthfawr. Mae'r rhaglen gyfredol i fonitro cynllun Tir Gofal o safbwynt botanegol yn para 12 mlynedd. Dylai Llywodraeth y Cynulliad wneud trefniadau i'r gwaith monitor barhau am gyfnod priodol fel y gellir asesu newidiadau hirdymor pwysig.

1.29 Cyfyngwyd ar y gwerthusiad o effaith Tir Gofal yn sgîl absenoldeb:

- **a** data rheoli cynhwysfawr a dibynadwy am dueddiadau o ran cynefinoedd, i ganiatáu cymariaethau â thueddiadau ar safleoedd y tu allan i'r cynllun;
- **b** dealltwriaeth fanwl o'r modd y mae'r cynllun yn achosi newid ar safleoedd unigol, gan gynnwys defnyddio targedau ar gyfer pob fferm.

1.30 Ceir data rheoli o arolygon cynefin ar raddfa eang neu drwy gynnwys safleoedd sydd y tu allan i gynllun Tir Gofal ond sy'n debyg i'r rhai y tu mewn iddo (grŵp safonol) mewn gwerthusiadau sampl. Gallai'r naill ddull neu'r llall alluogi gwerthusiadau i ddangos yn gliriach a ellir priodoli manteision i gynllun Tir Gofal neu i ffactorau eraill yn y canol. Er enghraifft, gall gwelliannau ym mioamrywiaeth glaswelltiroedd ddeillio o ostyngiad yn y defnydd a wneir o wrteithiau – ond gall gostyngiadau yn y defnydd a wneir o wrteithiau fod wedi digwydd beth bynnag oherwydd newidiadau yn yr amgylchedd economaidd neu ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, naill ai nid yw'r arolygon cynefinoedd sy'n cwmpasu Cymru yn ddigon aml neu nid ydynt yn ddigon cynhwysfawr i ddarparu data rheoli dibynadwy. A phenderfynodd Llywodraeth y Cynulliad beidio â defnyddio grŵp safonol o ffermydd y tu allan i'r cynllun, am y byddai'n anodd cynnal grŵp dros gyfnod hir pan gallai ffermwyr newid eu meddwl ac ymuno â chynllun amaeth-amgylcheddol. Serch hynny, daeth astudiaeth ar gyfer DEFRA yn 2003 i'r casgliad y gallai Arolwg Cefn Gwlad y DU ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol am dueddiadau, a bod cymariaethau uniongyrchol yn bosibl pe câi dulliau monitro botanegol eu cysoni. Roedd yr astudiaeth o'r farn bod cydgysylltu astudiaethau fel hyn yn opsiwn ymarferol i grwpiau safonol ar wahân ar gyfer pob cynllun amaeth-amgylcheddol, nad oeddynt yn ymarferol ar gyfer rhaglenni monitro mawr.

Ffigur 6: Nodweddion ac ardaloedd hanesyddol dan warchodaeth Tir Gofal ar 31 Gorffennaf 2006

Nodwedd neu ardal hanesyddol	Nifer	Nifer y ffermydd
Adeiladau fferm traddodiadol Strwythurau a godwyd cyn 1918 gan ddefnyddio deunyddiau a dulliau adeiladu traddodiadol (er engraifft fferm ôl-ganoloesol)	2,489	1,081
Henebion Cofrestredig Safleoedd o bwys cenedlaethol a warchodir gan Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979	651	251
Nodweddion hanesyddol eraill Safleoedd archeolegol, henebion cloddwaith, strwythurau adfeiliedig a nodweddion gardd hanesyddol unigol (er engraifft pwll neu gored ôl-ganoloesol)	13,242	1,950
Cyfanswm y nodweddion	**16,382**	**3,232**
Parciau a gerddi hanesyddol (hectarau)	3,449	

Ffynhonnell: Llywodraeth y Cynulliad

1.31 Mae consensws eang[6] mai'r ffordd orau o fesur effaith leol yw asesu pob safle ar ddechrau cytundeb, pennu targedau sy'n adlewyrchu ei gymeriad unigryw, a dychwelyd i fesur cynnydd yn rheolaidd. Mae'r dull gweithredu hwn yn caniatáu i reolwyr cynlluniau werthuso cynnydd yn erbyn meincnod clir, a gall helpu swyddogion prosiect i gyfleu diben cyfarwyddiadau cynlluniau i dirddeiliaid. Fodd bynnag, penderfynodd Llywodraeth y Cynulliad beidio â mesur effeithiau Tir Gofal fel hyn oherwydd y gost ychwanegol sylweddol a'r arbenigedd botanegol sydd ei angen i asesu pob safle, dewis targedau priodol a monitro cynnydd.

Er na wnaed fawr ddim gwaith monitro a gwerthuso, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod Tir Gofal yn diogelu'r amgylchedd hanesyddol

1.32 Mae Tir Gofal yn cynnwys cyfres o gyfarwyddiadau sydd wedi'u hanelu'n bennaf at ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol. Mae pob deilliad cytundeb yn gorfod cynnal cyflwr nodweddion hanesyddol sy'n bodoli eisoes, a gallant ddewis gwneud gwaith cyfalaf i'w gwella, gan gynnwys diogelu hen adeiladau fferm. Mae swyddogion prosiect yn gweithio'n agos gyda Cadw (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth y Cynulliad) a'r pedair ymddiriedolaeth archeolegol yng Nghymru[7] i nodi nodweddion hanesyddol a datblygu cyfarwyddiadau priodol. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r ymddiriedolaethau yn argymell cyfarwyddiadau safonol, ond mewn lleiafrif o achosion maent yn argymell cyfarwyddiadau manylach sydd wedi'u teilwra i nodweddion pwysig, penodol. Mae'r cyfarwyddiadau yn adlewyrchu profiad a

6 Mae'r safbwyntiau hyn yn adlewyrchu'r rhai a gyflewyd i ni gan gynghorwyr a rheolwyr cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru a Lloegr ac yn yr adolygiad o ddulliau a ddefnyddir i fonitro cynlluniau amaeth-amgylcheddol (DEFRA, 2002).

7 Ymddiriedolaethau Archeolegol Cambria, Clwyd-Powys, Morgannwg-Gwent, a Gwynedd.

gwybodaeth yr ymddiriedolaethau o dechnegau addas ar gyfer cynnal ac adfer safleoedd archeolegol.

1.33 Ar 31 Gorffennaf 2006, cwmpasai Tir Gofal 16,382 o nodweddion hanesyddol a 3,449 o hectarau o barcdir hanesyddol (Ffigur 6). Ar 31 Mawrth 2007, roedd y cynllun wedi ariannu gwaith adfer gwerth £2.1 miliwn ar adeiladau fferm traddodiadol ar 487 o ffermydd, ac roedd cyfanswm o 1,202 o adeiladau ar 890 o ffermydd wedi'u hadfer neu roeddynt yn aros i gael eu hadfer o dan gytundebau a fodolai eisoes.

1.34 Ni chaiff effaith Tir Gofal o ran cynnal ac adfer yr amgylchedd hanesyddol ei fonitro na'i werthuso fel rhan o'r drefn. Nodir nodweddion o ddiddordeb yn ystod proses arfarnu'r cais ac mae'r ymddiriedolaethau archeolegol yn ffurfio barn am eu pwysigrwydd. Fodd bynnag, nid asesir cyflwr pob nodwedd yn ffurfiol ac felly nid oes unrhyw linellau sylfaen y gellir mesur newidiadau mewn cyflwr yn eu herbyn.

1.35 Yn achos ceisiadau o ardaloedd y gwyddys eu bod o bwys archeolegol neu sy'n debygol o fod o bwys archeolegol, mae un o'r ymddiriedolaethau archeolegol yn ymweld â'r fferm ac yn disgrifio'r nodweddion yn fanylach, gan ddarparu cyfres o amodau manylach. Er y gallai hyn ddarparu sylfaen cadarnach ar gyfer monitro newidiadau yng nghyflwr safleoedd, ni wneir unrhyw waith monitro o'r fath.

1.36 Mae swyddogion monitro yn sicrhau bod nodweddion a gwmpesir gan gyfarwyddiadau Tir Gofal yn dal i fod yn bresennol ac na fu unrhyw ddirywiad amlwg yn eu cyflwr. Er enghraifft, byddant yn gwybod os cafodd corlan ei dinistrio yn ystod oes cytundeb, ond ni allant asesu a fu unrhyw fân amrywiadau yn ei chyflwr. Mae swyddogion hefyd yn sicrhau bod gwaith cyfalaf y cytunwyd arno ar nodweddion hanesyddol wedi'i wneud i safon foddhaol.

1.37 Canfu gwerthusiad economaidd-gymdeithasol 2005 o gynllun Tir Gofal na fyddai 46 y cant o'r ffermwyr a oedd wedi gwneud buddsoddiadau cyfalaf mewn adeiladau traddodiadol (y prif fath o weithgarwch adfer a ariennir gan Tir Gofal) wedi gwneud hynny heb y cymorth ariannol a ddarparwyd gan y cynllun, a dywedodd o leiaf 19 y cant arall eu bod wedi buddsoddi ynghynt a/neu ar raddfa fwy o ganlyniad i'r cynllun.

1.38 Dangosodd gwaith a wnaed i fonitro'r cynllun a ragflaenodd Tir Gofal yng Nghymru, sef cynllun ESA, fod y cynllun yn diogelu nodweddion hanesyddol, o gymharu â chyflwr nodweddion ar sampl o ffermydd safonol, er nad oedd y canlyniadau yn gyson ym mhob ardal. Mae Cadw o'r farn bod Tir Gofal yn chwarae rhan werthfawr wrth helpu i ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol, trwy ariannu gwelliannau penodol, darparu cyngor ar gyfer ffermwyr a chynorthwyo ffermio defaid traddodiadol sy'n tueddu i beidio â niweidio nodweddion hanesyddol. Mae Cadw yn monitro cyflwr henebion cofrestredig (yr henebion pwysicaf) a detholiad o nodweddion hanesyddol eraill. Fodd bynnag, nid yw Cadw wedi asesu cyflwr henebion cofrestredig ar dir Tir Gofal mewn perthynas â henebion cofrestredig ar safleoedd eraill, ond mae'n bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol agos.

Ffigur 7: Diogelu a gwella'r dirwedd – tir o fewn y cynllun

Dangosyddion cyffredinol a awgrymwyd gan y gwerthusiad canol tymor	Hectarau	% o'r holl dir amaethyddol
Cyfanswm y tir o fewn y cynllun[1]	332,595	19.8%
Tir cynefin o werth penodol i fywyd gwyllt[2]	182,317	10.9%
Tir dan gnydau âr a gynorthwyir[2 3]	12,270	0.6%

Nodiadau
1 Ar 31 Awst 2007
2 Yr oedd taliadau wedi'u gwneud ar ei gyfer ar 31 Mawrth 2007
3 Mae'n cynnwys tir o dan yr opsiynau canlynol: grawnfwyd heb ei chwistrellu, rêp a had llin, cadw sofl gaeaf, grawnfwydydd a heuir yn y gwanwyn, gwreiddiau heb eu chwistrefllu a sefyldu cnydau gorchuddio bywyd gwyllt

Ffynhonnell: Cronfa ddata Tir Gofal (Llywodraeth y Cynulliad)

Mae data allbwn yn awgrymu bod Tir Gofal yn helpu i ddiogelu a gwella harddwch y dirwedd

1.39 Mae Tir Gofal yn cyfrannu at ddiogelu a gwella harddwch naturiol cefn gwlad Cymru trwy amrywiaeth eang o fesurau y bwriedir iddynt gyflawni rhai o amcanion eraill y cynllun yn bennaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

a cynnal a chreu ffiniau caeau traddodiadol, yn arbennig waliau sych a gwrychoedd lle y mae'r rhain yn nodweddion tirwedd cyffredin;

b ailgyflwyno neu gynnal gweithgarwch tyfu cnydau âr, fel bod tirwedd gymysg o gnydau a thir pori;

c plannu coed a chreu coridorau ar hyd glannau nentydd;

ch adfer adeiladau hanesyddol;

d cael gwared â sgrap o fuarthau;

Ffigur 8: Gwella'r dirwedd – adfer a chreu ffiniau caeau traddodiadol (gwaith y talwyd amdano ar 31 March 2007)

Math o ffin		Uned fesur	Taliadau (£000)
Gwrychoedd	3,527	o gilometrau	3,504
Waliau cerrig	438	000 o filltiroedd sgwâr	3,766
Cloddiau wyneb carreg	29	000 o filltiroedd sgwâr	119
Cloddiau	70	o gilometrau	110
Ffensys llechi	5	o gilometrau	37
Cyfanswm			**7,536**

Ffynhonnell: Cronfa ddata Tir Gofal (Llywodraeth y Cynulliad)

dd diogelu parciau a gerddi hanesyddol, a gwella bioamrywiaeth caeau trwy leihau stoc ac adfer gweirgloddiau.

1.40 Mae'r Cynllun Fferm Gyfan yn ei gwneud yn ofynnol i berchenogion tir ddiogelu ffiniau traddodiadol, nodweddion hanesyddol, coed mewn caeau a nodweddion tirwedd eraill tra bydd y cytundeb mewn grym. O ganlyniad, ystyriai'r gwerthusiad canol tymor o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2003 fod cyfanswm arwynebedd y tir o fewn y cynllun yn ddangosydd defnyddiol o'i gyfraniad at wella'r dirwedd, yn ogystal â chyfanswm arwynebedd y tir cynefin o werth penodol i fywyd gwyllt a thir âr a gynorthwyir, gan fod y ddau ohonynt yn tueddu i hyrwyddo amrywiaeth tirwedd (Ffigur 7).

1.41 Un o effeithiau mwyaf gweladwy cynlluniau amaeth-amgylcheddol ar y dirwedd yw lle y'u defnyddiwyd i wella cyflwr ffiniau caeau traddodiadol. Mae'r mwyafrif o'r ffermydd yn y cynllun wedi adfer neu greu gwrychoedd, a buddsoddwyd cryn dipyn mewn waliau cerrig a ffiniau eraill (Ffigur 8). Fodd bynnag, nid oes unrhyw wybodaeth ddibynadwy ar gael am gyfanswm hyd a chyflwr ffiniau traddodiadol, a fyddai'n galluogi rhoi'r llwyddiannau hyn yn eu cyd-destun.

1.42 Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad ddull ffurfiol o werthuso canlyniadau ar gyfer yr elfen hon o gynllun Tir Gofal, sy'n anodd iawn eu hasesu am eu bod yn dibynnu ar ganfyddiadau o harddwch tirwedd. Felly cyfyngwyd gweithgarwch monitro i sicrhau bod nodweddion tirwedd wedi'u cynnal neu fod gwaith cyfalaf (ffiniau newydd) wedi'i wneud i safon dderbyniol, yn unol â chytundebau Tir Gofal.

1.43 Wrth ddatblygu cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol Lloegr, nododd DEFRA brif nodweddion 150 o barthau tirwedd. Sgoriwyd ceisiadau i'r cynllun i adlewyrchu'r graddau yr oeddynt yn cynorthwyo prif nodweddion y parth tirwedd perthnasol. Nid yw hyn yn nodwedd ar gynllun Tir Gofal, ond mae Strategaeth Amgylchedd Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2006, yn ymrwymo Llywodraeth y Cynulliad i lunio cyfres o ddangosyddion ar gyfer mesur ansawdd ac amrywiaeth tirweddau a morluniau Cymru. Ni nodwyd yr amserlen ar gyfer y gwaith hwn eto ac mae'n dibynnu ar Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn cwblhau ei waith nodweddu tirweddau a morluniau. Bydd cwblhau'r gwaith hwn a datblygu dangosyddion tirwedd priodol yn darparu offeryn defnyddiol ar gyfer asesu effaith Tir Gofal ar y dirwedd ac efallai ar gyfer targedu'r cynllun ymhellach yn y dyfodol.

1.44 Hyrwyddo ffiniau caeau traddodiadol yw'r agwedd ar gynllun Tir Gofal sydd â'r cysylltiad mwyaf clir â gwella harddwch naturiol cefn gwlad. Felly mae effaith taliadau ar gyfer ffiniau caeau yn bwysig iawn i asesu pa mor dda y mae Tir Gofal yn cyflawni'r amcan hwn. Dangosodd gwerthusiad economaidd-gymdeithasol 2005 mai dim ond 36 y cant o'r ymatebwyr a nododd na fyddent wedi buddsoddi mewn ffiniau caeau newydd heb y cynllun. Roedd hyn gryn dipyn yn llai nag ar gyfer gwaith cyfalaf arall, a gallai adlewyrchu'r manteision amaethyddol a gaiff ffermwyr o wella ffiniau. Nid yn unig y mae'r cyfryw waith yn gwneud ffiniau yn fwy diogel i dda byw, maent hefyd yn darparu mwy o gysgod ar gyfer da byw rhag tywydd eithafol. Felly gellir disgwyl y byddai ffermwyr yn gwneud rhywfaint o fuddsoddiad. Fodd bynnag, o'r 64 y cant a ddywedodd y byddent wedi buddsoddi yn y gwaith heb gynllun Tir Gofal,

Ffigur 9: Sylwadau ffafriol am effaith Tir Gofal ar y dirwedd a wnaed gan ddeiliaid cytundebau mewn grwpiau ffocws

- 'Mae fy fferm wedi gwella'n aruthrol, gatiau pren newydd ym mhobman, mae'r gwrychoedd yn well ac rwyf ar fy ennill yn ariannol…mae'r fferm gyfan yn edrych yn well' – Sir Gaerfyrddin
- 'Nid oes dwywaith nad yw'n gwella golwg y sir' – Meirionnydd
- 'Mae'r fferm gryn dipyn yn daclusach o'i herwydd' – Meirionnydd
- 'Mae wedi tacluso llawer o ffermydd' – Powys
- Prynais ddarn o dir â gwrychoedd traddodiadol nad oeddynt yn bren meddal ac a oedd wedi cael eu gadael i dyfu'n uchel, felly trwy ymuno â'r cynllun bu modd i mi (ail)blannu gwrychoedd a chodi ffensys o'i amgylch a'i wneud yn ddiogel i dda byw ac yn hydrin unwaith ato" – Powys

Ffynhonnell: Grwpiau ffocws o ddeiliaid cytundebau Tir Gofal a drefnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru

dywedodd 56 y cant iddynt wneud y buddsoddiad ynghynt nag y bwriadwyd a dywedodd 71 y cant iddynt gynyddu eu buddsoddiad. Mae hyn yn awgrymu bod o leiaf 81 y cant o'r ymatebwyr yn cydnabod bod y taliadau o dan gynllun Tir Gofal am waith yn gysylltiedig â ffiniau caeau wedi cael rhyw faith o effaith.

1.45 Ni fesurodd y gwerthusiad economaidd-gymdeithasol faint y buddsoddiad ychwanegol na'r newidiadau mewn amserlenni. Felly mae'n anodd asesu effaith gyffredinol taliadau ar gyfer adfer neu greu ffiniau traddodiadol. Mae'r ffaith nad oes unrhyw ddata arolygon cynhwysfawr ar gyfer ffermydd y tu allan i'r cynllun hefyd yn ei gwneud yn anodd i asesu i ba raddau y mae ffiniau sy'n bodoli eisoes yn cael eu cadw'n well o dan gynllun Tir Gofal, o gymharu â ffermydd lle na cheir unrhyw gymhellion ariannol.

Ffigur 10: Mynediad caniataol a grëwyd gan Tir Gofal (ar 31 Mawrth 2007)

Math o ffin	Hyd/arwynebedd	Nifer y ffermydd	Taliadau £000
Ardaloedd mynediad caniataol newydd	2,510 hectares	571	477
Llwybrau troed mynediad caniataol newydd	428 km	459	502
Llwybrau beiciau a cheffylau mynediad caniataol newydd	65 km	46	96
Mynediad caniataol newydd i'r anabl	3 km	9	10
Darparu deunyddiau ar gyfer dodrefn llwybrau a gosod wynebau caled ar lwybrau			200
Mynediad addysgol newydd (ymweliadau fferm)	4,221 visits	170	352
Cyfanswm			**1,637**

Ffynhonnell: Cronfa ddata Tir Gofal (Llywodraeth y Cynulliad) – allbynnau y talwyd amdanynt ar 31 Mawrth 2007

1.46 Roedd ein grwpiau ffocws o ffermwyr o'r farn bod taliadau ar gyfer ffiniau caeau yn gymhelliad arbennig o bwysig iddynt ymuno â'r cynllun, yn bennaf oherwydd y fantais amaethyddol uniongyrchol a ddeilliodd ohonynt. Roedd y farn am rai cyfarwyddiadau yn gymysg. Er enghraifft, cymerai coridorau ar hyd nentydd gyfran fach o dir ac roeddent o gymorth i reoli da byw trwy ffensio darnau o dir, ond ystyriai rhai eu bod yn anniben ac wedi'u gorchuddio â llystyfiant, a bod hynny yn galluogi fermin a chwyn annymunol i ymledu. Fodd bynnag, y farn gyffredinol oedd bod Tir Gofal yn fuddiol o ran gwella'r dirweddt (Ffigur 9).

Mae Tir Gofal cynyddu cyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad i gefn gwlad ond erys problemau yn gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth, mynediad caniataol ac ymweliadau mynediad addysgol

1.47 Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad i gefn gwlad yw pedwerydd amcan craidd y cynllun, sy'n golygu bod rhaid i berchenogion tir gadw hawliau tramwy yn ddirwystr. Er bod hyn yn rhwymedigaeth gyfreithiol ar dirddeiliaid ers cryn amser, nid yw llawer o hawliau tramwy yn agored nac yn hygyrch. Felly mae'r cynllun yn rhoi cymhelliad i gynnal a gwella'r sefyllfa hon. Ar hyn o bryd mae Tir Gofal yn cwmpasu 4,116 o gilometrau o hawliau tramwy, sy'n cynrychioli 12 y cant o gyfanswm yr hawliau tramwy yng Nghymru.

1.48 Am ei fod yn rhwymedigaeth statudol arnynt, ni thelir deiliaid cytundebau yn benodol am gynnal a chadw hawliau tramwy. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad yn atal taliadau rheoli (yr arian craidd sydd ynghlwm wrth yr Adran Fferm Gyfan) os dengys ymweliadau cydymffurfio nad yw hawliau tramwy mewn cyflwr derbyniol; fel arfer mae hyn yn effeithiol wrth sicrhau gwelliannau. Ar ben hynny, gall deiliaid cytundebau ddewis darparu ystod o opsiynau o ran mynediad caniataol sy'n ymestyn mynediad y cyhoedd i gefn gwlad, y maent yn derbyn taliadau amdanynt (Ffigur 10).

1.49 Dangosodd astudiaeth a wnaed ar gyfer CCGC yn 2002[8] nad oedd cyflwr hawliau tramwy ar ffermydd Tir Gofal ond ychydig bach yn well na'r cyffredin ar gyfer Cymru

Blwch A: Barn swyddogion hawliau tramwy neu fynediad i gefn gwlad Parciau Cenedlaethol neu awdurdodau lleol am weithrediad cynllun Tir Gofal

Cafwyd barn pum swyddog hawliau tramwy neu fynediad i gefn gwlad Parciau Cenedlaethol neu awdurdodau lleol am weithrediad Tir Gofal yn eu hardaloedd. Roeddent o'r farn bod y cynllun yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth hawliau tramwy, er na fesurwyd yr effaith. Roedd gan y cynllun botensial mawr i wella hawliau tramwy ar ffermydd, ond dim ond pe bai llwybrau ar ffermydd cyfagos hefyd yn hygyrch ac mewn cyflwr da y byddai'r rhain yn ddefnyddiol. Mewn rhai achosion, gallai Tir Gofal rwystro mynediad cyhoeddus am fod tirddeiliaid yn cau llwybrau a fodolai eisoes wrth ffensio ardaloedd cynefin neu goridorau ar hyd glannau nentydd. Cydnabu'r swyddogion y ffaith bod gweithgarwch cysylltu â swyddogion prosiect ac ymgynghori ynghylch ceisiadau newydd wedi gwella a chroesawyd hynny ganddynt, ond ni chaent eu hysbysu o ganlyniadau gwiriadau cydymffurfio unwaith yr oedd cytundeb ar waith. Awgrymodd swyddogion rai newidiadau:

- mynnu bod ymgeiswyr yn datrys unrhyw broblemau cyn i'w cytundeb gael ei lofnodi, yn hytrach nag o fewn chwe mis ar ôl iddynt ymuno â'r cynllun;
- cydgysylltu archwiliadau o ffermydd â llwybrau caeedig fel y gall awdurdodau priffyrdd wirio cydymffurfiaeth (eisoes yn yr arfaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin);
- darparu mwy o gyhoeddusrwydd a gwybodaeth am lwybrau mynediad caniataol (roedd y swyddogion o'r farn mai cyfyngedig oedd gwerth y ddarpariaeth mynediad caniataol);
- mynnu bod gatiau yn cael eu defnyddio yn hytrach na chamfeydd ble bynnag y bo modd, i alluogi mynediad i'r rhai â phroblemau symudedd.

8 *Arolwg Cyflwr Hawliau Tramwy Cymru* 2002, a gomisiynwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac a gynhaliwyd gan ymgynghorwyr Exegesis, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2003

(36.7 o broblemau fesul 10 cilometr, o gymharu â 43.4 ar gyfer Cymru gyfan) ac roedd cyfraddau'r problemau a oedd yn golygu na ellid defnyddio'r llwybrau tua'r un fath â'r cyfartaledd yng Nghymru. Roedd y cyfraddau hyn gryn dipyn yn waeth na'r rhai mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Roedd CCGC yn siomedig iawn gyda'r canlyniadau am ei fod yn credu y dylai cyflwr llwybrau ar ffermydd Tir Gofal fod wedi bod gryn dipyn yn well na'r cyffredin. Roedd wyth deg un y cant o ffermydd Tir Gofal yn yr arolwg wedi bod o fewn y cynllun am o leiaf 12 mis, ac felly roeddynt wedi cael cyfnod rhesymol o amser i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a fodolai eisoes.

1.50 O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, cynhaliodd CCGC adolygiad manwl o'i weithdrefnau o ran mynediad cyhoeddus a gweithredodd nifer o newidiadau i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn helaethach ac yn fwy cyson ledled Cymru. Ymhlith y newidiadau hyn roedd:

a pennu dyddiad cau pendant o chwe mis ar ôl dechrau'r cytundeb (gyda rhai eithriadau) yr oedd yn rhaid agor hawliau tramwy o'i fewn, a sicrhau bod cynnydd yn cael ei arolygu fel rhan o'r ymweliad cynnal a chadw cyntaf;

b cofnodi unrhyw broblemau a nodwyd yn ystod ymweliadau â ffermydd yn systematig a hysbysu awdurdodau priffyrdd (awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol) yn unol â hynny;

c gwella cysylltiadau ag awdurdodau priffyrdd i ddarparu gwell gwybodaeth i CCGC am unrhyw broblemau ar fferm, yn arbennig pan oedd cytundebau yn cael eu mapio a'u negodi, a hysbysu awdurdodau priffyrdd o ba lwybrau a oedd wedi'u cwmpasu gan y cynllun;

ch cynnwys grwpiau defnyddwyr, megis Cymdeithas y Cerddwyr, yn y gwaith o fonitro cydymffurfiaeth a gwneud sylwadau ar werth cynigion ar gyfer mynediad caniataol.

1.51 Dangosodd adolygiad pellach yn 2004 fod y mwyafrif o'r mesurau hyn wedi'u gweithredu a bod uwch swyddogion prosiect o'r farn iddynt fod yn effeithiol, er bod rhai anghysonderau o hyd. Yn arbennig, amrywiai gallu awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth gryn dipyn. Amrywiai gweithgarwch cysylltu â grwpiau defnyddwyr hefyd. Nid ail-gynhaliwyd Arolwg Cyflwr Hawliau Tramwy Cymru Gyfan, ac felly nid oes unrhyw dystiolaeth ynghylch cyflwr cyfredol hawliau tramwy ar dir Tir Gofal. Roedd swyddogion hawliau tramwy awdurdodau lleol yr ymgynghorwyd â hwy o'r farn bod y cynllun yn helpu i orfodi deddfwriaeth hawliau tramwy ac y gallent wella cyflwr y rhwydwaith, er eu bod o'r farn y gellid gwneud nifer o welliannau (Blwch A).

1.52 Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn monitro'r defnydd a wna'r cyhoedd o ardaloedd a llwybrau mynediad caniataol a ariennir gan Tir Gofal, na chanfyddiad cerddwyr o werth y mynediad ychwanegol neu well hwn. O ganlyniad, mae risg bod ffermwyr yn ymuno â chynllun Tir Gofal trwy ddarparu mynediad caniataol a derbyn taliadau am hynny, heb fod unrhyw effaith fuddiol o ran cynyddu'r defnydd a wneir o gefn gwlad.

1.53 Fel rhan o'n hastudiaeth o fynediad cyhoeddus i gefn gwlad[9], comisiynwyd arolwg o aelodau o Gymdeithas y Cerddwyr a gynhwysai gwestiynau am y mynediad caniataol a ddarperir gan Tir Gofal. O'r 160 o aelodau a ymatebodd i'r arolwg, gwyddai

9 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mynediad Cyhoeddus i Gefn Gwlad, Swyddfa Archwilio Cymru, Awst 2006

22 y cant eu bod wedi defnyddio llwybrau mynediad caniataol Tir Gofal yn ystod y 12 mis blaenorol. O'r rhain, roedd 77 y cant o'r farn bod y llwybrau newydd wedi gwella eu mwynhad o gefn gwlad. Fodd bynnag, nododd tri deg un y cant eu bod wedi wynebu nifer o anawsterau wrth ddefnyddio'r llwybrau, megis arwyddion neu ddodrefn llwybr gwael. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod Tir Gofal wedi cael rhyw effaith o ran ymestyn y mwynhad o gefn gwlad ar gyfer cerddwyr ymroddedig.

1.54 Ar ben hyn gofynnwyd i ymatebwyr pa gamau ymarferol y gellid eu cymryd i gynyddu cyfraniad llwybrau mynediad caniataol Tir Gofal at eu mwynhad o gefn gwlad. Ymhlith yr awgrymiadau a gafwyd roedd cyfeirbwyntio a chynnal a chadw llwybrau'n well, a mwy o gyhoeddusrwydd. Derbyniodd CCGC fod arwyddbyst yn broblem: dyrannodd £60,000 i godi byrddau arwyddion yn 2006/2007, gan gwmpasu tua dau draean o'r gofyniad amcangyfrifedig – ar gyfer 2,052 o fyrddau ar 480 o ffermydd – ar ddechrau'r flwyddyn honno. Mae'r prinder arwyddbyst digonol yn debygol o gyfyngu gryn dipyn ar y defnydd a wneir o lwybrau ac ardaloedd mynediad caniataol.

1.55 Nid oes fawr ddim gwybodaeth ar gael am werth yr ymweliadau mynediad addysgol a ddarperir o dan y cynllun. Telir £500 y flwyddyn i ddeiliaid cytundebau am chwe ymweliad, fel arfer gan blant o ysgolion lleol. Dim ond dau o'r 32 o ffermwyr a fu'n bresennol yn ein grwpiau ffocws a oedd wedi trefnu'r cyfryw ymweliadau. Roeddynt o'r farn bod yr ymweliadau wedi bod yn fuddiol iawn, ond eu bod yn golygu llawer mwy o waith nag yr oeddent wedi disgwyl am fod angen cynnal asesiadau risg cynhwysfawr, a oedd wedi gwneud ysgolion yn amharod i ymgymryd â'r ymweliadau mewn rhai achosion. Roeddent o'r farn y gallai Llywodraeth y Cynulliad a'r awdurdodau addysg wneud mwy i annog a threfnu'r ymweliadau, gan ysgafnu'r baich ar ffermwyr rywfaint. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal prosiect i ddarparu canllawiau a safoni gofynion iechyd a diogelwch, sy'n amrywio rhwng awdurdodau lleol ac a all fod yn feichus i'w gweithredu. Cadarnhaodd swyddogion Tir Gofal fod llawer o ffermwyr yn ei chael yn anodd i gyrraedd eu targed arferol o drefnu chwe ymweliad y flwyddyn, a bod llawer wedi penderfynu ildio'r taliadau cyn cyrraedd eu targed. Mewn nifer o achosion, roedd ffermwyr a oedd wedi dewis cynnal ymweliadau addysgol yn ystod pum mlynedd gyntaf eu cytundebau wedi penderfynu peidio â gwneud hynny wrth ail-negodi cytundebau hanner ffordd trwy'r cytundeb.

Mae'r cynllun yn darparu manteision economaidd-gymdeithasol a diwylliannol ehangach

1.56 Er i Tir Gofal gael ei lunio i gyflawni ei bedwar amcan allweddol, mae tystiolaeth bod y cynllun hefyd wedi dwyn manteision economaidd-gymdeithasol a diwylliannol ehangach. Yn 2003 comisiynodd CCGC werthusiad (a gyhoeddwyd yn 2005) sy'n asesu, trwy ddadansoddi ffeiliau achos a chyfweliadau â thua 250 o ffermwyr, effaith Tir Gofal ar incwm a gwariant ffermwyr a'r economi ehangach.

1.57 Amcangyfrifodd y gwerthusiad i'r £11.3 miliwn o daliadau a wnaed o dan gynllun Tir Gofal yn 2003 greu gwariant ychwanegol o £4.2 miliwn yn yr economi ehangach (£6.3 miliwn pan

10 Amcangyfrifodd yr adolygiad gyfanswm y gwariant ychwanegol a grewyd gan gynllun Tir Gofal yn seiliedig ar newidiadau yng ngwariant ffermydd rhwng 1998 a 2003. Y newidiadau hyn yw effeithiau uniongyrchol y cynllun. Mae'r effeithiau anuniongyrchol yn cyfeirio at wariant ychwanegol yn yr economi gan drydydd partïon a dderbyniodd fanteision ariannol o'r cynllun, er enghraifft contractwyr lleol a gyflogwyd gan ffermwyr i wneud gwaith cyfalaf.

gymerwyd effeithiau anuniongyrchol i ystyriaeth)[10]. Roedd bron y cyfan o'r gwariant ychwanegol i'w briodoli i waith cyfalaf, am i'r taliadau rheoli bron yn gyfan gwbl gael eu gwrthbwyso gan yr incwm a ildiwyd gan berchenogion tir, oherwydd cynhyrchiant is a newidiadau canlyniadol mewn costau cynhyrchu. Aeth saith deg tri y cant o'r gwariant ychwanegol i ddiwydiannau yng Nghymru, ac aeth 23 y cant ychwanegol i deuluoedd yng Nghymru; sy'n dangos bod y mwyafrif o'r manteision yn aros yn yr ardal leol. Amcangyfrifwyd i'r cynllun greu 112 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, gyda 60 y cant ohonynt yn y sectorau 'amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota' ac 'adeiladu'. Ar sail y canlyniadau hyn, amcangyfrifodd y gwerthusiad fod yr £8.2 miliwn a wariwyd ar waith cyfalaf yn ystod y cyfnod 2000 i 2003 wedi arwain at wario £21.3 miliwn yn yr economi ehangach a chreu 385 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Byddai'r swyddi ychwanegol hyn yn arbennig o fuddiol mewn cymunedau gwledig bach, lle y mae cyfleoedd cyflogaeth eraill yn gyfyngedig.

1.58 Ategodd ein grwpiau ffocws y farn hon, a phwysleisiodd nifer o gyfranogwyr pa mor bwysig oedd Tir Gofal i gynnal a chynyddu'r galw am fusnesau gwledig traddodiadol megis codi waliau a phlannu gwrychoedd. Roedd y grŵp o ffermwyr o Feirionnydd yn arbennig o'r farn bod y cynllun yn helpu i gynnal cymunedau lleol a thrwy hynny'r iaith Gymraeg. Ar ben hynny helpodd y manteision ariannol i gynnal ffermydd teulu trwy annog plant i ymgymryd â ffermydd eu rhieni. Croesawodd y mwyafrif o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws y cyfle i ailgyflwyno neu ymestyn arferion ffermio traddodiadol, ac annog bywyd gwyllt, mewn ffyrdd na fyddent fel arall yn ariannol ddichonadwy.

Gall y manteision a gafwyd gan y cynllun fod mewn perygl heb ymrwymiad ariannol hirdymor

1.59 Mae'r manteision amgylcheddol y mae Tir Gofal yn ceisio eu sicrhau yn rhai hirdymor yn bennaf. Mae hyn yn wir am y mwyafrif o gynlluniau amgylcheddol, lle y mae angen gwaith rheoli ac ymrwymiad hirdymor i sicrhau a chynnal manteision llawn ymyrraeth bolisi. Er enghraifft, gall gymryd 60 mlynedd i adfer gweirgloddiau, a dangosodd astudiaethau a fu'n edrych ar adfer glaswelltir y gall lefelau nitrogen aros yn niweidiol o uchel wyth mlynedd ar ôl i'r defnydd o wrteithiau nitrogen-seiliedig ddod i ben. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod hyn, ac mae wedi nodi ei chyfeiriad strategol ar gyfer polisi amgylcheddol dros gyfnod o 20 mlynedd[11]. Mae'r strategaeth hon yn nodi y 'bwriedir i'r cyfnod hwn ddarparu ffocws tymor hwy ac adlewyrchu'r ffaith bod llawer o brosesau amgylcheddol yn gweithredu dros gyfnodau hir'.

1.60 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal adolygiad o bob cynllun rheoli tir yng Nghynllun Datblygu Gwledig Cymru, gan gynnwys Tir Gofal, yn 2007/2008. Er mwyn atgyfnerthu'r manteision amgylcheddol yr ymddengys fod y cynllun wedi'u sicrhau hyd yma, bydd angen parhau ag arferion rheoli sensitif er mwyn sicrhau bod cynefinoedd yn parhau i wella dros amser, a bod nodweddion tirwedd a nodweddion hanesyddol yn cael eu cadw mewn cyflwr da. Mae'n debyg y bydd angen parhau i ddarparu rhywfaint o gymorth ariannol er mwyn gwneud hyn, yn arbennig ar gyfer cyfarwyddiadau sy'n arwain at newid arferion rheoli fferm ac na fyddent fel arall yn cynnig fawr ddim mantais ariannol i ffermwr.

11 Llywodraeth y Cynulliad, *Strategaeth Amgylchedd Cymru*, 2006

1.61 Wrth ystyried pa fath o gymorth parhaus a ddarperir a gwerth y cymorth hwnnw, bydd angen i Lywodraeth y Cynulliad ystyried:

a **Effaith ei chymorth o dan gynllun Tir Gofal a chynlluniau blaenorol.** Yn unol â phenderfyniadau polisi ar y pryd i ddiogelu ethos Tir Gofal fel cynllun sydd ar gael ledled Cymru, nid yw Tir Gofal yn blaenoriaethu ceisiadau gan ffermydd a arferai fod yng nghynllun Tir Cymen na chynllun ESA, ac ni wnaed unrhyw waith cynllunio na monitro olyniaeth i sicrhau bod y manteision a gafwyd o gyfranogi yn y cynlluniau hynny wedi'u cynnal. Nid oes ond tystiolaeth anecdotaidd i awgrymu i lawer o ffermydd yng Nghynllun Tir Cymen a ffermydd mewn Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif ymuno â Tir Gofal ar ôl hynny; nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn gwybod faint. Mae'r rhestr aros hir o ffenestr geisiadau Tir Gofal 2003, a'r ffaith nad agorodd unrhyw ffenestr newydd yn y tair blynedd ddilynol, yn cynyddu'r risg bod cyfranogwyr yn y cynlluniau cynharach wedi ymwrthod â chynlluniau amaeth-amgylchedddol yn gyfan gwbl, ac felly nad oes ganddynt unrhyw gymhelliad i barhau â'u harferion ffermio ecogyfeillgar heb y cymorth ariannol y maent wedi dod yn gyfarwydd ag ef.

b **Effaith gwelliannau yn y lefel o ddiogelwch statudol.** Darparodd Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-Naturiol) (Cymru) 2002 lefel newydd o ddiogelwch ar gyfer llawer o gynefinoedd lled-naturiol a gwmpesir gan Tir Gofal. O dan y rheoliadau hyn, gwaherddir tirddeiliaid rhag dinistrio'r cynefinoedd hyn neu eu niweidio'n ddifrifol. Felly mae'r rheoliadau yn darparu rhywfaint o'r diogelwch yr arferai Tir Gofal dalu amdano. Fodd bynnag, er bod y rheoliadau wedi'u hatgyfnerthu bellach trwy gyflwyno'r gyfundrefn drawsgydymffurfio, nid ydynt yn effeithiol wrth atal cynefinoedd rhag cael eu graddol ddinistrio trwy esgeulustod. Yn arbennig, nid ydynt yn mynnu arferion rheoli fferm ecogyfeillgar, nid ydynt o reidrwydd yn cwmpasu cynefinoedd mosäig[12], ac nid ydynt yn gwahardd 'gweithrediadau arferol' a allai fod yn niweidiol, megis llosgi rhostir yn rheolaidd, y defnydd o wrteithiau neu glirio ffosydd yn rheolaidd. Felly mae Tir Gofal yn darparu lefel uwch o ddiogelwch trwy nodi arferion rheoli dymunol a thrwy ddarparu cyfundrefn fonitro fwy rhagweithiol sy'n debygol o ganfod achosion o beidio â chydymffurfio.

c **Effaith debygol Tir Cynnal:** Mae Tir Cynnal yn gynllun newydd y bwriedir iddo gyflawni llawer o'r un amcanion â chynllun Tir Gofal. Mae'n rhaid i gyfranogwyr ddiogelu cynefinoedd a llunio (ond nid o reidrwydd gweithredu) cynllun rheoli adnoddau i osgoi niweidio ansawdd pridd a dŵr. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn nodi arferion rheoli yn yr un modd â chynllun Tir Gofal, ac mae'n cynnig cyfraddau taliadau is. Felly mae gan gynllun Tir Cynnal lai o botensial i gynnal manteision amgylcheddol na chynllun Tir Gofal.

Yn ogystal ag ystyried y materion amgylcheddol perthnasol, wrth adolygu Tir Gofal bydd angen i Lywodraeth y Cynulliad hefyd ystyried effaith y cynllun ar hyfywedd ariannol hirdymor deiliaid cytundebau ac effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach y cynllun.

12 Cyfuniad o fathau o gynefinoedd lled-naturiol mewn un ardal, lle nad yw'r un math o gynefin i'w weld yn dominyddu

Rhan 2 - Mae'r cynllun wedi'i lunio'n dda ac fe'i rheolir yn dda, ond mae'n costio mwy i'w redeg nag y disgwyliwyd yn wreiddiol

Mae'r cynllun yn cyd-fynd yn dda â strategaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer yr amgylchedd a ffermio

Mae Tir Gofal yn rhan o byramid amaeth-amgylcheddol y bwriedir iddo gyflawni amcanion polisi ehangach

2.1 Lansiwyd Tir Gofal ym mis Mawrth 1999 i symleiddio a gwella'r amrywiaeth o gynlluniau amaeth-amgylcheddol a oedd ar gael bryd hynny. Un nod oedd sicrhau bod y cynllun yn hygyrch yn eang, yn wahanol i gynlluniau eraill a oedd wedi'u cyfyngu i ardaloedd a ffermydd penodol neu i fathau penodol o gynefin. Ers hynny, mae nifer o ddatblygiadau wedi atgyfnerthu amcanion gwreiddiol y cynllun, ond maent hefyd wedi nodi ei gyfyngiadau:

- **a** Bu Tir Gofal yn boblogaidd iawn, ac mae cyfyngiadau cyllidebol wedi'i atal rhag cwrdd â'r galw yn fwy amserol.
- **b** Mae'r amodau a osodir gan y cynllun yn gymharol anodd, ac maent yn golygu nad yw'n sicrhau'r cwmpas cynhwysfawr sydd ei angen i gael effaith sylweddol ar broblemau ar raddfa eang megis erydiad pridd ac ansawdd dŵr.
- **c** Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn rhoi mwy o bwyslais ar 'natur amlswyddogaethol' ffermio (ei effaith ar yr amgylchedd, yr economi ehangach a diwylliant lleol) ac mae'n parhau i fynnu a chefnogi cynlluniau amaeth-amgylcheddol ym mhob aelod-wladwriaeth.
- **ch** O ganlyniad i ddiwygio CAP yn 2003, ers 2005 nid yw cymorthdaliadau fferm yn uniongyrchol gysylltiedig â chynhyrchiant. Yng Nghymru, gwneir taliad fferm sengl i bob deiliad tir cymwys yn seiliedig ar ei gymorthdaliadau yn y cyfnod 2000/2002.
- **d** Mae'r taliad fferm sengl yn ei gwneud yn ofynnol i dderbynwyr gyrraedd rhai safonau amgylcheddol sylfaenol uwchben y rhai a fynnir gan y gyfraith (y tro cyntaf i hyn gael ei wneud ar gyfer cymorthdaliadau y tu allan i gynlluniau amaeth-amgylcheddol). Gelwir y rhain yn ofynion trawsgydymffurfio ac maent yn berthnasol i bob un o aelod-wladwriaethau'r UE.
- **dd** Tynhawyd cyfraith y DU, ac mae Rheoliadau Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin) bellach wedi'i hatgyfnerthu trwy weithredu'r gofynion trawsgydymffurfio o dan y cynllun Taliad Sengl. Mae'r trefniadau hyn yn helpu i atal ffermwyr rhag dinistrio cynefinoedd gwerthfawr sy'n bodoli eisoes ar raddfa sylweddol.

2.2 Effaith y datblygiadau hyn fu codi'r safon ofynnol o ran gwaith rheoli amgylcheddol ar draws amaethyddiaeth, lleihau'r cymhelliad economaidd ar gyfer ffermio dwys (a allai fod yn niweidiol), a chanolbwyntio sylw ar ymestyn cwmpas cynlluniau amaeth-amgylcheddol i gwmpasu cymaint o dir amaethyddol â phosibl a mynd i'r afael â'r ystod lawn o anghenion amgylcheddol. Fodd bynnag, mae'r cymhellion economaidd i

Ffigur 11: Y pyramid o gynlluniau amaeth-amgylcheddol



ddwysáu amaethyddiaeth i'w cael o hyd a gallent arwain at ganlyniadau amgylcheddol andwyol os bydd prisiau am gynnyrch fferm yn codi'n sylweddol. Yng ngoleuni'r newidiadau hyn, ymgymerodd Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru ag adolygiad o gynllun Tir Gofal yn 2003, ac argymhellodd y dylid ehangu cwmpas cynlluniau amaeth-amgylcheddol trwy greu gwahanol haenau o gyfranogiad (Ffigur 11).

Mae'r cynllun yn cyd-fynd yn dda â pholisi amgylcheddol ag agenda datblygu cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad, er bod y rhain wedi datblygu ers i'r cynllun cael ei sefydlu

2.3 Mae gan Lywodraeth y Cynulliad ddyletswydd statudol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth gyflawni pob un o'i swyddogaethau. Mae'n ceisio hyrwyddo bioamrywiaeth a chyflogaeth leol, a sicrhau y dosberthir cyfoeth economaidd cymaint â phosibl mewn ffordd sy'n lleihau hyd yr eithaf ar y galwadau a osodir ar yr amgylchedd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod Tir Gofal yn cynorthwyo busnesau lleol sy'n cael effeithiau

amgylcheddol cadarnhaol, megis contractwyr sy'n codi waliau sych, ac yn diogelu ac yn gwella cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth.

2.4 Mae Tir Gofal yn gweithio ar y cyd â strategaethau a chynlluniau allweddol eraill Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys rhai a ddatblygwyd ers cyflwyno Tir Gofal:

a mae *Ffermio i'r Dyfodol* (2001) yn dadlau y dylai Llywodraeth y Cynulliad geisio sicrhau bod ffermio yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol. Felly mae i gynllun Tir Gofal le blaenllaw yng *Nghynllun Datblygu Gwledig Cymru*, *2000/2006* sy'n nodi'r rhaglenni a gynhelir gan y sector cyhoeddus i hyrwyddo datblygu gwledig.

b mae *Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru* (2004) yn ceisio lledaenu ffyniant yn fwy cyfartal ledled y wlad, ac yn ystyried bod cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn rhan o ymdrechion i ddiogelu ein hamgylchedd.

c mae'r *Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy (2004/2007)* yn ystyried bod Tir Gofal, ochr yn ochr â Chyswllt Ffermio a'r strategaeth bwyd-amaeth yn ganolog i'r gwaith o sicrhau llwyddiant cynllun Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer diwydiant ffermio cynaliadwy yng Nghymru.

ch mae *Strategaeth Amgylchedd Cymru* (2006) yn nodi cynllun gweithredu 20 mlynedd sy'n ymdrin â materion megis mynediad i gefn gwlad, darnio cynefinoedd, colli rhywogaethau a chyflwr safleoedd o bwys byd-eang, cenedlaethol a lleol, y cwmpesir pob un ohonynt gan gynllun Tir Gofal.

2.5 Mae'n amlwg bod Tir Gofal yn cyd-fynd â gwahanol strategaethau a pholisïau Llywodraeth y Cynulliad, am ei fod yn hyrwyddo bioamrywiaeth ac yn ariannu gweithgarwch sy'n gwella cynaliadwyedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

Mae'r cynllun wedi'i lunio'n dda ar y cyfan, ond mae angen gwneud rhai mân newidiadau i sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben

Bwriedir i'r cynllun fynd i'r afael â'r prif risgiau sy'n wynebu cefn gwlad Cymru

2.6 Lluniwyd Tir Gofal yn y cyfnod rhwng 1997 a 1999 gan weithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Swyddfa Gymreig, CCGC, yr Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Wledig, Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth, Cadw, y Parciau Cenedlaethol, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru, Cymdeithas y Tirfeddianwyr a'r RSPB. Adolygodd y gweithgor dystiolaeth ynghylch y prif risgiau amgylcheddol i gefn gwlad Cymru a gweithrediad cynlluniau amaeth-amgylcheddol a fodolai bryd hynny.

2.7 Mae Tir Gofal yn mynd i'r afael â'r prif risgiau a nodwyd gan y gweithgor a adlewyrchwyd ar ôl hynny yng Nghynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000/2006 (Ffigur 12). Yn unol â'r Cynllun Datblygu Gwledig, newidiwyd gofynion mynediad Tir Gofal yn 2001 i annog cyfranogiad gan ffermydd teuluol a ffermwyr iau, yn ogystal â hyrwyddo gwella'r amgylchedd.

Ffigur 12: Sut mae Tir Gofal yn mynd i'r afael â'r risgiau i Gefn Gwlad Cymru

Risg	Tir Gofal
Cynyddu maint ffermydd Mae'n tueddu i arwain at ffermydd tir uchel mwy o faint, datblygu ungnwd o ddefaid yn yr ucheldiroedd a phori dwysach	■ Mae'r system sgorio yn ffafrio ffermydd cymysg ac mae cyfarwyddiadau yn mynnu bod gwartheg a chnydio âr yn cael eu cyflwyno i ffermydd ■ Mae'r Adran Fferm Gyfan yn aml yn mynnu bod cyfraddau stocio yn cael eu lleihau
Lleihau'r nifer o wartheg Mae hyn yn achos pryder penodol am y gall gwartheg bori llystyfiant bras a chynorthwyo i reoli rhywogaethau sy'n achosi problemau megis rhedyn a chorswellt rhuddlas. Mae tail a sarn gwellt gwartheg yn darparu bwyd ar gyfer amrywiaeth o infertebrata sydd hefyd, er eu bod yn bwysig ynddynt eu hunain, yn ffynhonnell fwyd bwysig ar gyfer adar a mamaliaid tir ffermio, megis ystlumod. Mae prinder tail gwartheg yn ei gwneud yn fwyfwy anodd i ffermwyr gadw gweirgloddiau yn y ffordd draddodiadol (hy, heb wrteithiau artiffisial)	■ Opsiwn i gyflwyno gwartheg, gan gynnwys cymelldaliad arbennig
Gostyngiad yn yr arwynebedd tir a neilltuir i rawnfwydydd a haidd Mae gostyngiadau yng nghynhyrchiant grawnfwyd a sofl gaeaf mewn ardaloedd ucheldirol wedi effeithio'n benodol ar adar megis y llinos a melyn yr eithin, tra bod y gostyngiad mewn haidd gwanwyn yn peri problemau neilltuol i adar fel y cornicyll a'r ehedydd sy'n defnyddio pridd moel a chnydau ifanc at ddibenion nythu.	■ Opsiwn i hau haidd gaeaf ■ Opsiwn i hau grawnfwydydd gwanwyn ■ Opsiwn i sefydlu cnydau gorchuddio bywyd gwyllt ■ Opsiwn i sefydlu cnydau grawn, rêp a had llin heb eu chwistrellu
Defnydd helaethach o silwair yn hytrach na gwair Mae silwair yn fwy cynhyrchiol na gwair, ond mae'n golygu defnydd helaethach o wrteithiau a gostyngiad cysylltiedig ym mioamrywiaeth planhigion. Ar ben hynny, mae dyddiadau lladd gwair gryn dipyn yn gynharach ar gyfer silwair nag ar gyfer gwair, sydd wedi amharu ar adar a mamaliaid tir ffermio, megis yr ysgyfarnog frown.	■ Opsiynau i adfer neu greu gweirgloddiau ■ Mae'r Adran Fferm Gyfan yn rheoleiddio dyddiadau lladd gwair
Lleihad yn hyd ffiniau caeau traddodiadol Mae gwrychoedd yn arbennig yn darparu cynefin gwerthfawr ar gyfer bywyd gwyllt, ac mae ffiniau caeau traddodiadol o bob math yn nodwedd bwysig a deniadol ar y dirwedd. Credir bod llawer o ffiniau caeau yn dyddio o'r cyfnod canoloesol neu o gyfnodau cynharach, ac felly maent yn rhan bwysig o dreftadaeth hanesyddol Cymru.	■ Mae'n rhaid cadw ffiniau sy'n bodoli eisoes mewn cyflwr da ■ Opsiwn i adfer ffiniau caeau neu greu rhai newydd ■ Cyfyngiadau ar ffustio gwrychoedd i gynyddu hyd yr eithaf ar y gwerth i fywyd gwyllt
Colli gweundir a rhostir grug	■ Gofyniad i adfer cynefinoedd
Strwythur oedran anghytbwys y diwydiant ffermio Ym 1995, roedd 40 y cant o ffermwyr yn 60 mlwydd oed neu drosodd, sy'n effeithio ar hyfywedd hirdymor ffermio teuluol.	■ Mae'r system sgorio yn rhoi pwyntiau ychwanegol ar gyfer ffermwyr iau a ffermwyr teuluol, sy'n golygu ei bod yn fwy tebygol y byddant yn gymwys ar gyfer y cynllun. ■ Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod y cyfryw ffermwyr yn derbyn taliadau uwch, ond mae'n golygu nad oes angen iddynt wneud cymaint ag ymgeiswyr eraill i ymuno â'r cynllun.

Ffynhonnell: Gwerthusiad canol tymor o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000/2006 (2003)

2.8 Wrth lunio'r cynllun, cymerodd y gweithgor gyngor gan arbenigwyr priodol i sicrhau bod y cyfarwyddiadau yn briodol i'r anghenion a nodwyd. Rhoddodd Grŵp Gwyddorau Naturiol CCGC gyngor ar newidiadau y teimlai y byddent yn hyrwyddo cyflawni amcanion ecolegol / bioamrywiaeth. Roedd y cyngor hwn yn seiliedig ar adolygiad o ymchwil ddiweddar, arfer da a phrofiad o amodau rheoli Tir Cymen, cynllun ESA a'r Cynllun Cynefinoedd. Darparodd sefydliadau allanol gyngor hefyd. Cynhwysai'r rhain yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Helwriaeth, y Shared Earth Trust, yr RSPB, Cyngor Diogelu Cymru Wledig, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru a Chymdeithas y Cerddwyr.

2.9 Roedd gan y gweithgor ddiddordeb arbennig yn y profiadau a gafwyd o gynllun Tir Cymen, a oedd wedi'i gyflwyno ym 1992 mewn tair ardal beilot, sef Dinefwr, Abertawe a Meirionnydd. Dyma oedd y cynllun fferm gyfan a anelai at gyfuno arfer ffermio da â'r gwaith o ddiogelu tirweddau traddodiadol a chynefinoedd bywyd gwyllt a darparu mynediad cyhoeddus. Ystyrir yn gyffredinol mai'r cynllun hwn oedd rhagflaenydd Tir Gofal, ac fe'i caewyd i ymgeiswyr newydd ym mis Mawrth 1998. Cyflwynodd y Swyddfa Gymreig ddogfen 'gwersi a ddysgwyd' i'r Comisiwn Ewropeaidd fel rhan o'r broses o sicrhau cymeradwyaeth y Comisiwn ar gyfer Tir Gofal. Yn seiliedig ar adolygiadau polisi ac ymchwil[13], nododd y ddogfen yr agweddau hynny ar gynllun Tir Cymen a oedd wedi bod yn llwyddiannus a'r rhai yr oedd angen iddynt newid.

2.10 O ganlyniad i'r dadansoddiad hwn, penderfynodd y Swyddfa Gymreig y byddai Tir Gofal:

a ar gael i bob fferm â digon o werth amgylcheddol gwirioneddol neu bosibl – ni ddylid gwahardd unrhyw fath o fferm rhag ymuno â'r cynllun;

b bod yn gynllun fferm gyfan, am y byddai hynny yn darparu gwell rheolaeth amgylcheddol dros ardal ehangach na chynllun rhan o fferm;

c cynnwys gwella mynediad cyhoeddus i gefn gwlad fel amcan canolog;

ch defnyddio system fwy soffistigedig o ddosbarthu cynefinoedd i ddatblygu amodau, tra'n osgoi system fanwl a chymhleth iawn y byddai'n anymarferol ei defnyddio.

2.11 Yn 2001, cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad adolygiad mawr (a elwid yn adolygiad Cloriannu) o gynllun Tir Gofal mewn ymateb i gwynion ynghylch natur gymhleth y cynllun, yr amser hir a gymerwyd i brosesu ceisiadau, a chanfyddiad bod y cynllun yn ffafrio ffermydd bach iawn a ffermydd mawr iawn dros ffermydd teuluol o faint canolig. Nodau'r adolygiad Cloriannu oedd gwella'r broses ymgeisio, lleihau nifer y ffermydd a oedd yn gadael y cynllun a gwella gwerth am arian trwy ganiatáu i nifer fwy o ffermydd ymuno â'r cynllun ar gyfer cyllideb benodol. Argymhellodd yr adolygiad nifer o newidiadau yn y cynllun, gan gynnwys:

a Pwyntiau ychwanegol yn y system sgorio ar gyfer opsiynau ffermio cymysg a ffermio âr, a 10 pwynt ychwanegol pe bai'r ymgeisydd dan 40 oed. Nod y newidiadau hyn, a weithredwyd ym mis Ebrill 2002,

13 Astudiaeth economaidd-gymdeithasol o gynllun Tir Cymen, adolygiad polisi bob pum mlynedd a gynhaliwyd ym 1997 a'r *Evaluation of the access provisions of the Tir Cymen scheme* a gynhaliwyd ar ran CCGC ym 1997.

Ffigur 13: System sgorio ar gyfer ceisiadau Tir Gofal

Mae'r system yn dyfarnu pwyntiau mewn dwy ffordd:

- Nifer sefydlog o bwyntiau am fodolaeth nodweddion fferm penodol neu barodrwydd i ddilyn cyfarwyddyd penodol.
- Nifer amrywiol o bwyntiau yn seiliedig ar faint o gyfanswm arwynebedd y fferm sy'n cynnwys cynefinoedd penodol (neu gynefinoedd posibl, ar gyfer opsiynau adfer neu greu). Mae gan y cynefinoedd bwysoliad o 50, 100 neu 200 i adlewyrchu eu gwerth amgylcheddol cymharol. Er enghraifft, os yw 20 y cant o gyfanswm arwynebedd y fferm yn cynnwys gweirglodd gyfoethog ei rhywogaethau, y sgôr fyddai 20 y cant x 200 = 40 pwynt. Nid oes unrhyw uchafswm sgôr, am fod gan bob fferm wahanol arwynebeddau yn cynnwys gwahanol gynefinoedd a photensial gwahanol ar gyfer rheoli cynefinoedd.

Dyfernir pwyntiau am:

- Ffermio'n organig neu os yw'r ffermwr yn y broses o newid i ffermio organig.
- Tir cytundeb gan gynnwys SoDdGA (cyflwynwyd yn 2006).
- Os yw'r ymgeisydd neu unrhyw un o'r partneriaid busnes rhwng 18-40 oed (cyflwynwyd yn 2001).
- Amrywiaeth y da byw ar y fferm a'r cnydau a dyfir.
- Maint cyfartalog y caeau (mwy o bwyntiau am faint llai).
- Henebion Cofrestredig.
- Adeiladau fferm traddodiadol.
- Adeiladau archeolegol heb eu dynodi.
- Creigiau / brigiadau creigiau.
- Nodweddion dŵr (hy, afonydd / nentydd / pyllau / llynnoedd).
- Cynefinoedd bywyd gwyllt 'blaenoriaeth', sy'n cael eu pwysoli yn ôl eu pwysigrwydd amgylcheddol tebygol. Mae'r rhain yn cynnwys glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau, gweundir agored, gwlyptir, coetir, prysgwydd, gweirgloddiau cyfoethog eu rhywogaethau, twyni tywod a morfeydd heli.

Dyfernir pwyntiau hefyd os yw'r ffermwr yn barod i:

- adfer cynefinoedd bywyd gwyllt a fodolai ynghynt, neu greu rhai newydd ar dir amaethyddol wedi'i wella (defnyddir system sgorio wedi'u phwysoli gan ddibynnu ar werth y cynefin newydd);
- newid y dull cyfredol o reoli tir âr;
- adfer nodweddion amgylcheddol eraill; a/neu
- darparu mynediad cyhoeddus newydd.

Mae'r meini prawf hyn wedi aros yn ddigyfnewid fwy neu lai ers i'r cynllun ddechrau ym 1999 er i rai gael eu cyflwyno yn fwy diweddar, fel y nodwyd uchod. Caiff y pwyntiau eu hadio at ei gilydd ac mae fferm sy'n sgorio 100 pwynt neu fwy yn gymwys i ymuno â'r cynllun.

Ffynhonnell: Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Cefn Gwlad Cymru

oedd gwobrwyo ffermio cymysg sy'n fuddiol i'r amgylchedd, cynorthwyo ffermydd teuluol o faint canolig a gwrthbwyso effaith y newidiadau, a allai fod yn niweidiol, ar ffermwyr ifanc a oedd yn datblygu eu busnesau.

b Lleihau o fis Ebrill 2002 gost cynlluniau unigol trwy gyflwyno terfynau isaf ar gyfer gwerth gwaith cyfalaf, terfynau ar nifer y gatiau pren a phyllau ar bob fferm, a chyfyngu gwaith ar ffiniau caeau i ail flwyddyn a blynyddoedd dilynol cytundebau.

c Symleiddio'r cynllun trwy leihau nifer y cyfarwyddiadau o 186 i 159 ym mis Ebrill 2002.

ch Byrhau a symleiddio'r cytundeb rheoli, o fis Ionawr 2004.

d Gwneud cyfres o newidiadau i'r modd y gweinyddir y cynllun i sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau ac y datblygir cytundebau newydd yn gyflymach ac yn fwy effeithlon.

Mae'r system ymgeisio a sgorio yn gyfaddawd pragmatig rhwng pwysau sy'n gwrthdaro

2.12 Roedd y Swyddfa Gymreig yn disgwyl i'r cynllun fod yn boblogaidd iawn a gofynnodd i'r gweithgor ddatblygu system sgorio a fyddai'n galluogi dewis y ceisiadau hynny a gynigiai'r gwerth amgylcheddol gorau am arian (Ffigur 13). Rheolodd CCGC faint y gwaith trwy fynnu bod ffermwyr yn gwneud ceisiadau o fewn cyfnod penodol, a elwid yn ffenestr, fel y gellid ystyried pob cais o'r ffenestr honno cyn i'r ffenestr nesaf agor.

2.13 Yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun, gofynnwyd i Gyngor Cefn Gwlad Cymru weithredu system gwota i gyfyngu ar nifer y tirddeiliaid a fyddai'n ymuno â'r cynllun. Sgoriwyd pob cais gan swyddog prosiect heb ymweld â'r fferm, yn seiliedig ar wybodaeth mewn ffurflen gais fanwl, a derbyniwyd y 600 fferm a sgoriodd uchaf. Arweiniodd y dull gweithredu hwn at geisiadau â sgôr o dan 129 yn cael eu gwrthod. Wedyn ymwelodd swyddogion prosiect â'r ffermydd cymwys a'u mapio yn nhrefn eu sgôr (ymwelwyd â'r rhai a sgoriodd uchaf yn gyntaf), cadarnhau bod y sgorau yn gywir, a drafftio cytundeb i'r ffermwr ei lofnodi.

2.14 Arweiniodd y dull gweithredu hwn at nifer o broblemau. Canfu CCGC fod rhywfaint o'r wybodaeth a nodwyd ar ffurflenni cais yn anghywir, gan greu'r angen i swyddogion prosiect ail-sgorio ceisiadau. Hefyd, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y sgôr uchaf posibl, gwnaeth llawer o ymgeiswyr posibl gais am nifer fawr o gategorïau dewisol. Arweiniodd hynny at rai cytundebau unigol drud a dueddai i fod yn dra chymhleth a chreu risg y câi opsiynau croes i'w gilydd eu sefydlu ar ddarnau bach o dir. Roedd tystiolaeth anecdotaidd hefyd bod tirddeiliaid nad oeddent wedi llwyddo yn y flwyddyn gyntaf yn cael eu hatal rhag gwneud cais mewn blynyddoedd dilynol.

2.15 Yng ngoleuni'r pryderon hyn, ac yn dilyn yr adolygiad Cloriannu, gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad, ar gyngor CCGC, rai newidiadau i'r cynllun (Ffigur 14). Mae ceisiadau bellach yn cael eu sgorio gan swyddogion prosiect yn seiliedig ar gofrestriadau o ddiddordeb a dderbynnir yn ystod ffenestr geisiadau. Nid oes unrhyw gwota a derbynnir pob cais sy'n sgorio 100 neu fwy i'r cynllun ar sail y cyntaf i'r felin (o 2006, caiff ceisiadau gan ffermydd â SoDdGA eu prosesu cyn ceisiadau eraill). Mae hyn wedi creu rhestr aros ac, oherwydd y nifer fawr o geisiadau a dderbyniwyd yn ystod ffenestr geisiadau 2003, nid agorwyd y ffenestr geisiadau nesaf tan fis Hydref 2006 tra bu CCGC yn prosesu'r ceisiadau ar restr aros 2003. Felly bwriadai Llywodraeth y

Ffigur 14: Proses ymgeisio Tir Gofal



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Cynulliad ailgyflwyno system gwota yn 2006 gydag uchafswm o 750 o geisiadau yn cael eu hystyried, a fyddai'n cynnwys pob fferm â Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a detholiad ar hap o weddill y ceisiadau. Fodd bynnag, ym mis Awst 2007 penderfynodd y Gweinidog brosesu pob un o'r 1,410 o geisiadau a dderbyniwyd yn 2006 dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2010, gan ddisgwyl y byddai lleiafrif o'r ymgeiswyr hyn yn tynnu'n ôl cyn llofnodi cytundebau.

2.16 Bu rhestrau aros hir yn amhoblogaidd gyda llawer o bobl yn y diwydiant ffermio. Ar ben hynny, nid yw'r dull gweithredu yn seiliedig ar y cyntaf i'r felin yn blaenoriaethu ceisiadau, ac oherwydd hynny nid oes unrhyw sicrwydd y caiff ceisiadau a allai fod â'r gwerth amgylcheddol uchaf eu derbyn i'r cynllun cyn ceisiadau sy'n darparu llai o fanteision amgylcheddol. Fodd bynnag, er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, roedd i'r dull gweithredu yn seiliedig ar restrau aros y manteision canlynol:

- **a** Mae'n sgorio ceisiadau yn fwy manwl gywir a chyson. Roedd llawer o ymgeiswyr yn y cylch cyntaf wedi darparu gwybodaeth annigonol am nodweddion ar eu fferm ac oherwydd hynny rhoddwyd sgôr rhy isel iddynt a gwrthodwyd eu cais i ymuno â'r cynllun.
- **b** Gellir cynnig cytundeb i ymgeiswyr cymwys yn ystod y cylch pan dderbynnir ceisiadau, gan leihau'r risg y câi ymgeiswyr â daliadau amgylcheddol werthfawr eu hatal rhag ymuno â'r cynllun ac na fyddent yn ymgeisio eto.
- **c** Trwy'r system sgorio mae'r cynllun yn parhau i dargedu ffermydd sydd fwyaf tebygol o fynd i'r afael â'r risgiau amgylcheddol yr ystyrir eu bod yn flaenoriaeth yng Nghymru, heb yr ymdrech weinyddol sydd ei hangen i flaenoriaethu pob cais yn fanwl gywir, a fyddai'n golygu ymweld â phob fferm a'i mapio cyn y gellid llofnodi unrhyw gytundebau.

2.17 Ar ddiwedd y cylch ymgeisio cyntaf cymharodd CCGC gyfansoddiad y sgorau ar gyfer ffermydd 'a wrthodwyd' â'r sgorau ar gyfer ffermydd 'a dderbyniwyd'. Canfu'r dadansoddiad hwn fod ychydig o nodweddion yn cael dylanwad aruthrol ar y sgorau terfynol, ac mai'r sgorau a briodolwyd i dir heb ei wella/wedi'i led-wella a benderfynodd i raddau helaeth p'un a gâi fferm ei dewis ai peidio. Ond nid yw'r system sgorio yn cofnodi a oes angen i ffermwr newid y ffordd y mae'n rheoli'r tir hwn er mwyn bodloni amodau ei gytundeb. Felly, gall ffermwr fod yn gymwys i dderbyn taliadau Tir Gofal yn hyn o beth heb orfod newid ei arferion rheoli.

2.18 Ni chaiff sgorau cytundebau eu coladu fel rhan o'r drefn ac nis cedwir yn ganolog ar gronfa ddata Tir Gofal, ac nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn olrhain sgorau cytundebau cyfartalog dros amser. Felly ni all Llywodraeth y Cynulliad nodi a yw'r lefel ddisgwyliedig o fantais amgylcheddol yn aros fwy neu lai yr un peth dros amser, nac asesu tueddiadau o ran cost cytundebau ac a yw'r risg y ceir cytundebau drud a rhy gymhleth yn cael ei hosgoi. Ar ben hynny ni all Llywodraeth y Cynulliad nodi cyfran y ffermydd sy'n cyrraedd y trothwy o 100 pwynt heb orfod ymgymryd â chategorïau adfer/sefydlu dewisol. Byddai'r gallu i wneud hyn yn rhoi asesiad mwy manwl gywir o effaith y cynllun i Lywodraeth y Cynulliad – am mai'r cyfarwyddiadau dewisol sy'n darparu'r nifer fwyaf o gyfleoedd i newid y modd y rheolir y darn o'r dirwedd sy'n cael ei ffermio yn fwyaf dwys.

Mae'r diwygiadau diweddar i'r CAP yn debygol o ddylanwadu ar effaith amgylcheddol amaethyddiaeth, ond ni fydd angen newid cynllun Tir Gofal ryw lawer i fynd i'r afael â'r risgiau hyn

2.19 Mae'r diwygiadau i'r CAP wedi torri'r cysylltiad uniongyrchol rhwng cymorthdaliadau a chynhyrchiant ('datgysylltu') a chyflwyno gofynion trawsgydymffurfio fel un o amodau'r Taliad Fferm Sengl (a ddisodlodd gymorthdaliadau cynhyrchu). Cyflwynwyd y gofynion hyn fesul cam rhwng mis Ionawr 2005 a mis Ionawr 2007, ac mae angen i gynllun Tir Gofal ddatblygu i sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu lefel ychwanegol o ddiogelwch. Mae CCGC a Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y gellid cyflawni'r amcanion hyn trwy ddiwygio, fel y bo'n briodol, ofynion yr Adran Fferm Gyfan (Ffigur 1). Yn 2005, adolygodd Llywodraeth y Cynulliad gyfraddau taliadau fel na fyddai modd i'r un gweithgaredd gael ei ariannu ddwywaith gan gynllun Tir Gofal a chynllun y Taliad Fferm Sengl.

2.20 Comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad ADAS i lunio dadansoddiad o effaith debygol torri'r cysylltiad rhwng cymorthdaliadau a chynhyrchiant ar arferion ffermio yng Nghymru. Ystyriodd ei adroddiad y byddai gwahanol sectorau yn ymateb yn wahanol i ddatgysylltu, ond y byddai pob sector yn dioddef o:

- **a** colli gwartheg;
- **b** gadael i dir a arferai fod yn dir amaethyddol fynd yn segur a'i ddefnyddio at ddibenion nad ydynt yn ymwneud ag amaethyddiaeth neu ei ffermio fel hobi;
- **c** datblygu daliadau mawr gyda defaid yn unig.

2.21 Mae'r risgiau hyn yn adlewyrchu'r rhai y mae Tir Gofal wedi'i lunio, ar y cyfan, i fynd i'r afael â hwy. Er enghraifft, mae'r cynllun yn darparu taliadau i droi tir sy'n cael ei bori'n ddwys (gan ddefaid yn aml) yn dir âr neu'n fathau eraill o gynefin, a chymelldaliadau ychwanegol ar gyfer pori gwartheg ar gynefinoedd[14]. Adolygwyd y cynllun yn ddiweddar i gynnwys isafswm cyfraddau stocio ar laswelltiroedd lled-naturiol, tra mai dim ond uchafswm cyfraddau yr oedd yn eu cynnwys cyn hynny.

2.22 Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn nifer y gwartheg sy'n pori ar ardaloedd ucheldirol yn broblem y bu'n anodd mynd i'r afael â hi. Mae pori gan wartheg yn helpu i gynnal bioamrywiaeth ac atal rhywogaethau tra ymledol megis glaswellt y bwla rhag ymledu. Fodd bynnag, mae tirddeiliaid yn aml yn amharod i gyflwyno gwartheg ar dir pori ucheldirol a leolir ymhell weithiau o ffermydd a lle y gall yr amgylchiadau ar gyfer gwartheg fod yn anffafriol. Dywedodd rheolwyr Tir Gofal a swyddogion prosiect wrthym fod y cymhelliad ariannol cyfredol – premiwm o 10 y cant dros y gost amcangyfrifedig – yn annigonol i annog digon o ffermwyr i gyflwyno gwartheg i ardaloedd lle'r oedd eu hangen. Mae dileu premiwm ychwanegol o 10 y cant ar gyfer gwartheg Duon Cymreig fel rhan o adolygiad diweddar o gyfraddau taliadau wedi lleihau'r cymhelliad sydd ar gael ymhellach.

2.23 Mae swyddogion Tir Gofal wedi awgrymu y byddai taliadau uwch yn annog ffermwyr i ffurfio cwmnïau cydweithredol i rannu'r baich o reoli'r gwartheg. Fodd bynnag, mae rheolau'r Undeb Ewropeaidd yn cyfyngu unrhyw daliad am weithgaredd i'r gost neu'r incwm tebygol a ildiwyd ynghyd ag uchafswm premiwm o 20 y cant i gwrdd â chostau'r trafodiad. Mae rhai mesurau cymorth gwladwriaethol eraill – er enghraifft hyrwyddo

14 Fel rhan o Daliad Pori Gwartheg a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2003, derbyniai deiliaid cytundebau 10 y cant ar ben y taliadau cynefinoedd perthnasol os oeddent yn pori gwartheg ar y cynefinoedd hyn. Derbyniai deiliaid cytundebau 20 y cant ar ben y taliadau os oeddent yn pori gwartheg Duon Cymreig ar y cynefinoedd, ond dileir y cymhelliad ychwanegol hwn yn 2007 yn dilyn adolygiad o gyfraddau taliadau (paragraff 2.27)

pori merlod mewn Parciau Cenedlaethol – hefyd yn cynnwys costau sefydlog (megis teithio i archwilio buchesau) rheoli da byw ar safleoedd sydd yn aml yn anhygyrch ac yn anodd. Mae'r costau hyn yn aml yn gymharol uchel, ac yn galluogi'r Parciau Cenedlaethol i dalu cyfraddau uwch heb dorri rheolau'r UE. Mewn cyferbyniad, mae'r premiwm pori gwartheg ar gyfer Tir Gofal yn seiliedig i raddau helaeth ar leihau incwm sy'n deillio o reoli gwartheg yn unol â chyfarwyddiadau Tir Gofal. Os yw Llywodraeth y Cynulliad am wella'r cymhelliad sydd ar gael ar gyfer pori gwartheg, dylai nodi costau nodweddiadol stocio gwartheg mewn lleoliadau anodd a sicrhau yr adlewyrchir y costau hyn yn llawn mewn cyfraddau premiwm.

Mae cyfraddau taliadau yn ddigonol i gynnal y galw am y cynllun, ac maent wedi gostwng mewn termau real

2.24 Yn unol â rheolau'r Comisiwn Ewropeaidd a Sefydliad Masnach y Byd, mae cyfraddau taliadau Tir Gofal yn seiliedig ar asesiad o incwm a ildiwyd ynghyd â chostau yr aed iddynt gan ddeiliad y cytundeb o ganlyniad i ddilyn cyfarwyddyd penodol (er enghraifft, lleihau dwysedd y stoc) neu wneud gwaith cyfalaf. Mae'r cyfraddau taliadau hyn yn rhai safonol ac fe'u defnyddir ar gyfer pob cytundeb, ni waeth beth fo'r gost neu'r incwm a ildiwyd ar unrhyw fferm benodol. Felly gall tirddeiliad nad oes angen iddo newid arferion rheoli yn sylweddol ennill cryn dipyn o arian o gynllun Tir Gofal. Fodd bynnag, fel arfer pennir y taliadau cyfalaf ar lai na'r gost amcangyfrifedig, i adlewyrchu'r ffaith bod y cyfryw waith yn aml yn cynyddu gwerth cyfalaf fferm ac y bydd y tirddeiliad, yn ogystal â'r amgylchedd, yn elwa o'r buddsoddiad. Mae cyfraddau taliadau wedi aros yn ddigyfnewid ers sefydlu'r cynllun, ond disgwylir i gyfraddau newydd ddod i rym yn ystod 2007.

2.25 Nid yw gwerthusiadau o'r cynllun wedi rhoi sylw i'r cwestiwn a bennir cyfraddau taliadau ar y lefel gywir i sicrhau gwerth am arian, neu a ydynt yn cael eu pennu ar y lefel isaf sydd ei hangen i ddenu digon o'r ffermwyr cywir i mewn i'r cynllun. Edrychodd y gwerthusiad economaidd-gymdeithasol (2005) ar effaith Tir Gofal ar incymau ffermydd rhwng 1998 (cyn i'r cynllun ddechrau) ac yn 2003. Yn seiliedig ar arolwg, canfu:

a Bod y cynllun wedi cael cryn effaith ar incwm ffermydd, a bod 65 y cant o ddeiliaid cytundebau o'r farn bod taliadau o dan y cynllun yn 'hanfodol' neu'n 'bwysig iawn' i refeniw ffermydd.

b Bod Tir Gofal wedi arwain at gynnydd net mewn gwariant ar ffermydd a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun o ddim ond 0.3 y cant.

c Bod pedwar deg dau y cant o'r gofyniad am lafur ychwanegol yn deillio o'r cynllun wedi cael ei ddarparu gan y ffermwr neu ei deulu, a bod ffermwyr wedi cadw rhan fawr o'r taliadau cyfalaf iddynt eu hunain fel taliad am eu llafur eu hunain yn hytrach na'u trosglwyddo i gontractwyr.

ch Yn gyffredinol, fod 56 y cant o'r ffermwyr wedi canfod nad oedd eu hincwm wedi newid fawr ddim ers ymuno â'r cynllun, tra nododd 35 y cant ei fod wedi cynyddu, cynnydd bach gan mwyaf. O'r 35 y cant hwn, dim ond 22 y cant a grybwyllodd Tir Gofal fel y prif reswm dros y cynnydd, a nododd dau draean fod y cynllun yn ffactor cyfrannol.

Dengys y dystiolaeth hon fod Tir Gofal wedi cael effaith fuddiol ar gyfranogwyr ond nad yw wedi arwain at gynnydd yn incwm y fferm ar gyfer y mwyafrif o'r deiliaid cytundebau. Ni ellir mesur union effaith y cynllun am ei

bod yn anodd dadgyfuno effaith Tir Gofal o ffactorau eraill, ac am nad oedd unrhyw wybodaeth fesuradwy am gyfraniad Tir Gofal at elw ffermydd na'r effaith net o gymharu â'r cyfnod cyn i ffermydd ymuno â'r cynllun. Mae hefyd yn anodd mesur effaith y cynllun ar werth cyfalaf fferm, am y bydd rhai cyfarwyddiadau (y rhan fwyaf o waith cyfalaf, yn arbennig gwella ffiniau caeau) yn ychwanegu at y gwerth, tra gall eraill (megis lleihau dwysedd y stoc i lefelau isel iawn neu roi'r gorau i ddraenio tir corslyd) leihau gwerth y fferm trwy leihau'r potensial ar gyfer cynhyrchu.

2.26 Holwyd grwpiau ffocws o ddeiliaid cytundebau am eu rhesymau dros ymuno â chynllun Tir Gofal a'i effaith ariannol. Roedd cytundeb cyffredinol bod y cynllun yn fanteisiol yn ariannol, yn arbennig trwy gynorthwyo gwelliannau i asedau fferm, a nododd y mwyafrif o'r cyfranogwyr mai dyma oedd eu prif reswm dros ymuno. Roedd lleiafrif bach wedi ymuno â'r cynllun yn bennaf am resymau amgylcheddol, ond roedd y cyfle i ffermio mewn ffordd draddodiadol a oedd yn fuddiol i'r amgylchedd yn ddeniadol i'r mwyafrif o'r cyfranogwyr. Roedd y sicrwydd a ddarperid gan daliadau Tir Gofal yng nghyd-destun amgylchiadau cyfnewidiol y farchnad hefyd yn nodwedd ddeniadol.

2.27 Mae'n amlwg bod cyfraddau taliadau yn ddigon uchel i ddenu digon o geisiadau ar gyfer y pedair ffenestr geisiadau gyntaf, y cafwyd yr olaf ohonynt yn 2003 – pan dderbyniwyd 1,915 o geisiadau, a gymerodd dair blynedd i'w prosesu. Yn 2005, cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad adolygiad o gyfraddau taliadau i adlewyrchu'r diwygiadau i'r CAP a oedd wedi torri'r cysylltiad rhwng cynhyrchiant a chymorthdaliadau fferm. Roedd y diwygiadau wedi effeithio ar y meintiau elw gros a oedd wedi cael eu defnyddio i gyfrif cyfraddau taliadau Tir Gofal ar gyfer cyfarwyddiadau rheoli a dueddai i leihau cynhyrchiant, ac roeddent wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y cyfraddau taliadau ar gyfer y cyfryw gyfarwyddiadau. Arweiniodd hynny at lawer o feirniadaeth gan y gymuned ffermio, a fu'n cwyno ei bod yn afresymol lleihau cyfraddau yng nghyd-destun costau cynyddol ar gyfer llafur a deunyddiau amaethyddol. Buont yn dadlau hefyd bod cyfraddau taliadau wedi aros yn ddigyfnewid tan 2005 tra bod cost llawer o eitemau, yn arbennig ffensys a waliau, wedi codi gryn dipyn yn uwch na chwyddiant.

2.28 Cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad adolygiad pellach ac erbyn hyn mae wedi cyhoeddi cyfraddau eraill, a fydd yn dod i rym yn ystod 2007. Gostyngwyd llawer o'r taliadau rheoli serch hynny, i gydymffurfio â rheolau Ewropeaidd sy'n eu cyfyngu i incwm a ildiwyd ynghyd â phremiwm o 20 y cant ar gyfer costau trafodion, tra bod llawer o daliadau cyfalaf wedi'u cynyddu gryn dipyn. Cred swyddogion nad yw'r effaith ariannol net wedi newid fawr ddim, er y bydd rhai ar eu hennill a rhai ar eu colled. Yn gyffredinol mae'r cyfraddau newydd wedi'u derbyn gan y diwydiant ffermio ac nid oes fawr ddim risg y byddant yn annigonol i ddenu digon o ffermwyr i ymuno â'r cynllun; esgorodd ffenestr geisiadau 2006 ar 1,410 o geisiadau dilys, 88 y cant yn fwy na'r cwota a bennwyd gan Lywodraeth y Cynulliad.

2.29 Lleisiodd rheolwyr a swyddogion prosiect Tir Gofal bryderon ynghylch maint y taliadau a wnaed ar gyfer y cytundebau hynny a ddaeth â darnau mawr o ardaloedd ucheldirol i mewn i'r cynllun. Teimlid bod y cytundebau hyn yn derbyn cyfran anghymesur o'r arian a oedd ar gael, tra na fyddent bob amser yn sicrhau manteision amgylcheddol sylweddol. Awgrymodd staff ddwy ffordd y gellid mynd i'r afael â hyn:

a dylid creu rhagor o haenau ar gyfer taliadau ucheldir – dylai'r taliad fesul hectar ostwng yn fwy sydyn po fwyaf yr arwynebedd cyffredinol y deuir ag ef i mewn i'r cynllun; a

b dylai cyfarwyddiadau sy'n cwmpasu ardaloedd ucheldirol fod yn fwy llym – dylai'r cynllun fynnu mwy o waith amgylcheddol yn gyfnewid am y taliadau hyn.

Mae gan swyddogion a rhanddeiliaid Tir Gofal rai amheuon ynghylch hyblygrwydd y cynllun a'r modd y'i targedir

Mae Tir Gofal yn gynllun rhagnodol iawn a dim ond defnydd cyfyngedig a wneir o'r systemau a allai wneud y cynllun yn fwy hyblyg

2.30 Mae Tir Gofal yn dibynnu'n bennaf ar set o gyfarwyddiadau gorfodol ar gyfer rhai cynefinoedd a geir ledled Cymru. Fel rheol nid yw'r cynllun yn caniatáu i ffermwyr wyro oddi wrth y cyfarwyddiadau hyn i adlewyrchu amgylchiadau lleol nac unigol.

2.31 Gofynnwyd i'r deiliaid cytundebau a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws am eu barn am hyblygrwydd y cynllun a pha mor ymatebol ydoedd i amgylchiadau ar eu ffermydd eu hunain. Roedd y mwyafrif yn fodlon ar yr opsiynau a oedd ar gael iddynt ac â dyluniad cyffredinol y cynllun, ond mynegodd rhai amheuon ynghylch addasrwydd rhai amodau ar gyfer eu ffermydd. Yn arbennig, roeddent o'r farn bod y cyfraddau stocio a oedd wedi'u rhagnodi ar gyfer glaswelltir bras yn rhy isel gyda'r canlyniad bod tiroedd pori yn cael eu rheoli yn wael a'u bod wedi'u gorchuddio â rhedyn, grug neu laswellt y bwla, a'u bod yn niweidio bioamrywiaeth ac yn lleihau ansawdd yr amgylchedd mewn gwirionedd. Roeddent am gael yr hyblygrwydd i amrywio cyfraddau stocio o fewn eu ffermydd fel y gallent reoli'r cyfryw broblemau yn fwy effeithiol, er enghraifft y dechneg stoc yn tyrru (pori rhai darnau o dir yn ddwys am gyfnod byr) a bwydo atodol. Fodd bynnag, y teimlad cyffredinol oedd bod cyfraddau stocio mewn ardaloedd ucheldirol yn rhy isel.

2.32 Ar ben hynny roedd rhai cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws am blannu conifferau yn hytrach na choed brodorol ar dir uwch, i ddraenio neu galchu glaswelltiroedd, a gohirio gwaith cyfalaf o'r naill flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, byddai cyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran y cyfryw faterion yn ei gwneud yn anodd i gyflawni amcanion amgylcheddol y cynllun neu reoli gwariant o fewn cyllidebau blynyddol.

2.33 Mae gan y cynllun ddwy brif system sy'n galluogi rhywfaint o hyblygrwydd:

a Caniateir i swyddogion prosiect roi rhanddirymiadau (caniatâd i amrywio'r amod safonol) ar gyfer cytundebau unigol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bob rhanddirymiad o'r fath gael ei gymeradwyo gan dîm rheoli Tir Gofal (tri uwch swyddog a rheolwr y cynllun), ac ymgynghorir â chynghorwyr polisi mewn unrhyw achos sy'n gosod cynsail. Bwriedir i'r ymagwedd dîm hon sicrhau cysondeb drwy'r cynllun cyfan. Mewn rhai achosion, mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi rhanddirymiadau sy'n cwmpasu'r cynllun cyfan, er enghraifft trwy ddod â dyddiadau lladd gwair ymlaen mewn blwyddyn arbennig o sych.

b Gall swyddogion prosiect, gyda chaniatâd rheolwr y cynllun, hefyd ddatblygu 'prosiectau arbennig' i ddarparu manteision amgylcheddol ychwanegol, wedi'u teilwra i

amgylchiadau ffermydd unigol. Roedd cyfanswm o £168,802 wedi'i dalu am 195 o brosiectau arbennig ar 31 Mawrth 2007.

2.34 Awgrymodd trafodaethau gyda rheolwyr a swyddogion prosiect Tir Gofal fod rhai cyfyngiadau ar y graddau y gallent ddefnyddio rhanddirymiadau a 'phrosiectau arbennig' yn gyfiawnadwy:

a Nid oes gan swyddogion Tir Gofal ddealltwriaeth gyffredin o'r broses randdirymu, ac roedd canfyddiadau gwahanol o'r cwmpas ar gyfer rhanddirymiadau. Darparodd CCGC ganllawiau pellach ar gyfer swyddogion ar ôl hynny.

b Mae'n rhaid i bob rhanddirymiad gael ei gymeradwyo gan dîm rheoli Tir Gofal. Yn Lloegr, roedd gan swyddogion o'r Cynllun Stiwardiaeth Cefn Gwlad yr awdurdod i newid amodau mewn cytundebau rheoli os nad oedd y newid yn effeithio ar lefel yr incwm a ildiwyd gan y deiliad cytundeb (gan newid taliadau). Gallai dull gweithredu tebyg yng Nghymru wella hyblygrwydd a lleihau'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni pob rhanddirymiad. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad yn amharod i ddilyn model Lloegr am ei bod yn credu y byddai unrhyw anghysondeb o ran y modd y defnyddir y rheolau yn tanseilio hygrededd a chyfanrwydd y cynllun.

c Mae rhoi rhanddirymiadau a datblygu prosiectau arbennig yn cymryd cryn amser ac yn dargyfeirio adnoddau gweinyddol o'r gwaith o ddatblygu cytundebau newydd a gwaith monitro a chydymffurfio cyffredinol. Mae gan swyddogion dargedau ar gyfer cytundebau newydd ac maent yn debygol o leihau hyd yr eithaf ar yr amser a dreulir yn negodi rhanddirymiadau neu brosiectau arbennig, oni newidir eu baich gwaith a'u targedau i ddarparu ar eu cyfer.

Mae'r system sgorio yn atal Llywodraeth y Cynulliad rhag targedu blaenoriaethau lleol

2.35 Mae Tir Gofal yn defnyddio'r un meini prawf ar gyfer pob ymgeisydd, ble bynnag y'i lleolir yng Nghymru; ac mae pob fferm sy'n cyrraedd y sgôr drothwy o 100 pwynt yn gymwys i ymuno â'r cynllun. Bu rhywfaint o drafod ymhlith academyddion a grwpiau gwirfoddol ynghylch a ellid targedau'r cynllun yn fwy effeithiol ar flaenoriaethau amgylcheddol penodol, a allai amrywio o le i le. Mae'r Cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol yn Lloegr yn darparu enghraifft o sut y gallai hyn weithio. Mae DEFRA wedi rhannu'r wlad yn 150 o 'ardaloedd cydgymeriad'[15] ac mae wedi nodi blaenoriaethau amgylcheddol ar gyfer pob un ohonynt. Mae'r system sgorio ymhob ardal yn adlewyrchu'r blaenoriaethau lleol hyn a'r amodau lleol, gan alluogi'r cynllun lefel uwch i bwysleisio cyfarwyddiadau a fydd fwyaf gwerthfawr mewn ardal benodol. Yng Nghymru, cyflwynwyd rhywfaint o waith targedu i gynllun Tir Gofal trwy 'becynnau rhywogaethau' a thrwy ddyfarnu pwyntiau ychwanegol i ymgeiswyr sydd ag SoDdGA ar eu tir.

2.36 Mae pecynnau rhywogaethau yn gyfuniadau o gyfarwyddiadau sydd, gyda'i gilydd, yn darparu amgylchiadau ffafriol ar gyfer rhywogaethau sy'n dirywio. Mae'r RSPB yn dadlau oni chyflwynir rhai amodau fel pecyn, na chrëir yr amgylchiadau sydd eu hangen er mwyn i rywogaethau dan fygythiad ffynnu (Ffigur 15). Mae'r RSPB wedi awgrymu y dylid targedu pecynnau rhywogaethau ar ardaloedd lle y gwyddys fod rhywogaethau sy'n agored i niwed, megis y cornicyll, yn bridio.

15 Mae gan bob ardal gydgymeriad nodweddion tirwedd a nodweddion amgylcheddol tebyg y gellir eu rheoli yn fwyaf effeithiol gan systemau cyffredin o gyfarwyddiadau a chymhellion

Ffigur 15: Pecynnau rhywogaethau

Mae'r RSPB o'r farn bod nifer o broblemau yn gysylltiedig â'r modd y mae Tir Gofal yn gweithredu ar hyn o bryd:

- Nid oes digon o ffermwyr yn cymryd yr opsiynau sydd fwyaf buddiol i adar tir ffermio.
- Nid yw'r patrwm o ran cymryd opsiynau sydd fwyaf buddiol i adar yn adlewyrchu dosbarthiad y poblogaethau perthnasol o adar, felly ni chyflenwir yr adnoddau a ddarperir gan yr opsiynau hyn o reidrwydd yn yr ardaloedd cywir.
- Mae angen y cyfuniad cywir o amodau i greu'r cynefin cywir ar gyfer y rhywogaethau perthnasol, ond nid yw'r system bresennol o gyfarwyddiadau dewisol bob amser yn darparu'r cyfuniad hwn. Er enghraifft, yn y gwanwyn mae angen glaswellt byr ar gornicyllod (5-12 centimetr) a rhai tuswau; ar ddiwedd Mehefin mae angen mannau gwlyb ar y cywion, sy'n cynnwys yn ddelfrydol ddarnau bach o ddŵr wyneb a lefelau uchel o infertebrata. Ac, er mwyn atal nythod rhag cael eu dinistrio, dylid osgoi llyfnu neu rowlio grawnfwydydd a heuwyd yn y gwanwyn (sydd eu hangen fel safleoedd bridio) rhwng canol mis Mawrth a diwedd mis Mehefin.

Nid oes angen i ymgeiswyr ddewis cyfuniad o amodau sy'n cyflawni pob un o'r nodweddion cynefin hyn, sy'n golygu y gall elfennau allweddol o'r cynefin sydd ei angen fod ar goll ar adegau hollbwysig o'r flwyddyn. Nododd yr RSPB gyfres o 'ardaloedd allweddol' lle y mae poblogaethau adar sy'n lleihau i'w cael o hyd mewn niferoedd mawr. Maent yn dadlau y dylai fod yn rhaid i ddeiliaid cytundeb yn yr ardaloedd hynny fabwysiadu cyfuniad o amodau neu "becynnau rhywogaethau" y bwriedir iddynt ddarparu'r amgylchedd mwyaf ffafriol ar gyfer yr adar. Er mwyn hyrwyddo'r dull hwn o weithredu mae'r RSPB yn awgrymu y gallai ffermwyr sy'n mabwysiadu 'pecynnau rhywogaethau' perthnasol o fewn yr ardaloedd allweddol dderbyn naill ai bwyntiau ychwanegol yn ystod y cam sgorio neu daliadau ychwanegol ar ôl iddynt ymuno â'r cynllun.

Ffynhonnell: CCGC, RSPB

2.37 Mae Tir Gofal bellach wedi mabwysiadu'r syniad hwn a bydd yn annog ffermwyr i fabwysiadu pecynnau rhywogaethau, er na ddyfernir unrhyw bwyntiau ychwanegol o dan y system sgorio ac ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol. Fodd bynnag, efallai y bydd modd i ffermwyr gael gafael ar arian ychwanegol trwy'r cyfarwyddiadau sydd eu hangen i gyflawni pecyn. Bydd pecynnau rhywogaethau yn ddewisol, felly bydd eu llwyddiant yn dibynnu ar ba mor ddeniadol yw'r cyfarwyddiadau yn ariannol, ac ar a all swyddogion prosiect sicrhau y cynhwysir pecyn pan nad yw'r ffermwr yn gwirfoddoli i gyflwyno un i ddechrau.

2.38 Ystyriai CCGC fod 68 y cant o'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru mewn cyflwr anffafriol yn 2006[16], o gymharu â 55 y cant yn Lloegr. Felly mae Llywodraeth y Cynulliad ymhell o gyrraedd ei tharged o sicrhau bod 90 y cant o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig mewn cyflwr ffafriol erbyn 2010. Ar ben hynny, dangosodd tystiolaeth o adolygiad manylach a gynhaliwyd cyn hynny yn 2003 fod y mwyafrif o'r nodweddion a oedd mewn cyflwr anffafriol hefyd yn dirywio ymhellach. Felly mae Llywodraeth y Cynulliad am gynyddu'r arwynebedd a gwmpesir gan Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a reolir yn gadarnhaol i sicrhau a chynnal cyflwr ffafriol. Gall y cyfryw waith rheoli cadarnhaol gynnwys, er enghraifft, gyfyngiadau ar bori, atal rhywogaethau ymledol rhag ymledu i safleoedd ac atal llosgi neu arferion niweidiol eraill. Ym mis Mawrth 2006, dim ond 47 y cant o'r arwynebedd a gwmpesid gan Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a oedd o dan reolaeth gadarnhaol; roedd 30 y cant wedi'i gwmpasu gan gynlluniau amaeth-amgylcheddol a 17 y cant gan gytundebau rheoli penodol.

16 Adroddiad gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, *SSSIs in Wales, Current statement of knowledge Report for April 2005 to March 2006,* Ionawr 2007. Mae asesiadau o gyflwr yn ddangosol, yn seiliedig ar gyfuniad o ddata arolygon (pan fo ar gael) a barn broffesiynol swyddogion CCGC. Mae'r ffigurau a ddyfynnir yma ond yn ymwneud â'r safleoedd hynny y mae CCGC wedi'u hasesu i lefel uchel o hyder, sy'n cyfrif am 47 y cant o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

2.39 Lleolir llawer o'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sydd mewn perygl ar gynefin a gwmpesir gan Tir Gofal (er enghraifft, glaswelltiroedd, gweundiroedd a chors) a gall cyfarwyddiadau'r cynllun helpu i fynd i'r afael ag achosion cyflwr anffafriol y safleoedd hyn, sef tanbori a gorbori fel arfer. Gall cytundebau Tir Gofal hefyd ddarparu clustogfa amddiffynnol ddefnyddiol o amgylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n llai o faint. Trwy dargedu Tir Gofal ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried y gall helpu i sicrhau bod mwy o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig mewn cyflwr ffafriol, tra hefyd yn darparu system i flaenoriaethu ceisiadau ar gyfer Tir Gofal os bydd y galw yn fwy na'r cyflenwad. Felly bydd Llywodraeth y Cynulliad yn dyfarnu 10 pwynt ychwanegol, yn ffenestr geisiadau 2006, i unrhyw ymgeiswyr sydd ag SoDdGA ar eu tir, ac mae'n bwriadu prosesu eu ceisiadau yn gyflymach na cheisiadau heb SoDdGA. Adolygir y sefyllfa yn 2008, pan fydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried a ddylid cyflwyno prosesau targedu llymach.

2.40 Mae targedu'r cynllun ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cynyddu'r pwyslais ar y tir cynefin mwyaf gwerthfawr, tra'n lleihau'r pwyslais ar dir wedi'i wella'n amaethyddol a'r rhannau o'r cynllun sy'n ymdrin â'r amgylchedd hanesyddol, tirweddau a mynediad cyhoeddus. Mae'n dilyn bod y cyfryw broses dargedu yn debygol o leihau'r gyfran o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer tir wedi'i wella'n amaethyddol, a all sicrhau manteision amgylcheddol pwysig serch hynny trwy newidiadau dewisol mewn arferion rheoli tir (er enghraifft, trwy blannu cnydau âr neu ddechrau pori gwartheg ar dir). Ar ben hynny, mae gan y cyfryw dir lai o amddiffyniadau na Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, sy'n elwa o ddiogelwch cyfreithiol llymach a mentrau penodol i hyrwyddo rheolaeth dda. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiadau Rheoli Safle, sy'n nodi arfer rheoli da ar gyfer pob safle ac a lunnir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, ac arian ar gyfer cytundebau rheoli penodol sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion safle penodol. Yn 2005 2006, gwariodd CCGC £1.7 miliwn ar y cytundebau hyn, a gwmpasai 18 y cant o dir Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

2.41 Mae CCGC yn monitro cyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gan ddefnyddio fframwaith y cytunwyd arno rhwng y prif asiantaethau cadwraeth ym 1998, sy'n canolbwyntio ar y safle cyfan a chyflwr nodweddion unigol y tu mewn iddo. Nid yw'r fframwaith hwn yn ddigon soffistigedig i gymharu asesiadau cyflwr ag arferion rheoli tir, megis y rhai a ragnodir gan Tir Gofal, a all fod ar waith ar draws rhan o safle yn unig, felly ni all CCGC ddweud yn bendant a yw Tir Gofal neu drefniadau rheoli penodol yn fwy effeithiol wrth wella cyflwr safleoedd. Mae CCGC yn gweithio i ddatblygu'r fframwaith i alluogi'r cyfryw gymariaethau yn y dyfodol. Mae CCGC o'r farn ei bod yn dra thebygol bod Tir Gofal yn cael effaith gadarnhaol, yn arbennig trwy greu amgylchiadau amgylcheddol mwy ffafriol dros ardal eang, er enghraifft fel clustogfeydd o amgylch safleoedd. Fodd bynnag, mae'n debyg mai cytundeb rheoli penodol fydd fwyaf effeithiol wrth sicrhau neu gynnal cyflwr da ar SoDdGA ei hun, am ei fod wedi'i deilwra i anghenion penodol y safle ac am fod iddo rym statudol.

Mae'r cynllun yn rhedeg yn ddidrafferth, ond mae'n costio mwy i'w redeg nag y disgwyliwyd yn wreiddiol

Roedd perfformiad CCGC yn erbyn ei brif dargedau blynyddol yn amrywiol, ond roedd yn well na'r disgwyl o ran arwynebedd y tir a gwmpaswyd

2.42 Mae Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cytuno ar ddau darged perfformiad allweddol: sef nifer y cytundebau a lofnodir ac arwynebedd y tir a gynhwysir o dan gytundebau, gan bennu pob targed fel arfer ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Cyflwynwyd yr ail darged o 2000/2001 ar gais CCGC, am ei fod yn llofnodi nifer gymharol fach o gytundebau mawr a theimlai nad oedd y niferoedd ar eu pennau eu hunain yn adlewyrchiad teg o'i berfformiad. Gyda'i gilydd lleihaodd y ddau darged y cymhelliad i ffafrio'n anghymesur naill ai ffermydd mwy o faint neu ffermydd llai o faint.

2.43 Roedd Cynllun Datblygu Gwledig Cymru (2000/2006) wedi rhagweld y byddai Tir Gofal yn darparu 600 o gytundebau yn cwmpasu 30,000 o hectarau bob blwyddyn yn ystod y saith mlynedd y byddai'r Cynllun ar waith: sef cyfanswm o 4,200 o gytundebau yn cwmpasu 210,000 o hectarau. Er mai dim ond 2,958 o gytundebau[17] – tua 70 y cant o'r ffigur disgwyliedig – a sicrhawyd yn ystod y cyfnod o saith mlynedd, maent yn cwmpasu tua 333,000 o hectarau o dir, tua 59 yn fwy na'r disgwyl. Mae maint cyfartalog y daliad yng nghynllun Tir Gofal yn fwy na dwbl y maint disgwyliedig, sef 50 hectar.

2.44 Newidiodd Llywodraeth y Cynulliad dargedau CCGC o'r rhai a ragwelwyd gan y Cynllun Datblygu Gwledig i adlewyrchu argaeledd arian, tueddiadau o ran maint y ffermydd sy'n ymuno â'r cynllun, a ffactorau allanol, megis argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau yn 2001, a gyfyngodd ar fynediad i gefn gwlad gan achosi oedi. Roedd perfformiad CCGC yn erbyn targedau pob blwyddyn yn amrywiol (Ffigur 16). Roedd hyn i'w briodoli yn rhannol i argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau, a hefyd y ffaith bod hyd y broses sy'n arwain at gytundeb yn amrywio'n fawr gan ddibynnu ar gymhlethdod y cais, cywirdeb y gwaith mapio a pha mor gyflym y mae ffermwyr yn ymateb i geisiadau am wybodaeth. Mae'n anodd barnu perfformiad dros y cyfnod cyfan ers cyflwyno Tir Gofal am i dargedau gael eu pennu ar gyfer y ddau fesur mewn dim ond pedwar o'r saith cyfnod ers i dargedau gael eu pennu yn gyntaf yn 2000/2001. Ac eithrio'r blynyddoedd hynny na phennwyd unrhyw darged ar eu cyfer, ar gyfartaledd methodd CCGC â chyrraedd ei darged ar gyfer nifer y cytundebau o 12 y cant, ond o ddim ond 0.8 y cant ar gyfer arwynebedd y tir a gwmpesir gan y cynllun. Cyrhaeddodd CCGC ddau o'r chwe tharged blynyddol ar gyfer nifer y cytundebau, ac un o'r pum targed ar gyfer arwynebedd y tir a gwmpesir.

Dosberthir rhai cynefinoedd yn wahanol gan swyddogion prosiect ac arolygwyr arbenigol, ond mae hwn yn fater cymhleth nad yw o reidrwydd yn adlewyrchu penderfyniadau diffygiol gan swyddogion prosiect Tir Gofal

2.45 Mae'n bwysig iawn dosbarthu cynefinoedd yn fanwl gywir am fod amodau rheoli a chyfraddau taliadau yn seiliedig i raddau helaeth ar fathau o gynefin. Felly mae gwaith dosbarthu anghywir yn peryglu effeithiolrwydd y cynllun trwy amodau amhriodol ac yn creu'r risg y gwneir taliadau anghywir.

17 3,098 gan gynnwys cytundebau a lofnodwyd ond sydd wedi gadael y cynllun ers hynny; byddai'r ffigur hwn yn cynrychioli 74 y cant o'r ffigur a ddisgwylid yng Nghynllun Datblygu Gwledig Cymru

Ffigur 16: Perfformiad Tir Gofal yn erbyn ei brif dargedau

Blwyddyn ariannol	Targed ar gyfer hectarau	Allbwn a gofnodwyd	% Gwahaniaeth	Targed ar gyfer cytundebau	Allbwn a gofnodwyd	% Gwahaniaeth
1999/2000					71	n/a
2000/2001	49,000	47,000	-4%	600	400	-33%
2001/2002	50,000	38,000[1]	-24%	500	286	-43%
2002/2003	50,000	74,000	+48%	550	755	37%
2003/2004	60,000	55,205	-8%		559	n/a
2004/2005	50,000	42,706	-15%	500	500	0%
2005/2006		36,000	n/a	400[2]	355	-11.3%
Ebrill – Hyd 2006		14,490	n/a	156	105	-33%
Cyfansymiau[3]		**331,246**			**3,031**	

Nodiadau
1 Amharodd argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau a'r cyfyngiadau ar fynediad i ffermydd a gafwyd o ganlyniad iddo yn ddirfawr ar waith swyddogion Tir Gofal yn 2001/2002
2 Mae'r targed is yn adlewyrchu'r gwaith ychwanegol o ailnegodi'r 408 o gytundebau a gyrhaeddodd y torbwynt o bum mlynedd yn 2005/2006
3 Nid yw'r cyfanswm allbwn o 331,246 o hectarau a 3,031 o ffermydd yn cynnwys cytundebau a gwblhawyd ar ôl trosglwyddo'r cynllun i Lywodraeth y Cynulliad ym mis Hydref 2006 ond mae'n cynnwys cytundebau sydd wedi gadael y cynllun ers hynny, felly mae'r allbwn yn wahanol i'r hyn a gofnodwyd ym mharagraff 2.43

Ffynhonnell: CCGC

2.46 Fel rhan o'i gontract i ymgymryd ag astudiaeth fonitro ecolegol o gynefinoedd Tir Gofal, rhoddodd ADAS wybod i Gyngor Cefn Gwlad Cymru am broblemau a gafwyd yn ystod yr arolygon sylfaenol a wnaeth rhwng 2002 a 2004. Nododd ADAS mai achos mwyaf cyffredin problemau a wynebwyd gan ei arolygwyr oedd gwallau mapio gan swyddogion prosiect Tir Gofal, ac mai cam-ddosbarthu safleoedd oedd y broblem unigol fwyaf un. Dosbarthodd ADAS tua 20 y cant o safleoedd yn wahanol i'r cynefin a nodwyd gan swyddogion Tir Gofal. Gwlyptiroedd (yn arbennig gorgorsydd), parcdiroedd a gweundiroedd oedd fwyaf tebygol o gael eu dosbarthu'n wahanol (Ffigur 17).

2.47 Priodolodd ADAS y gwahaniaethau mewn dosbarthiad i nifer o ffactorau:

a Mae cynefinoedd yn aml i'w cael o fewn mosaigau o sawl cynefin, ac mae mathau o blanhigion yn aml yn ymdoddi i'w gilydd neu'n cydfodoli, yn hytrach na ffurfio ffiniau clir. Yn y cyfryw achosion mae'n anodd dosbarthu safle yn bendant.

b Mae cynefinoedd gwlyptir yn arbennig o anodd i'w dosbarthu am fod mathau o lystyfiant yn aml yn debyg iawn rhwng y categorïau o gynefin, ac mae'r dosbarthiad yn dibynnu ar ddyfnder y mawn (fel yn achos gorgorsydd) neu nodweddion daearegol eraill sy'n anodd eu canfod yn y maes.

Ffigur 17: Gwahaniaethau yn nosbarthiad cynefinoedd rhwng swyddogion Tir Gofal a swyddogion monitro ecolegol ADAS 2002/2004

Math o gynefin	Nifer y safleoedd a ddosbarthwyd yn wahanol	% o'r safleoedd a ddosbarthwyd yn wahanol
Gorgorsydd	35	97.2
Parcdir	6	54.5
Gweundir	56	45.5
Glaswelltir niwtral heb ei wella	14	29.2
Glaswelltir corslyd wedi'i led-wella	37	26.2
Glaswelltir asid heb ei wella	23	18.9
Gwelyau cyrs, corsydd a ffeniau	19	18.8
Gweirgloddiau wedi'u lled-wella	10	13.7
Coetiroedd	3	1.5
Glaswelltiroedd wedi'u lled-wella (a borir)	0	0
Glaswelltir heb ei wella	0	0
Cyfanswm	**203**	**16.9**

Ffynhonnell: Adroddiadau monitro ADAS (Llywodraeth y Cynulliad)

c Gall fod yn anodd dosbarthu cynefinoedd diraddiedig am nad oes digon o gategorïau dychwelyd. Nododd ADAS fod tuedd i ddosbarthu fel glaswelltir corslyd a pharcdir, gynefinoedd a fu, o bosibl, yn y categorïau hyn cyn hynny ac a oedd yn dychwelyd i'w cyflwr blaenorol. Fodd bynnag, heb gategori 'dychwelyd i fod yn barcdir', er enghraifft, mae'n anodd dosbarthu'r cyfryw gynefinoedd yn gywir.

ch Mae angen lefel uchel o arbenigedd i ddosbarthu'r cyfryw safleoedd yn gywir, ac nid oes gan swyddogion Tir Gofal yr un lefel o arbenigedd ag ymchwilwyr maes ADAS. Ar ben hynny mae ganddynt lai o amser i ddosbarthu cynefinoedd, ac mae'n rhaid iddynt wneud penderfyniadau ymarferol, cyflym ynghylch cynefinoedd cymysg. Mewn cyferbyniad, roedd penderfyniadau ymchwilwyr maes yn seiliedig ar astudiaeth fanwl o safle bach. Ac mewn rhai achosion, gall hyd yn oed arbenigwyr cydnabyddedig ddosbarthu safleoedd yn wahanol.

d Mapio at ddibenion rheoli: awgrymodd ADAS fod swyddogion weithiau wedi dosbarthu rhai cynefinoedd ffiniol neu gynefinoedd diraddiedig fel glaswelltir corslyd neu rostir i sicrhau bod y tir yn cael ei reoli yn y fath fodd ag i ailsefydlu'r cynefin gwreiddiol. Gelwid hyn yn fapio at ddibenion rheoli. Er enghraifft, efallai i

swyddog ddosbarthu glaswelltir wedi'i ledwella fel glaswelltir corslyd er mwyn lleihau cyfraddau pori a chodi lefelau dŵr, gan helpu i greu glaswelltir corslyd.

2.48 Cydnabu staff Tir Gofal fod mapio at ddibenion rheoli yn digwydd weithiau, a'i fod yn cael ei symbylu'n bennaf gan awydd i sicrhau y ceir y fantais amgylcheddol fwyaf o'r cynllun. Mewn rhai achosion ffiniol, gellid ei ddefnyddio i helpu ymgeiswyr i ymuno â'r cynllun pe baent yn fodlon ymgymryd ag opsiynau a oedd yn fuddiol i'r amgylchedd (megis sefydlu coridorau ar hyd glannau nentydd neu blannu cnydau âr) ond a fyddai fel arall ymhell o gyrraedd y sgôr drothwy. Tynnodd swyddogion sylw hefyd at yr anawsterau yn gysylltiedig â gwneud gwaith mapio ar raddfa fach iawn (mor fach â 0.1 hectar) a gwaith mapio yn y gaeaf pan oedd yn anodd canfod llawer o rywogaethau dangosol.

2.49 Nid oes unrhyw wybodaeth ddibynadwy am effaith ariannol mapio at ddibenion rheoli, ond mae'n debyg ei fod yn arwain at fwy o gost am ei fod fel arfer yn golygu cyfraddau pori is sy'n denu cyfraddau cymhorthdal uwch. Gellir cyfiawnhau'r gost uwch hon gan fanteision amgylcheddol ychwanegol, ond mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod hynny'n annhebygol o fod yn wir bob amser.

Mae mapio ffermydd yn broses gymhleth a hir

2.50 Mae gwaith mapio yn hanfodol i weinyddu cynllun Tir Gofal. Mae'n hanfodol bod map manwl o bob daliad tir fel bod cofnod dibynadwy o'r cynefinoedd, y nodweddion a'r opsiynau rheoli a gwmpesir gan y cynllun. Mae hyn yn galluogi swyddogion i sgorio ffermydd yn gywir, sicrhau cydymffurfiaeth â chytundebau a monitro cynefinoedd o safbwynt ecolegol. Gwneir y gwaith mapio gan swyddogion prosiect yn ystod eu hymweliad cyntaf â fferm, pan fyddant yn cerdded o amgylch y fferm gyda'r perchennog ac yn diwygio mapiau sy'n bodoli eisoes os oes angen. Anfonir y map wedyn i Uned Gartograffeg Llywodraeth y Cynulliad yn Aberystwyth, sy'n diweddaru'r cofnod digidol. Anfonir copi papur o'r map diwygiedig wedyn at y swyddog prosiect a'r ffermwr er mwyn iddynt gadarnhau ei fod yn gyflawn ac yn fanwl gywir.

2.51 Mae'r broses fapio yn codi problemau, am fod yn rhaid diwygio mapiau yn aml a'u dychwelyd i'r Uned Gartograffeg sawl gwaith cyn i berchenogion tir gytuno'n derfynol arnynt. Mynegodd swyddogion Tir Gofal yn ein grwpiau ffocws eu rhwystredigaeth ynglŷn â'r broses, ac roeddent am allu diwygio'r mapiau eu hunain heb orfod mynd trwy'r Uned Gartograffeg.

2.52 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi graddol symleiddio'r broses fapio, ac mae cyfraddau gwallau ac amserau cwblhau wedi gwella. Erbyn hyn mae gan swyddogion prosiect fynediad i fersiynau electronig o'r mapiau yn eu swyddfeydd a gallant edrych ar ffotograffau a dynnwyd o'r awyr a mapiau o ffermydd cyfagos. Roedd yr adolygiad Cloriannu yn 2001 wedi argymell y dylid cyflawni'r broses fapio gyfan yn electronig, gyda'r swyddogion yn creu ac yn diwygio mapiau ar liniadur yn ystod ymweliadau â ffermydd. Oherwydd natur gymhleth y cynllun a'r heriau technegol sy'n gysylltiedig ag ef mae'r opsiwn hwn yn ei hanfod yn anodd, ac ni wnaed fawr ddim cynnydd yn hyn o beth. Ar ben hynny, mae'r Uned Gartograffeg am gadw rheolaeth ar y mapiau digidol, am eu bod yn rhan o system fapio gymhleth sy'n cynnwys cynlluniau cynorthwyo ffermydd eraill.

Mae cyfundrefnau monitro a chydymffurfiaeth yn effeithiol, ond ni allant ganfod pob achos posibl o dor-cytundeb

2.53 Mae'n bwysig iawn monitro cytundebau yn effeithiol ar ôl iddynt gael eu llofnodi, i sicrhau y gweithredir cytundebau yn llawn ac i gadw mewn cysylltiad â ffermwyr fel y gellir datrys unrhyw broblemau yn gadarnhaol. Mae strategaeth fonitro Llywodraeth y Cynulliad yn dibynnu ar archwilio ffermydd gan swyddogion prosiect Tir Gofal. Mae'r strategaeth yn cynnwys:

- **a** Ymweliadau cynnal a chadw – mae pob deiliaid cytundeb yn derbyn ymweliad 'cynnal a chadw' yn ystod ei flwyddyn gyntaf yn y cynllun. Mae'r pwyslais ar ddarparu cymorth a chyngor i ddatrys unrhyw broblemau yn gynnar, ond gwneir yr ystod lawn o wiriadau cydymffurfio hefyd.
- **b** Ymweliadau monitro gwaith cyfalaf – ymweliad cydymffurfio pan fydd deiliad cytundeb yn gwneud pedwerydd cais am waith cyfalaf neu pan fydd cais unigol yn fwy na £5,000.
- **c** Archwiliadau ychwanegol o sampl o gytundebau – tua 10 y cant o'r cyfanswm bob blwyddyn – i sicrhau bod deiliaid cytundebau yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn mynnu bod yr ymweliadau hyn yn cael eu cynnal.

2.54 Mae swyddogion monitro fel arfer yn rhoi rhybuddion anffurfiol ar gyfer mân achosion o dor-cytundeb, ond maent yn defnyddio system safonol o gosbau ar gyfer achosion mwy difrifol o beidio â chydymffurfio. Mae lefel y gosb yn dibynnu ar nifer yr achosion o dor-cytundeb a pha mor ddifrifol yw eu heffaith. Ystyrir bod achosion o dor-cytundeb yn ddifrifol os na ellir eu hunioni o fewn oes y cytundeb. Mae cosbau ariannol yn cynnwys atal taliadau rheoli yn ymwneud â thorri cytundeb, yn amrywio o 10 y cant i 75 y cant, o weddill y taliadau rheoli. Mewn achosion difrifol iawn, bydd swyddogion yn terfynu cytundeb. Yn 2006/2007, gosododd CCGC gosbau ar 43 o gytundebau a ddaeth i gyfanswm o £31,868, sy'n cynrychioli 0.17 y cant o gyfanswm y taliadau o dan y cynllun. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn casglu unrhyw wybodaeth am nifer y rhybuddion, y math o achosion o dor-cytundeb a pha mor ddifrifol ydynt, na'r math o ffermydd lle y maent yn digwydd. Felly, ni ellir asesu'n llawn lefel yr anghydymffurfio na pha ardaloedd sydd fwyaf mewn perygl.

2.55 Gall y gyfundrefn gydymffurfio ganfod achosion amlwg o dor-cytundeb, ond mae'n anodd gwirio rhai amodau am eu bod yn llai amlwg:

- **a** **Cyfyngiadau ar ddefnyddio gwrteithiau neu blaladdwyr.** Heb ddal ffermwr wrthi, mae'n anodd iawn cadarnhau bod gwrteithiau a phlaladdwyr wedi'u defnyddio heb ganiatâd heb wneud dadansoddiad cemegol o bridd neu ddŵr.
- **b** **Cyfyngiadau ar gyfraddau stocio.** Mae'r rhain yn aml yn gymhleth i'w defnyddio am eu bod yn amrywio rhwng cynefinoedd nad ydynt yn cyd-fynd â ffiniau caeau ac am y gallant amrywio yn ôl yr adeg o'r flwyddyn. Mynegir y gyfradd stocio yn nhermau unedau da byw, sy'n dibynnu ar faint ac oedran yr anifeiliaid. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi lleisio ei bryder ynghylch y ffaith ei bod yn anodd asesu cydymffurfiaeth â chyfraddau stocio rhagnodedig, yn arbennig am nad oes angen i rai ffermwyr gadw dyddiaduron pori (cofnod manwl o nifer, math ac oedran y da bwy sy'n pori ar bob darn o dir ar adeg

benodol). Mewn gwirionedd, mae swyddogion prosiect yn mabwysiadu ymagwedd bragmatig, gan ofyn am gael gweld cofnodion pori dim ond os ymddengys fod tir wedi'i orbori.

c Dim ond yn ystod y tymor perthnasol y gellir asesu **gofynion tymhorol**, megis cyfyngiadau ar ddyddiadau lladd gwair neu ofyniad i hau sofl gaeaf. Awgrymodd swyddogion Tir Gofal y dylent ymweld â'r cyfryw ffermydd yn bennaf yn ystod y cyfnod perthnasol o'r flwyddyn. Byddai hynny'n synhwyrol, ond gallai achosi problemau logistaidd. Ar hyn o bryd, mae ymweliadau yn cael eu cynllunio yn seiliedig ar ffactorau risg cyffredinol, ac nid mewn ffordd sy'n adlewyrchu gofynion penodol pob cytundeb.

2.56 Roedd Swyddogion Tir Gofal hefyd o'r farn bod gwaith cofnodi annigonol o ran cyflwr y tir cyn i ffermydd ymuno â'r cynllun yn gwneud gwaith monitro cydymffurfiaeth yn llai effeithiol. Awgrymodd swyddogion y gellid defnyddio ffotograffau i greu cofnod o gyflwr cychwynnol y tir, a fyddai'n eu helpu i benderfynu a oedd y cyflwr wedi newid digon i ddangos bod y deiliaid cytundeb yn cydymffurfio a'r cyfarwyddiadau. Er i Lywodraeth y Cynulliad wrthod system monitro sylfaenol gynhwysfawr a thargedau ar y fferm oherwydd y gost, byddai gwneud defnydd helaethach o ffotograffau i asesu newid yng nghyflwr cynefinoedd a nodweddion yn ffynhonnell ddefnyddiol o dystiolaeth ar gyfer gwaith cydymffurfio a gwaith monitro.

2.57 Gellid defnyddio ymweliadau fferm a wneir tra bydd cytundeb yn cael ei weithredu at ddibenion llawer ehangach na chadarnhau cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau'r cynllun yn unig. Gellid eu defnyddio i drafod cynnydd yn fwy cyffredinol, esbonio manteision cyfarwyddiadau cynllun, datrys camddealltwriaethau a nodi unrhyw ddiwygiadau i'r cytundeb y gallai fod eu hangen, gan osgoi problemau ar ôl hynny. Mae DEFRA yn bwriadu mabwysiadu'r ymagwedd hon ar gyfer y Cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol yn Lloegr, lle y gwneir ymweliadau 'gofal a chynnal' ar wahân i ymweliadau cydymffurfiaeth iddarparu cyngor a chymorth ar gyfer deiliaid cytundebau. Mae DEFRA yn gobeithio y bydd yr ymweliadau yn helpu i ddatblygu gweledigaeth gyffredin o reolaeth amgylcheddol gyda deiliaid cytundebau, ac y byddant yn cynorthwyo'r bobl hynny efallai na fyddai ganddynt yr arbenigedd fel arall i gyflwyno'r cynllun. Yng Nghymru nid oes unrhyw ymweliadau 'gofal a chynnal', er bod yr ymweliad cynnal a chadw ym mlwyddyn gyntaf pob cytundeb yn cyflawni'r swyddogaeth hon yn rhannol. Cafwyd bod consensws ymhlith gweinyddwyr cynlluniau y byddai'r cyfryw ymweliadau yn dra dymunol, ond mae'n amlwg bod goblygiadau o ran adnoddau: byddai ymweld â phob fferm bob blwyddyn yn gofyn am gynnydd sylweddol yn nifer y staff[18].

2.58 Nid yw rheolwyr cynlluniau wedi cynnal unrhyw arolygon boddhad rheolaidd o ddeiliaid cytundebau, ac felly nid ydynt mewn sefyllfa i ddod i gasgliadau cadarn ynghylch eu barn am y modd y rheolir y cynllun. Yn seiliedig ar ein grwpiau ffocws, ymddangosai fod deiliaid cytundebau at ei gilydd yn fodlon ar y modd y câi eu cytundebau eu monitro, ond nododd nifer ohonynt y byddent yn croesawu ymweliadau 'gofal a chynnal', yn rhannol i ddangos i swyddogion yr hyn yr oeddent wedi'i wneud ar y fferm. Fodd bynnag, roedd eraill yn

18 Byddai angen i Lywodraeth y Cynulliad gyflogi saith swyddog prosiect ychwanegol, gan ragdybio hanner diwrnod fesul ymweliad, 2,900 o gytundebau gweithredol a 200 o ddiwrnodau ymweld fesul cyflogai

Ffigur 18: Cyllidebau Tir Gofal, 1999/2000 hyd 2005/2006

Blwyddyn ariannol	Cyllideb weinyddol[1] (£m)	Cyllideb taliadau[2] (£m)	Cyfanswm y gyllideb (£m)	Cyllideb weinyddol fel % o'r cyfanswm
1999/2000	1.4		1.4	100%
2000/2001	2.0	2.2	4.2	47.8%
2001/2002	2.3	5.2	7.5	30.7%
2002/2003	2.5	7.7	10.2	24.5%
2003/2004	2.5	14.0	16.5	15.2%
2004/2005	2.5	18.1	20.6	12.1%
2005/2006	2.5	23.0	25.5	9.8%

Nodiadau
1 Yn seiliedig ar Gymorth Grant LICC i Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer rhedeg Tir Gofal
2 Taliadau i'r deiliaid cyntundeb gan y CCGC (ffigyrau cywir)

Ffynhonnell: Llywodraeth y Cynulliad

amheus ynghylch unrhyw ymwneud pellach, ac roedd rhai yn pryderu ynghylch swyddogion cydymffurfiaeth yn cymhwyso'r rheolau gyda gormod o frwdfrydedd.

Nid yw cost lawn gweinyddu Tir Gofal wedi'i monitro fel rhan o'r drefn ac mae'n fwy na'r disgwyl

2.59 Telir am gost gweinyddu Tir Gofal gan Lywodraeth y Cynulliad. Nes i'r cynllun gael ei drosglwyddo ym mis Hydref 2006, darparai Llywodraeth y Cynulliad gymorth grant ar gyfer CCGC yn benodol i ariannu'r gwaith o weinyddu'r cynllun. Arhosodd y cymorth grant hwn yn ddigyfnewid ar y pedair blynedd a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006, tra cododd gwir gost taliadau i ffermwyr a nifer y cytundebau (Ffigur 18). O ganlyniad, gostyngodd y ddarpariaeth ar gyfer costau gweinyddol o 32.3 y cant o gyfanswm cyllideb y cynllun yn 2000/2001 i 12 y cant yn 2005/2006 (Ffigur 18).

2.60 Fodd bynnag, nid yw'r cyllidebau cymorth grant yn cynrychioli costau llawn rhedeg Tir Gofal. Gwariodd CCGC gyfran sylweddol o'i gyllideb gyffredinol ar y cynllun, am yr ystyriai ei fod yn ffordd dda o gyflawni ei amcanion ehangach o ran cefn gwlad, a thalwyd rhan o'r costau gweinyddol gan Lywodraeth y Cynulliad yn uniongyrchol. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad na Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn monitro cyfanswm cost gweinyddu'r cynllun fel rhan o'r drefn, am na neilltuir amser staff i gynlluniau na phrosiectau unigol. Fodd bynnag, fel rhan o'r gwaith yn 2006 a fu'n sail i'r broses o drosglwyddo'r cynllun o Gyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth y Cynulliad, amcangyfrifodd dadansoddiad manwl mai £4.27 miliwn oedd costau rhedeg y cynllun yn 2005/2006, sef 15.7 y cant o gyfanswm costau'r cynllun (Ffigur 19).

Ffigur 19: Costau gweinyddu'r cynllun yn 2005/2006

	Cost (£000)
Costau staff Tir Gofal	2,400
Gorbenion[1]	556
Cymorth yr Uned Gartograffeg	325
Contract Parc Cenedlaethol Eryri	275
Costau cyfalaf[2]	248
Cymorth arbenigol gan staff arbenigol CCGC (y tu allan i gynllun Tir Gofal)	200
Cymorth swyddfa gefn[3]	113
Cyngor archeolegol	110
Hyfforddi ffermwyr	40
Cyfanswm costau rhedeg y cynllun 2005/2006	**4,267**
Taliadau i ddeiliaid cytundebau yn 2005/2006	22,994
Cyfanswm cost y cynllun	**27,261**

Nodiadau
1 Yn cynnwys llety, teithio a chynhaliaeth, teleffoni, hyfforddiant a thrwyddedau TG
2 Yn cynnwys costau adnewyddu cyfarpar TG a chostau adnewyddu ceir cronfa
3 Yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir yn ganolog megis cyflogres a chynnal a chadw'r rhwydwaith

Ffynhonnell: Llywodraeth y Cynulliad

2.61 Wrth goladu'r data i amcangyfrif cyfanswm costau rhedeg y cynllun, roedd yn rhaid i Gyngor Cefn Gwlad Cymru amcangyfrif faint o amser pob swyddog a gâi ei dreulio ar gynllun Tir Gofal, a faint ar weithgareddau eraill. Am na ddadansoddir amser staff mewn unrhyw ffordd systematig, nid oes modd nodi faint o amser sydd ei angen mewn gwirionedd i werthuso, cynnal a chadw a monitro pob cytundeb. Dywedodd rheolwyr wrthym mai'r rhagdybiaeth safonol a ddefnyddid oedd wyth niwrnod am werthuso cais (ac un diwrnod ychwanegol ar gyfer pob 100 hectar ychwanegol), dau ddiwrnod y flwyddyn ar gyfer monitro'r cytundeb a phum niwrnod i ailnegodi'r cytundeb ar ddiwedd pum mlynedd. Mae hyn yn awgrymu cyfanswm o 33 o ddiwrnodau staff ar gyfer fferm 100 hectar yn ystod oes cytundeb, sef 10 mlynedd. Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddadansoddi costau staff ac ystyried y rhesymau dros unrhyw wahaniaethau sylweddol rhyngddynt a'r ffigurau disgwyliedig. Gall y rhain nodi meysydd gwella neu'r ffaith bod angen newid cyllidebau.

Gellid cael manteision wrth drosglwyddo cyfrifoldeb dros gyflwyno'r cynllun i Lywodraeth y Cynulliad, ond mae risgiau hefyd y mae angen eu rheoli

2.62 Bu CCGC, ar y cyd â nifer o sefydliadau partner megis yr ymddiriedolaethau archeolegol yng Nghymru, yn cyflwyno Tir Gofal ar ran Llywodraeth y Cynulliad o'r adeg y lansiwyd y cynllun yng ngwanwyn 1999. Ym mis Tachwedd 2004, cyhoeddodd y Prif Weinidog y câi'r cyfrifoldeb dros weinyddu'r cynllun ei drosglwyddo o Gyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth y Cynulliad. Cwblhawyd y broses drosglwyddo yn unol â'r amserlen ar 16 Hydref 2006, er gwaethaf rhywfaint o lithro yn ystod y broses. Roedd hyn i'w briodoli yn bennaf i oedi wrth benderfynu ble y dylid lleoli staff Tir Gofal a phroblemau wrth gaffael y seilwaith TG angenrheidiol i drosglwyddo cronfa ddata Tir Gofal i systemau cyfrifiadurol y Cynulliad.

2.63 Ar ôl ei drosglwyddo, mae systemau gweinyddol a TG y cynllun wedi bod yn rhedeg yn ddidrafferth ac ymddengys nad amharwyd ar barhad busnes. Fodd bynnag, cafwyd oedi o tua wyth mis cyn dechrau gwaith ar unrhyw un o'r ceisiadau a dderbyniwyd yn ffenestr geisiadau 2006 ym mis Tachwedd, yn rhannol oherwydd ansicrwydd ynghylch lefel yr arian a fydd ar gael i weithredu'r cytundebau. Roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi bwriadu defnyddio arian a drosglwyddwyd o gynllun Tir Mynydd i ariannu'r cytundebau newydd, ond penderfynodd y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl hynny na ddylid torri'r gyllideb ar gyfer Tir Mynydd. Datryswyd y mater ym mis Gorffennaf 2007 ac erbyn hyn mae gwaith wedi dechrau ar y ceisiadau. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gysylltiad rhwng yr oedi â'r penderfyniad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros weinyddu'r cynllun i Lywodraeth y Cynulliad.

2.64 Roedd y penderfyniad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros weinyddu'r cynllun o Gyngor Cefn Gwlad Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhan o agenda ehangach Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus sy'n gydgysylltiedig, yn fwy ymatebol i bobl a busnesau, ac yn fwy effeithlon. Roedd Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y byddai manteision pendool yn sgîl trosglwyddo Tir Gofal:

a Cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyllid a Datblygu Gwledig Ewropeaidd newydd sy'n mynnu bod pob cymhorthdal fferm yn cael ei dalu gan un asiantaeth dalu ym mhob rhanbarth o 1 Ionawr 2007.

b Mwy o atebolrwydd democrataidd, wrth i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threftadaeth gymryd cyfrifoldeb uniongyrchol dros weinyddu'r cynllun.

c Bydd un asiantaeth yn cyflawni'r ystod lawn o gynlluniau amaeth-amgylcheddol sydd ar gael yng Nghymru, a ddylai arwain at wasanaeth gwell, mwy integredig i gwsmeriaid a fydd yn gallu cael cyngor ar bob cynllun amaeth-amgylcheddol o un sefydliad. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gobeithio y bydd hyn yn hyrwyddo symud rhwng cynlluniau ac yn annog unigolion i ymgymryd â chynlluniau mwy ymestynnol.

ch Mwy o effeithlonrwydd trwy symleiddio prosesau gweinyddol a rhedeg yr ystod o gynlluniau amaeth-amgylcheddol fel un pecyn cydlynol.

Ffigur 20: Canfyddiadau swyddogion Tir Gofal a deiliaid cytundebau ynglŷn â throsglwyddo'r cynllun o Gyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth y Cynulliad

Swyddogion Tir Gofal
■ Yr effaith ar berthnasau gyda deiliaid cytundebau. Roedd CCGC wedi datblygu perthnasau da gyda'r gymuned ffermio trwy gynllun Tir Gofal, ac roedd swyddogion o'r farn bod y trosglwyddiad mewn perygl, am fod ffermwyr yn tueddu i edrych ar Lywodraeth y Cynulliad yn llai ffafriol.
■ Gallai'r ethos newid o ganlyniad i wanhau'r ffocws amgylcheddol yn Llywodraeth y Cynulliad, yr ystyrid ei bod yn canolbwyntio'n fwy ar dasgau gweinyddol.
■ Anhawster cael gafael ar arbenigedd o fewn CCGC ym meysydd ecoleg, rhywogaethau a chynefinoedd.
■ Gadewir CCGC heb gymorth gweinyddol mewn rhai swyddfeydd wrth i staff gael eu trosglwyddo i Lywodraeth y Cynulliad.
■ Rhagolygon gyrfa: roedd swyddogion yn ofni y caent eu defnyddio fwyfwy i wneud gwaith cydymffurfiaeth ar y taliad fferm sengl a chynllun Tir Cynnal, ac y byddai ganddynt lai o amser i ddatblygu cytundebau Tir Gofal. Teimlai rhai y gallai hynny arwain at ddatsgilio a diraddio.
Deiliaid cytundebau (grwpiau ffocws yn Llandeilo, Llandrindod a Dolgellau)
■ Prin oedd y ffermwyr a oedd yn ymwybodol o'r trosglwyddiad; roedd y rhai a oedd yn ymwybodol ohono yn ei erbyn.
■ Ystyrid bod CCGC yn 'gyfeillgar i ffermwyr' tra ystyrid bod Llywodraeth y Cynulliad yn fwy biwrocrataidd ac mewn rhai achosion ystyrid ei bod yn elyniaethus.
■ Angen osgoi newidiadau mewn staff: roedd yn bwysig delio â'r un swyddog prosiect ac yn arbennig cadw staff cymwys cynllun Tir Gofal, a oedd â gwybodaeth dda am y cynllun. Roedd yn bwysig bod gan swyddogion prosiect ddealltwriaeth dda o realiti ffermio.
■ Fodd bynnag, byddai'n fanteisiol lleihau hyd yr eithaf ar y baich cydymffurfio trwy gyfuno ymweliadau ar gyfer Tir Gofal a'r Taliad Fferm Sengl.

Ffynhonnell: Grwpiau ffocws a chyfarfodydd a gynhaliwyd gan staff Swyddfa Archwilio Cymru

d Mwy o fynediad a mynediad mwy uniongyrchol i staff hyfedr a phrofiadol.

dd Mwy o gyfleoedd ar gyfer staff Tir Gofal, a fydd yn eu galluogi i weithio ar set ehangach o gynlluniau amaeth-amgylcheddol a datblygu eu sgiliau a rhagolygon gyrfa o fewn sefydliad llawer mwy o faint.

2.65 Gall newid sefydliadol fod yn fater cynhennus ac yn brofiad cythryblus i staff ac, i raddau llai, ddefnyddwyr gwasanaethau. Cyn i'r trosglwyddiad ddigwydd, trafodwyd y rhagolygon ar gyfer y dyfodol gyda swyddogion Tir Gofal a deiliaid cytundebau, a fynegodd nifer o bryderon ynghylch y trosglwyddiad (Ffigur 20).

2.66 I'r graddau bod sail gadarn i'r canfyddiadau hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn wynebu her i'w lliniaru a chyflawni ei hamcanion o ran cymryd cyfrifoldeb dros gyflwyno Tir Gofal. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno ar gytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru i rannu staff ac adnoddau, fel bod gan swyddogion Tir Gofal fynediad o hyd i gyngor arbenigol a chyngor polisi. Mae'r ddau sefydliad wedi cytuno ar setliad cyllidebol: mae CCGC wedi trosglwyddo £3.75 miliwn y flwyddyn i Lywodraeth y Cynulliad (sef ei holl wariant ar gynlluniau Tir Gofal a Thir Cymen, ac eithrio costau llety, yn seiliedig ar gyllidebau 2005/2006). Bydd yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad gwrdd â'r gost ychwanegol o £240,000 y flwyddyn er mwyn

i’r staff a drosglwyddwyd gael mynediad i system TG y Cynulliad. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu opsiynau yn ddiweddar i sicrhau arbedion gweinyddol, er enghraifft trwy uno swyddogaethau a newid arferion gwaith, ac mae’r rhain wrthi’n cael eu dilysu cyn i gynlluniau manwl gael eu llunio a’u gweithredu.

Atodiad 1- Methodoleg

1 Rhoddodd yr astudiaeth sylw i'r cwestiwn: a yw cynllun Tir Gofal mewn sefyllfa dda i gyflawni ei amcanion yn awr ac yn y dyfodol? Rhoddodd sylw i'r is-gwestiynau canlynol:

- A yw'r cynllun yn sicrhau manteision yn awr?
- A yw'r cynllun wedi'i lunio i sicrhau rhagoriaeth?

2 Cynhwysai'r gwaith maes amrywiaeth o ddulliau:

a Adolygu dogfennau – astudiwyd ffeiliau a gweithdrefnau CCGC a Llywodraeth y Cynulliad yn ymwneud â datblygu polisi, gweinyddu'r cynllun a monitro allbynnau a chanlyniadau. Yn arbennig, defnyddiwyd astudiaethau a dogfennau polisi a fodolai eisoes i lywio ein dadansoddiad:

- Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, 2000/2006;
- y gwerthusiad canol tymor o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru (AGRA CEAS Consulting, 2003);
- y gwerthusiad economaidd-gymdeithasol o gynllun Tir Gofal (CCGC, 2005);
- astudiaeth fonitro botanegol Llywodraeth y Cynulliad o gynefinoedd allweddol ar dir Tir Gofal (2000/2006);
- papurau ymchwil eraill a gomisiynwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru i asesu effaith amgylcheddol neu botensial Tir Gofal;
- adroddiadau CCGC ar gyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru (CCGC, 2003 a 2006).

b Cyfarfodydd â swyddogion yng Nghyngor Cefn Gwlad Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, Cadw, DEFRA a Chymdeithas y Cerddwyr.

c Grwpiau ffocws o ddeiliaid cytundebau. Cynhaliwyd tri grŵp ffocws gyda deiliaid cytundebau yn Nolgellau (Meirionnydd), Llandeilo (Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro) a Llandrindod (Powys a Sir Fynwy), yn cwmpasu ystod o leoliadau daearyddol a mathau o ffermydd. Trafododd y grwpiau ffocws ganfyddiadau deiliaid cytundebau o'r cynllun, gan gynnwys eu rhesymau dros ymuno ag ef a'u barn am y modd y gweinyddir y cynllun ac effeithiau amgylcheddol. Mae gan Atodiad 4 fwy o wybodaeth am ddull, cwmpas a chanlyniadau'r grwpiau ffocws.

ch Grwpiau ffocws o reolwyr y cynllun a swyddogion prosiect (un grŵp ffocws i'r naill a'r llall) i drafod y prif faterion a oedd yn wynebu Tir Gofal.

d Arolwg o 500 o aelodau o Gymdeithas y Cerddwyr Cymru. Cynhaliwyd yr arolwg yn 2006 ar gyfer adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar fynediad cyhoeddus i gefn gwlad (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2006), ond cynhwysai rai cwestiynau ynghylch Tir Gofal. Dewiswyd yr aelodau ar hap a'r gyfradd ymateb i'r arolwg oedd 32 y cant.

3 Ymgynghorwyd hefyd â'r Dr Janet Dwyer o Brifysgol Caerloyw, sydd wedi gwneud cryn dipyn o waith ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol, ar gamau allweddol o'r astudiaeth.

Atodiad 2 - Canfyddiadau allweddol o Arolwg Cefn Gwlad y Deyrnas Unedig 2000

1 Mae'r Arolwg Cefn Gwlad yn rhaglen fonitro bwysig sy'n darparu gwybodaeth am y diogelwch a roddir i'r prif fathau o gynefinoedd yn y Deyrnas Unedig a'u cyflwr. Dechreuodd yr Arolwg ym 1978 a chynhaliwyd ailarolygon ym 1984, 1990 a 1998; cyhoeddwyd canlyniadau rhagarweiniol arolwg 1998 yn 2000. Cynhaliwyd yr arolwg mwyaf diweddar yn 2006 a disgwylir i'r canlyniadau rhagarweiniol gael eu cyflwyno yn 2007.

2 Cwmpasai arolwg 1998 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban sampl gynrychioliadol o 569 o sgwariau grid un cilometr. O fewn pob sgwâr, mesurodd yr arolygwyr y gyfran o'r tir a gynhwysai'r prif fathau o gynefin a hyd nodweddion llinellol megis gwrychoedd a nentydd. Ar ben hynny, mesurodd yr arolygwyr lystyfiant mewn sampl o safleoedd o fewn pob sgwâr, a chasglu samplau o bridd a dŵr at ddibenion eu dadansoddi'n gemegol. Mae'r gwaith samplu manylach hwn, ochr yn ochr â chanlyniadau o arolygon cynharach, yn caniatáu asesu cyflwr cefn gwlad ac yn dangos sut y mae cyflwr wedi newid dros amser. Yr Arolwg Cefn Gwlad yw'r rhaglen fonitro fwyaf cynhwysfawr a sefydledig o gefn gwlad Prydain ac mae'n parhau i ddatblygu wrth i dechnegau newydd ddod ar gael. Fodd bynnag, nid yw nifer y sgwariau grid yng Nghymru yn ddigonol i ganlyniadau'r Arolwg fod yn ystadegol ddilys ar lefel Cymru gyfan.

3 Prif ganfyddiadau Arolwg 1998 oedd:

a cynyddodd amrywiaeth planhigion mewn caeau âr, yn arbennig ar ffiniau caeau: cafwyd cynnydd o 38 y cant mewn rhai ffiniau caeau âr yng Nghymru a Lloegr;

b parhaodd amrywiaeth planhigion i leihau yn y glaswelltiroedd a oedd wedi'u gwella leiaf yn amaethyddol, o ganlyniad, mae'n debyg, i lefelau cynyddol o argaeledd maetholion neu ewtroffeiddio;

c nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng amcangyfrifon 1990 a 1998 o hyd gwrychoedd, er bod rhywfaint o dystiolaeth, ym 1998, fod llystyfiant y cyfryw wrychoedd yn y tirweddau hynny yng Nghymru a Lloegr a oedd yn cael eu ffermio'n ddwys yn llai cyfoethog eu rhywogaethau o gymharu â 1990;

ch lleihaodd amrywiaeth planhigion ar leiniau ymyl ffordd o naw y cant yng Nghymru a Lloegr;

d ehangodd coetir llydanddail gan bedwar y cant yng Nghymru a Lloegr;

dd lleihaodd ardaloedd o laswelltiroedd asid a chalchaidd lled-naturiol o 10 y cant a 18 y cant yn y drefn honno ledled y DU yn gyffredinol;

e cynyddodd nifer y pyllau iseldir o chwech y cant ledled y DU;

f gwellodd cyflwr biolegol nentydd ac afonydd ledled y DU;

ff gorchuddiwyd glannau nentydd â mwy o lystyfiant a lleihaodd amrywiaeth planhigion o 11 y cant yng Nghymru a Lloegr, ac ehangodd ffeniau a chorsydd o 27 y cant;

g crëwyd mwy o goetir llydanddail nag a gollwyd o ganlyniad i waith datblygu; fodd bynnag gwrthbwysir y cynnydd yn yr arwynebedd coetir gan dystiolaeth o ddirywiad yn ansawdd cynefinoedd, yn deillio o ewtroffeiddio sy'n arwain at ddirywiad yn rhywogaethau dangosol coetir hynafol.

Ffynhonnell: Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau: Accounting for Nature: Assessing Habitats in the UK Countryside, 2000

Atodiad 3 - Opsiynau cynefinoedd a ariannwyd gan Tir Gofal

Arwynebeddau tir y gwnaed taliadau ar eu cyfer cyn 31 Mawrth 2007

Categori dewisol	Arwynebedd (ha)
Sefydlu gweundir newydd	11,459
Troi glaswelltir wedi'i wella yn laswelltir wedi'i led-wella	5,199
Cnydau grawn, rêp a had llin heb eu chwistrellu	3,149
Gwreiddiau heb eu chwistrellu	3,020
Cadw sofl gaeaf o ran cnydau grawn, rêp a had llin	2,962
Grawnfwydydd a heuir yn y gwanwyn	2,565
Troi glaswelltir wedi'i led-wella yn laswelltir heb ei wella	1,821
Sefydlu coetir llydanddail	1,431
Rheoli glaswelltir wedi'i wella ar gyfer cornicyllod a/neu adar hela sy'n gaeafu	1,109
Cynyddu lefelau dŵr ar gynefinoedd addas	570
Troi tir âr yn laswelltir	373
Sefydlu coridorau ar hyd glannau nentydd	369
Clustogfeydd	367
Sefydlu cnydau sy'n gorchuddio bywyd gwyllt	323
Ymylon braenar heb eu cynaeafu	139
Ymylon o laswellt garw	112
Sefydlu twyni tywod newydd	9
Sefydlu morfeydd heli newydd	8
Sefydlu gwelyau cyrs a chorsydd newydd	2
Cyfanswm	**34,987**

Ffynhonnell: Cronfa ddata Tir Gofal (Llywodraeth y Cynulliad)

Atodiad 4 - Grwpiau ffocws o ddeiliaid cytundebau ac ymgeiswyr

1 Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru dri grŵp ffocws gyda deiliaid cytundebau ac ymgeiswyr i drafod eu profiad o gynllun Tir Gofal. Gwahoddwyd cyfranogwyr ar gyngor CCGC i gwmpasu ystod gynrychioliadol, fwy neu lai, o leoliadau, mathau o ffermydd a phrofiad o'r cynllun, fel a ganlyn:

- **a** Lleoliad: cynhaliwyd grwpiau ffocws yn Llandeilo, Sir Gaerfyrddin (13 o gyfranogwyr), Llandrindod, Powys (naw o gyfranogwyr) a Dolgellau, Merionnydd (naw o gyfranogwyr). Lleolid ffermydd y cyfranogwyr yn y sir lle y cynhaliwyd y grŵp ffocws neu, mewn rhai achosion, mewn siroedd cyfagos.
- **b** Math o fferm:
  - Defaid a chig eidion: 13;
  - Defaid yn unig: chwech;
  - Cymysg ffermio âr, cig eidion a defaid: chwech;
  - Llaeth: un;
  - Defaid a merlod mynydd: un;
  - Anhysbys: pedwar.
- **c** Profiad o'r cynllun: roedd dau o'r cyfranogwyr wedi gwneud cais i ymuno â'r cynllun ond nid oeddent wedi ymuno ag ef eto. Roedd y lleill wedi bod yn y cynllun, yn bennaf am gyfnodau o rhwng blwyddyn a phum mlynedd ac roedd tri wedi cyrraedd y pwynt lle y cynhelir yr adolygiad pum mlynedd. Roedd un ar ddeg o gyfranogwyr wedi bod yng nghynllun Tir Cymen ac roedd dau wedi bod yng nghynllun ESA cyn ymuno â chynllun Tir Gofal.

2 Hwyluswyd pob grŵp ffocws i ddilyn canllaw pynciau a ddatblygwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a pharodd tua dwy awr a hanner. Recordiwyd pob sesiwn a dadansoddwyd y trawsgrifiadau i nodi themâu cyffredin a gwahaniaethau rhwng y grwpiau. Talwyd £50 i bob un a fu'n bresennol yn y grŵp ffocws.

3 Ymdriniodd y grwpiau ffocws â'r pynciau canlynol:

- **a** rhesymau dros ymuno â'r cynllun;
- **b** effaith y cynllun ar yr amgylchedd;
- **c** effaith y cynllun ar arferion rheoli tir;
- **ch** cyflwyno'r cynllun (gweinyddu a monitro gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth y Cynulliad);
- **d** dyfodol y cynllun.

Prif ganfyddiadau

Rhesymau dros ymuno â'r cynllun

4 Roedd y mwyafrif o'r cyfranogwyr wedi ymuno â'r cynllun yn bennaf am ei fod yn gwneud synnwyr ariannol. Nid oedd yn fater syml o wneud swm sylweddol o arian o gynllun Tir Gofal, er bod y taliadau rheoli yn rhan bwysig o incwm ffermydd. Ym mhob un o'r tri grŵp,

ymddangosai mai taliadau am waith cyfalaf – yn arbennig ffiniau caeau – oedd y ffactor pwysicaf o ran penderfynu ymuno â'r cynllun. Helpodd y taliadau hyn i wella arferion rheoli stoc a gwerth cyfalaf a golwg y fferm. Fodd bynnag, nid oedd y taliadau yn cwmpasu cost lawn y gwaith cyfalaf ac nid oeddent wedi cynyddu yn unol â chwyddiant.

5 Soniodd llawer o gyfranogwyr am y persbectif tymor hwy: roedd Tir Gofal yn ddeniadol am ei fod yn darparu rhywfaint o sicrwydd yng nghyd-destun prisiau cyfnewidiol y farchnad a chymorthdaliadau sy'n gostwng o ffynonellau eraill. Ystyrid bod cefnogaeth wleidyddol gryfach i'r cynllun a'i fod yn cyd-fynd yn well â thueddiadau cyfredol (i ffwrdd o ffermio dwys) na chynlluniau cymorthdaliadau eraill.

6 Dywedodd dau o'r cyfranogwyr eu bod wedi ymuno â'r cynllun yn benodol i wella'r dirwedd a gwella nodweddion bywyd gwyllt eu ffermydd, ond yn achos y mwyafrif o'r cyfranogwyr roedd hyn yn gymhelliad llai pwysig. Nododd nifer o gyfranogwyr gymaint yr oeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn gallu dychwelyd i arferion ffermio traddodiadol megis plygu perthi, ac ymddangosai fod hyn yn bwysicach na manteision amgylcheddol yn unig.

Effaith amgylcheddol

7 Roedd consensws cryf bod y cynllun yn cael effaith gadarnhaol yn gyffredinol ar yr amgylchedd: roedd cyfranogwyr wedi sylwi sut yr oedd poblogaethau adar a blodau gwyllt wedi cynyddu ar eu ffermydd, a bod ffermydd yn y cynllun ar y cyfan yn 'daclusach' a'u bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n well na'r rhai y tu allan iddo. Mynegwyd safbwyntiau amrywiol ynghylch pa amodau oedd fwyaf buddiol, ond nododd nifer o gyfranogwyr fod manteision gweladwy i opsiynau yn ymwneud â ffermio âr, plannu gwrychoedd a ffensio.

8 Lleisiwyd cryn bryder bod cyfraddau pori rhagnodedig ar ffriddoedd ucheldir yn rhy isel, a bod hynny yn caniatáu i rug a glaswellt y bwla ddominyddu ar draul rhywogaethau eraill. Rodd cyfranogwyr am gael yr hyblygrwydd i amrywio cyfraddau pori i fynd i'r afael â'r problemau hyn, gan gynnwys y gallu i grynhoi anifeiliaid ar ddarnau o dir sy'n achosi problemau am gyfnod byr (y dechneg stoc yn tyrru).

9 Cafwyd safbwyntiau cymysg ynghylch effeithiolrwydd coridorau ar hyd glannau nentydd. Gallai llawer o gyfranogwyr weld eu bod o werth i fywyd gwyllt, ond roedd yn gas gan nifer o gyfranogwyr eraill y 'gordyfiant, y chwyn a'r ysbwriel' a welent yn y coridorau, a'r mynediad a ddarparai'r coridorau i lwynogod. Mewn un neu ddau achos, roedd ffermwyr o'r farn bod angen pori neu reoli'r coridorau yn ddwysach.

10 Dywedodd nifer o gyfranogwyr yr hoffent wybod mwy am effaith y cynllun ar yr amgylchedd a gwnaethant awgrymu y dylid lledaenu'r cyfryw wybodaeth yn ehangach. Ychydig iawn o'r cyfranogwyr a oedd yn ymwybodol o'r astudiaeth fonitro ecolegol.

Effaith arferion rheoli tir

11 Roedd y mwyafrif o'r ffermwyr wedi newid eu harferion ffermio o ganlyniad i ymuno â chynllun Tir Gofal. Roedd y mwyafrif o ffermwyr ucheldir wedi gorfod dadstocio (lleihau nifer yr anifeiliaid ar eu fferm) i gyrraedd cyfraddau pori rhagnodedig. Cynhwysai enghreifftiau eraill o newid arferion: llai o ddefnydd o wrteithiau a phlaladdwyr, tyfu cnydau gwreiddlysiau, cyflwyno gwartheg brodorol, plannu coed a darparu mynediad caniataol. Ystyrid bod coridorau ar hyd glannau nentydd yn ffordd ddefnyddiol o ennill pwyntiau o dan y system sgorio heb ildio gormod o dir cynhyrchiol.

12 Nid oedd lleiafrif o'r cyfranogwyr wedi newid y ffordd yr oeddent yn ffermio am eu bod yn ffermio mewn ffordd nad oedd yn ddwys eisoes.

Cyflwyno'r cynllun

13 Yn gyffredinol, canmolodd y cyfranogwyr y ffordd yr oedd CCGC wedi rhedeg y cynllun a'r swyddogion yr oeddent wedi delio â hwy, ond roeddent o'r farn ei bod wedi cymryd gormod o amser i glirio'r rhestr aros. O ran gwelliannau yr hoffent eu gweld, nododd cyfranogwyr:

- **a** Prosesu ceisiadau yn gyflymach. Roedd dau o'r cyfranogwyr wedi trosglwyddo i gynllun Tir Gofal ar ôl i'w cytundebau o dan gynllun Tir Cymen ddod i ben, ond bu'n rhaid iddynt barhau â'u harferion rheoli heb dderbyn tâl am chwe mis a dwy flynedd yn y drefn honno tra roedd eu ceisiadau yn cael eu prosesu. Teimlent fod hyn yn annheg, am fod CCGC yn cael 'rhywbeth am ddim'.
- **b** Penderfyniadau cyflymach ar geisiadau i wyro oddi wrth y cytundeb, er enghraifft i dorri ffosydd neu wasgaru calch.
- **c** Delio â'r un swyddog trwy gydol y cytundeb, fel y câi'r cytundeb ei fonitro gan rywun a oedd yn deall y fferm a'i chynllun rheoli.
- **ch** Mwy o hyblygrwydd i amrywio cyfarwyddiadau tra bydd cytundeb mewn grym, a mwy o gysondeb ymhlith swyddogion prosiect ynghylch y lefel o hyblygrwydd yr oeddent yn barod i'w hystyried.

14 Roedd y penderfyniad i leihau cyfraddau taliadau ar gyfer llawer o gyfarwyddiadau wedi achosi cryn dipyn o ddicter (nid oedd y cyfraddau taliadau diwygiedig wedi'u cyhoeddi adeg cynnal ein grwpiau ffocws). Roedd ymgeiswyr o'r farn y dylai'r cyfraddau aros yn ddigyfnewid o leiaf tan eu hadolygiad canol tymor, pan gaent gyfle i adael y cynllun. Roed eraill am i'r cyfraddau gynyddu yn unol â chwyddiant.

Dyfodol y cynllun

15 Y prif bryder oedd na fyddai'r cynllun yn parhau i raddau helaeth yn ei ffurf gyfredol ac na châi ei ariannu'n ddigonol. Roedd cyfranogwyr o'r farn y byddai'n drychinebus terfynu cynllun Tir Gofal, am y câi llawer o waith da ei ddadwneud ac am y byddai effaith negyddol ar gontractwyr a chymunedau lleol. Roedd cyfranogwyr mewn dau grŵp yn pryderu ynghylch y gost y gallent fynd iddi wrth adfer eu ffermydd i gynhyrchiant mwy dwys pe bai'r cynllun yn dod i ben.

16 Ni wyddai'r mwyafrif o'r cyfranogwyr fod y cynllun ar fin cael ei drosglwyddo i Lywodraeth y Cynulliad, ond roedd y cyfranogwyr hynny a wyddai am y trosglwyddiad o'r farn bod CCGC yn deall ffermio yn well na Llywodraeth y Cynulliad a byddai'n well ganddynt pe bai'r cynllun yn aros gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Fodd bynnag, ystyrid bod archwiliadau integredig yn fantais a allai ddeillio o'r trosglwyddiad.